Cronfa Loteri Fawr

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Gymunedol

Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005



| | |
|---|---|
| | Medi 2005 |
| **Angen rhagor o wybodaeth?** | Y ffordd orau i gael mwy o wybodaeth yw drwy fynd i'n gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk |
| **Côd** | |
| **Hawlfraint** | © Cronfa Loteri Fawr, 2005 |
| **Design** | Graphicsi.com |
| **Print** | |
| **Copïau:** | Ceir rhagor o gopïau trwy ffonio: 0845 4102030<br>gan ddyfynnu'r cyfeirnodau uchod: Neu anfonwch ebost atom yn ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk neu archebwch ar y we yn www.cronfaloterifawr.org.uk/cyhoeddiadau<br>Ffôn testun 0845 0390204 |
| | Hefyd ar gael ar eich cais mewn Braille, casét sain, ar ddisg mewn print bras, Saesneg ac ieithoedd cymunedol |
| **Rydym yn poeni am yr amgylchedd** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig |
| **Ein hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal** | Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymroi i werthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal, fel dyfarnwr grantiau a chyflogwr. Nod y Gronfa Loteri Fawr yw gweithredu'n gynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a deiliaid grantiau, budd-ddeiliaid, ceiswyr swyddi a'n staff yn cael eu trin yn deg. Mae pob aelod o'n staff ac aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a gweithredu ein polisi cydraddoldeb |
| | Cronfa Loteri Fawr yw'r enw a ddefnyddir gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (a oedd yn dosbarthu grantiau dan enw'r Gronfa Gymunedol) wrth weithredu ar y cyd |
| | Ysgrifennwyd y crynodeb yma gan Steve Browning |

Yn dyfarnu arian
**Y Loteri Genedlaethol**

# Cronfa Gymunedol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## Am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005

CYFLWYNWYD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL YN UNOL AG ADRAN 34 (3) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON.

PARATOWYD A CHYFLWYNWYD Y CYFRIFON YN UNOL AG ADRAN 43D (4) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 1998) GAN Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL.

GORCHMYNWYD EI ARGRAFFU GAN DŴ'R CYFFREDIN AR31 MEDI 2005.

CYFLWYNWYD GERBRON SENEDD YR ALBAN GAN WEINIDOGION YR ALBAN AR
31 RHAGFYR 2005.

HC474 SE/2005/202 LLUNDAIN: THE STATIONERY OFFICE. £17.15

# Cronfa Gymunedol
# ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad: Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 2 |
| 1. Perfformiad yn erbyn amcanion 2004-05 | 4 |
| 2. Rhaglenni a dyfarniadau grant | 14 |
| 3. Ble aeth yr arian | 32 |
| 4. Y Gronfa Loteri Fawr – edrych ymlaen | 37 |
| 5. Gofal Cwsmeriaid | 39 |
| 6. Cydraddoldeb | 42 |
| 7. Cofrestr o fuddiannau | 45 |
| 8. Adolygiad Ariannol | 46 |
| 9. Cysylltu â ni | 48 |
| 10. Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor | 49 |
| 11. Cyfrifon Blynyddol | 52 |
| 12. Cefndir statudol | 94 |
| 13. Rhestr o'r grantiau gwerth rhwng £100,000 a £250,000 | 98 |
| 14. Rhestr o'r grantiau gwerth mwy na £250,000 | 109 |

# Cyflwyniad

## Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae adroddiad blynyddol 2004-05 yn dathlu'r uno gweinyddol llwyddiannus rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol, a ddaeth yn Gronfa Loteri Fawr ar 1 Mehefin 2004. Cyflawnwyd llawer iawn ers yr uno.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd, sy'n cynnwys Bwrdd cydffiniol, wedi datblygu cenhadaeth a gwerthoedd newydd, wedi cwblhau cymathu'r staff presennol yn y strwythur dros dro, ac wedi gweithredu polisïau a strategaethau cydlynol i alinio ein hadnoddau ymhellach i gefnogi cyflwyno'n busnes newydd. Ym mis Ionawr 2005, cydleolodd Comisiwn y Mileniwm yn yr un safle â'r Gronfa Loteri Fawr yn Llundain, fel cam cyntaf tuag at, yn y pen draw, drosglwyddo ei gyfrifoldebau i ni.

Yn erbyn y cefndir hwn, cadwyd gwaith y sefydliadau etifeddiaeth ar y trywydd iawn drwy gynnal gwasanaethau ansawdd uchel i'n hymgeiswyr, deiliaid grant, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Yn ystod 2004-05, ymrwymwyd cyllid gwerth £749 miliwn gennym trwy raglenni DU-eang amrywiol (£550m o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a £199m o'r Gronfa Gymunedol). Ymhlith y rhaglenni presennol yr adroddir yn eu cylch yn adran dau, lansiwyd y Gronfa Pobl Ifanc ym mis Medi 2004 i hyrwyddo lles a datblygiad personol pobl ifanc ledled y DU.

Yn ogystal â hynny, cynhaliodd y Gronfa Loteri Fawr ddau ymgynghoriad DU-eang pwysig â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach rhwng Mehefin 2004 ac Ionawr 2005. Canolbwyntiodd y cyntaf ar ba fath o noddwr y dylem fod a sut y dylem gynnig nawdd, a chanolbwyntiodd yr ail ar y themâu, y canlyniadau a'r blaenoriaethau a fydd yn llunio ein gwaith yn y dyfodol. O ganlyniad, cyhoeddwyd fframwaith polisi cychwynnol ym mis Mawrth 2005 i gefnogi cyflwyno rhaglenni grant newydd gwerth rhyw £2.3 biliwn yn ystod 2006-09.

Hoffem ddiolch i'r Bwrdd, aelodau'r Pwyllgor a'r staff sydd wedi cyfrannu at y cyflawniadau hyn. Maent wedi gosod sylfaen gadarn i'r Gronfa Loteri Fawr allu datblygu'n ariannwr newydd, gwahanol a gwell, gan ddod â gwelliannau go iawn i gymunedau a bywydau'r bobl hynny sydd ei angen fwyaf.

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr

# Adran un

## Perfformiad yn erbyn amcanion corfforaethol 2004/05

**Mae Cynllun Corfforaethol 2004/05 y Gronfa Loteri Fawr yn nodi'r amcanion corfforaethol a'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig. Ceir crynodeb ohonynt isod, ynghyd â manylion am y lefelau perfformiad a gyflawnwyd.**

### 1 Creu sefydliad cyfun o'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sy'n gweithio i Fwrdd Cydffiniol i greu'r Gronfa Loteri Fawr (yn amodol ar ddeddfwriaeth) drwy:

**a) Sefydlu holl aelodau'r Bwrdd o fewn tri mis ar ôl iddynt ymuno.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu'r Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd newydd a datblygu rhaglen sefydlu. | Sefydlwyd y Cadeirydd a'r aelodau Bwrdd newydd o fewn tri mis o ymuno drwy raglen/pecynnau sefydlu. |

**b) Paratoi blaengynllun a strwythur llywodraethu i'r Bwrdd erbyn mis Mai 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Integreiddio'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn Fwrdd cydffiniol newydd. Paratoi blaengynllun a strwythur llywodraethu'r Bwrdd. | Ffurfiwyd y Bwrdd cydffiniol newydd gyda Blaengynllun yn cael ei baratoi ym mis Mehefin 2004. Cytunodd y Bwrdd ar strwythur newydd y Pwyllgor, Cadeiryddion y Pwyllgorau a'u haelodaeth ym mis Gorffennaf 2004. |

**c) Paratoi'r ffordd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr drwy uniad gweinyddol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cytuno ar y strwythur a chymathu staff i'r strwythur newydd. | Cwblhawyd uniad gweinyddol y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar 1 Mehefin 2004 gyda lansiad y Gronfa Loteri Fawr (yn amodol ar ddeddfwriaeth). Adolygwyd y mwyafrif o strwythurau'r gyfarwyddiaeth a chytunwyd ar gymathu staff presennol a recriwtio staff newydd i lenwi'r swyddi gwag. Bydd ailstrwythuro Lloegr a'r Gweithrediadau'n parhau yn ystod 2005/06. |
| Creu amserlen cynllun prosiect ar gyfer integreiddio Comisiwn y Mileniwm i'r Gronfa Loteri Fawr dan gytundeb lefel gwasanaeth erbyn Ionawr 2005. | Ymunodd y Gronfa Loteri Fawr a Chomisiwn y Mileniwm mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth ym mis Ionawr 2005. Symudodd Comisiwn y Mileniwm i safle'r Gronfa Loteri Fawr yn Plough Place. |

**d) Darparu strategaeth gyfathrebu integredig ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Darparu strategaeth gyfathrebu integredig ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. | Cymeradwywyd strategaeth gyfathrebu dros dro gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2004. Caiff y strategaeth gyfathrebu ei chwblhau a'i chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2005. |

**e) Datblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chynllun strategol erbyn Ionawr 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu gweledigaeth, gwerthoedd a chynllun busnes corfforaethol 2005/06. Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer cynhyrchu cynllun strategol. | Datblygwyd gweledigaeth a gwerthoedd y Gronfa a chytunodd y Bwrdd arnynt ym mis Mawrth 2005. Cytunwyd ar fframwaith amlinellol a'r cerrig milltir arfaethedig ar gyfer y broses gynllunio strategol hefyd. Ym mis Mawrth 2005, cymeradwywyd Cynllun Busnes 2005/06 gan y Bwrdd. |

**f) Integreiddio'r gweithdrefnau corfforaethol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu, cyd-drefnu a rheoli timau prosiect newydd sy'n gweithio ar integreiddio gweithdrefnau corfforaethol a datblygu rhaglenni. | Sefydlwyd y Byrddau Rheoli ym Mehefin 2004 i gyd-drefnu a rheoli timau prosiect sy'n gweithio ar integreiddio gweithdrefnau corfforaethol. Mae'r gwaith integreiddio ar y gweill. |

**g) Adolygu'r cynnydd yn erbyn amcanion corfforaethol bob tri mis.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Sefydlu systemau i sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn adrodd ynghylch eu cynlluniau bob tri mis, a pharatoi adroddiad i'r Uwch Dîm Rheoli. | Cytunwyd ar Gynllun Busnes 2004/05 ym mis Mai 2004, gydag adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd. |
| Cyd-drefnu a pharatoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2003/04 ar gyfer y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. | Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer 2003/04 gerbron y Senedd ym mis Hydref 2004. |

# Adran un

### h) Datblygu a chyflwyno ymgynghoriad a chynllun briffio erbyn mis Hydref 2004.

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a chyflwyno ymgynghoriad a chynllun briffio. | Datblygwyd a chyflwynwyd ymgynghoriad a chynllun briffio yn Ebrill 2004, a chwblhawyd dau ymgynghoriad cyhoeddus mawr erbyn Ionawr 2005. |

### i) Datblygu a chyflwyno Polisi Newid Staff tryloyw erbyn Ebrill 2005.

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a chyflwyno Polisi Newid Staff. | Cytunwyd ar y Polisi Newid Staff am y tro cyntaf yn y chwarter cyntaf, ac fe'i diweddarwyd a chytuno ar y diweddariad hwnnw ym mis Mawrth 2005. |

## 2 Cyflawni'r targedau dyfarnu grantiau a nodwyd yn y Cyfarwyddiadau Polisi a'r targedau ardaloedd blaenoriaeth drwy:

### a) Bodloni'r ymrwymiad targed am bob blaenoriaeth/rhaglen sy'n bodoli eisoes.

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r targedau ymrwymiad a gytunwyd a datblygu cynlluniau wrth gefn i sicrhau yr ymrwymir yr holl arian erbyn y dyddiad angenrheidiol. | Bodlonwyd y targedau ymrwymiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

### b) Bodloni'r amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau.

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau. | Bodlonwyd yr amserlenni cyhoeddedig ar gyfer asesu a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

### c) Gosod a bodloni targedau ar gyfer rheoli grantiau.

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Bodloni'r holl dargedau ar gyfer rheoli grantiau. | Bodlonwyd y targedau ar gyfer rheoli grantiau'n rhannol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

## 3 Gwella'n barhaus trwy fod yn ariannwr da a rhannu'r gwersi rydym wedi'u dysgu drwy:

**a) Ddatblygu fframwaith polisi, sy'n cynnwys cydraddoldeb a datblygiad cynaliadwy, i gefnogi cyflwyno rhaglenni grant erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
| --- | --- |
| Datblygu opsiynau rhaglenni/fframwaith i'r Bwrdd, a sicrhau y ceir ymgynghori mewnol ac allanol ynghylch opsiynau rhaglenni. | Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith polisi ym mis Mawrth 2005. Ni chynhwyswyd datblygiad cynaliadwy yn y fframwaith polisi hwn, ond bydd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2005/06. Adroddwyd ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus eisoes ym mesur perfformiad allweddol 1h, uchod. |

**b) Datblygu modelau dosbarthu cyllid ar gyfer holl ddyfarniadau grant yn y dyfodol a nodi oblygiadau gweithredol erbyn mis Hydref 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
| --- | --- |
| Datblygu tîm prosiect i edrych ar ddatblygiad . cynnar modelau dosbarthu, a chymryd golwg gynnar ar ofynion gweithdrefnau a systemau. | Cymeradwywyd Prosiect Toolkit ar gyfer Datblygu Rhaglenni gan y Bwrdd Rheoli Grantiau ym mis Ionawr 2005, ac o ganlyniad i hynny sefydlwyd Tîm Prosiect Datblygu Rhaglenni. Bydd y Tîm yn parhau i adolygu a datblygu ystod o fodelau dosbarthu ar gyfer rhaglenni newydd yn ystod 2005/06. |

**c) Parhau i ddatblygu a chyflwyno strategaethau perthynas ôl-ddyfarnu i'r holl raglenni grant perthnasol (yn gymwys i raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd).**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
| --- | --- |
| Darparu fframwaith o opsiynau dosbarthu a gwerthuso/prisiad i'r Bwrdd. | Cwblhawyd y strategaethau rheoli perthynas ôl-ddyfarnu ar gyfer y rhaglenni perthnasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

**d) Cwblhau strategaeth ynghylch cyllido yn ôl canlyniad erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
| --- | --- |
| Ystyried modelau cyllido yn ôl canlyniad yng nghyd-destun rhaglenni'r Gronfa Loteri Fawr. | Cafodd y modelau cyllido yn ôl canlyniad eu cynnwys yn yr ystyriaeth ehangach o ddatblygu fframwaith rhaglen ariannu newydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |

# Adran un

**e) Cwblhau a gwerthuso cynllun peilot GM04 erbyn Awst 2004 a phenderfynu ar ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2004.**

### Dangosydd Perfformiad

Cwblhau a gwerthuso cynllun peilot GM04 ac, os yw'n llwyddiannus, gweithredu'r broses ar draws rhaglenni grant agored.

### Adroddiad diwedd blwyddyn

Cwblhawyd gwerthusiad allanol terfynol o gynllun peilot GM04 yn ystod y trydydd chwarter, a chyflwynwyd yr adroddiad i Fwrdd y Prosiect. Caiff canfyddiadau'r adroddiad eu bwydo i fecanweithiau dosbarthu rhaglenni newydd Prosiect Toolkit ar gyfer Datblygu Rhaglenni.

**f) Cytuno ar strategaeth ymchwilio a gwerthuso integredig, a dechrau ei gweithredu erbyn Mawrth 2005.**

### Dangosydd Perfformiad

Cynhyrchu strategaeth ymchwilio a gwerthuso ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr.

### Adroddiad diwedd blwyddyn

Cwblhawyd y strategaeth ymchwilio a gwerthuso ddrafft. Mae'n amodol ar gytundeb y Bwrdd ym mis Mai 2005. Caiff ei gweithredu wedi hynny.

**g) Symud ymlaen â gwaith ar gyd-ddosbarthwr sy'n gweithio trwy gyfrwng fforymau perthnasol trwy gydol y flwyddyn.**

### Dangosydd Perfformiad

Cynnydd wrth gydweithio â dosbarthwyr eraill y loteri drwy fforymau perthnasol.

### Adroddiad diwedd blwyddyn

Mynychodd y Prif Weithredwr a'r staff perthnasol gyfarfodydd Fforwm y Loteri yn rheolaidd, ym mhob un o'r pedair gwlad, yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## 4 Bod yn atebol ac yn effeithlon yn ariannol drwy:

**a) Gyflawni arbedion effeithlonrwydd o 10 y cant o leiaf dros 2003/04 ar gostau uned busnes corfforaethol (ac eithrio gweithgareddau dyfarnu grant):**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Adolygu adnoddau yn ystod y flwyddyn i gyfrannu at arbedion cyffredinol o 10 y cant o leiaf | Gwnaeth y Gronfa arbedion o 9.6%. |

**b) Lleihau mantolau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) i rhwng £575m a £625m (y Gronfa Cyfleoedd Newydd) a rhwng £50m a £100m (y Gronfa Gymunedol), trwy ddatblygu targedau a strategaethau perthnasol ar gyfer yr holl raglenni:**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Darparu manylion llif arian misol i hysbysu'r Uwch Dîm Rheoli o'r cynnydd yn erbyn targedau'r CDdLG. | Lleihau mantolau'r CDdLG i £691m (y Gronfa Cyfleoedd Newydd) a £174m (y Gronfa Gymunedol). (Cyfeiriwch at Adran wyth am fwy o wybodaeth) |

**c) Sicrhau y gweithredir strategaeth risg unigol erbyn Rhagfyr 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cytuno ar strategaeth risg gorfforaethol. | Cynhyrchwyd cofrestr risg gorfforaethol ym mis Medi 2004. Cynhyrchir strategaeth risg unigol yn ystod 2005/06. |

# Adran un

**d) Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau'n atebol, ar sail fframwaith rheoli mewnol a'u bod yn bodloni gofynion cyfreithiol, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu strategaethau ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, sy'n cynnwys holl feysydd perthnasol busnes y Gronfa Loteri Fawr. | Datblygwyd cynllun gweithredu yn ystod y chwarter cyntaf i alluogi'r Gronfa i ymdrin â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Darparwyd hyfforddiant i'r staff trwy gydol 2004/05. Penodwyd Ymgynghorydd Gwybodaeth Gorfforaethol ym mis Ionawr 2005. |
| Gweithredu cydgynlluniau archwilio fel a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2004. | Gweithredwyd y cydgynllun archwilio, a chynhaliwyd hunan asesiad o'r rheolaethau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |
| Adolygu cynllun yr iaith Gymraeg. | Cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dderbyn y cynllun fel un gwirfoddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. |
| Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Adran 75 i'r Comisiwn Cydraddoldeb . | Cynhyrchwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Adran 75 i'r Comisiwn Cydraddoldeb ym mis Awst 2004. |

## 5 Dysgu o'n profiadau a phrofiadau sefydliadau eraill i wneud gwelliannau parhaus i'r modd y mae ein sefydliad yn gweithredu trwy:

**a) Adolygu pob rhan o'r busnes i nodi arferion gorau perthnasol i lywio datblygiad corfforaethol yn y dyfodol erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cefnogi'r holl dimau prosiect ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at reoli prosiectau, gan ddarparu'r hyfforddiant, y prosesau, y dogfennau, yr offer a'r technegau angenrheidiol i'r staff. | Timau prosiect a gefnogir gan Dimau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau, fel sy'n ofynnol i gyflwyno o fewn yr amserlenni gofynnol. Cytunodd y Byrddau Rheoli ar Fframwaith Datblygu Rhaglenni newydd, a ddyluniwyd i adlewyrchu arfer da wrth reoli prosiectau, wrth ddatblygu rhaglenni ariannu newydd. Mae hyfforddiant ar y gweill. |

**b) Nodi model rheoli perfformiad trefniadaethol priodol a fydd yn bodloni'r anghenion busnes erbyn Medi 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Ymchwilio i fodelau rheoli perfformiad a gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn llywio cynllunio 2005/06. | Cytunwyd mai'r Cerdyn Sgorio Cytbwys fyddai'r model rheoli perfformiad i lywio cynllunio busnes strategol Cynllun Strategol 2006/09. Cytunwyd hefyd y dylid cynnal cynllunio busnes 2005/06 ar sail debyg i 2004/05. |

**c) Datblygu a gweithredu polisi gofal cwsmeriaid erbyn Rhagfyr 2004.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Adolygu'r modd y mae'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn arolygu eu cwsmeriaid, a chytuno ar sut a phryd y dylai'r Gronfa Loteri Fawr gynnal arolygon. | Cwblhawyd adolygiad o'r arolygon a gynhaliwyd gan y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ym mis Medi 2004. |
| Safoni siarter cwsmeriaid a system gwyno â'r dosbarthwyr eraill. | Cytunwyd ar Siarter a Phroses Gwyno Cyffredin gan yr holl ddosbarthwyr ym mis Mawrth, i'w lansio ar 1 Ebrill 2005. |

# Adran un

## 6 Gwneud gwelliannau parhaus mewn bod yn gyflogwr da (amcan pobl) trwy:

**a) Ddatblygu polisïau Adnoddau Dynol sy'n cyd-fynd â'r anghenion busnes ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal erbyn Mawrth 2005.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu a gweithredu set gyson o bolisïau, prosesau, gweithdrefnau, telerau ac amodau Adnoddau Dynol. | Cytunwyd ar set gyson o brosesau, telerau ac amodau Adnoddau Dynol ym mis Mawrth 2005. |

**b) Cynnal arolwg boddhad staff cynhwysfawr erbyn Mawrth 2005, a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion sy'n codi.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Cynnal arolwg staff ynghylch yr ystod gyfan o faterion a fydd yn effeithio ar y Gronfa Loteri Fawr, a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi. | Gwnaed penderfyniad i ohirio'r arolwg staff tan ar ôl cyflawni'r Adolygiad Strwythurol. |

**c) Datblygu set gyson o systemau monitro ac ymdrin ag unrhyw faterion o'r cynlluniau gweithredu presennol na ddeliwyd â hwy eto.**

| Dangosydd Perfformiad | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|
| Datblygu set gyson o systemau monitro ac ymdrin ag unrhyw faterion o'r cynlluniau gweithredu presennol na ddeliwyd â hwy eto. | Cwblhawyd yr adolygiad o ymagwedd y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd at y systemau monitro cydraddoldeb Adnoddau Dynol presennol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Caiff y canfyddiadau eu mabwysiadu yn ystod 2005/06. Caiff materion na ddeliwyd â hwy yn y cynlluniau gweithredu cydraddoldeb presennol eu hadolygu hefyd yn erbyn y canfyddiadau yn 2005/06. |



# Adran dau
## Rhaglenni a dyfarniadau grant



### Grantiau strategol
Dyfarnwyd 60 o grantiau gwerth dros £18 miliwn.

Mae'r rhaglen hon, sy'n annog sefydliadau elusennol cenedlaethol a grwpiau gwirfoddol a chymunedol eraill i wneud cais ar gyfer prosiectau sy'n dylanwadu ar bolisi ac arferion, wedi parhau i fod yn boblogaidd iawn.

Allan o'r 56 o geisiadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, roedd 39 y cant ar gyfer prosiectau dylanwadu gwerth cyfanswm o fwy nag £8 miliwn allan o wariant o £17.7 miliwn i gyd.

Derbyniodd 'Voice for the Child in Care' grant o £300,834 i ddefnyddio eu "Cynllun" a ymchwiliwyd yn flaenorol ar gyfer gwella'r system gofal a chyfranogiad a rhan pobl ifanc o fewn y system honno. Bydd y "Cynllun" hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y Mesur Plant a'r canllawiau o ran polisi ac arfer a chyllid a ddaw yn ei sgîl ac fe fydd, trwy hynny, yn cael effaith sylweddol ar fywydau pobl ifanc sydd mewn gofal ar hyd a lled y DU.

Derbyniodd SCOPE £363,522 i gynyddu'r nifer o gymeriadau plant anabl, a'u hansawdd, a geir mewn llyfrau plant (mewn lluniau ac o fewn y stori), gan ddarparu modelau rôl positif a thrwy hynny gynyddu hunanhyder a chynhwysiad plant anabl a'u teuluoedd mewn cymdeithas. Gwneir hyn drwy ddylanwadu ar gyhoeddwyr a sefydliadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu llyfrau plant. Bydd hefyd yn darparu adnodd o luniau a straeon i gyhoeddwyr a mwy na 5,000 o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant anabl.

Eleni, cryfhawyd ymhellach y bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Carnegie y DU i symud ymlaen gyda menter Cymunedau Cefn Gwlad er gwella bywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn rhai o'n hardaloedd gwledig tlotaf. Daeth Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn bartner cyllido eleni a bydd yn rhannu £2.2 miliwn ar ein rhan.

Bydd y rhaglen o ymchwil gweithredol i ddatblygu cymunedol gwledig yn cyfrannu at Gomisiwn Gwledig yr Ymddiriedolaeth ac yn help i ddylanwadu'n ehangach ar bolisi, arfer ac ariannu gwledig. Dylai'r cyfleoedd i'r ddau fudiad ddysgu ar y cyd fod yn sylweddol.

### Grantiau ymchwil
Dyranwyd 28 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £5.7 miliwn.

Nod ein rhaglen grantiau Ymchwil yw caniatáu i grwpiau gwirfoddol a'u buddiolwyr gael mynediad at ymchwil meddygol a chymdeithasol, a chodi pontydd rhwng y sector gwirfoddol ac ymchwilwyr. Rhoddir ein holl grantiau'n uniongyrchol i sefydliadau yn y sector gwirfoddol, sydd ar y cyfan yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion. Trwy fabwysiadu'r egwyddor o gael y 'sector gwirfoddol i arwain', mae'r rhaglen, sydd bellach wedi bod yn rhedeg ers dros dair blynedd, yn gwneud cyfraniad unigryw i'r holl faes ariannu ymchwil yn y DU.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyrannu oddeutu £5.7 miliwn i 28 prosiect ymchwil meddygol a chymdeithasol.



Mae nifer o'r grantiau'n canolbwyntio ar y newidiadau sylweddol yn y rhan y mae pobl ifanc yn ei chwarae yn eu cymunedau lleol. Dyrannwyd £178,000 i'r Birmingham Association of Youth Clubs er mwyn profi sut y gellir defnyddio ymchwil er mwyn cynnwys pobl ifanc mewn prosesau penderfynu lleol. Rhoddwyd grant o £158,000 tuag at ymchwil newydd gan CHILDREN 1ST (Royal Scottish Society for Prevention of Cruelty to Children) i edrych ar sut mae rôl tadau ifanc yn newid.

Rhoddwyd grant gwerth £195,000 i'r 'Mental Health Foundation/Foundation for People with Learning Disabilities' ar gyfer prosiect newydd a elwir yn 'What About Us?'. Mae'r prosiect hwn yn edrych ar brofiadau pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn ysgolion a cholegau prif lif, a gobaith tîm y prosiect yw y byddant yn gallu gwella arferion a chynnig canllawiau a fydd yn gwella eu lles emosiynol.

Yn ogystal â dyrannu grantiau rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau cyfathrebu ac allgymorth. Er enghraifft, cynhaliwyd cyfres o weithdai cefn gwlad gennym i lunio strategaethau a fyddai'n galluogi mudiadau gwirfoddol bach a chanolig i ddefnyddio ymchwil ac adeiladu partneriaethau effeithiol gyda chanolfannau ymchwil.

## Grantiau rhyngwladol

Dyranwyd 27 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £11.4 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn pan oedd y Comisiwn ar Affrica yn tynnu sylw Prydain yn gyson at raddfa'r tlodi a brofir gan filiynau o bobl Affrica, parhaodd ein rhaglen grantiau Rhyngwladol i anelu arian at y rhai oedd â'r angen mwyaf amdano. Eleni, aeth 65 y cant o'n cyllideb werth £11.4 miliwn tuag at brosiectau yn Affrica. Bydd y rhain yn cynorthwyo yn y gwaith o ehangu mynediad at addysg, gwella iechyd, darparu dŵr a ffyrdd amgen o wneud bywoliaeth, a diogelu hawliau'r rhai sydd fwyaf difreintiedig. Anelwyd gweddill yr arian at gymunedau tlawd yn Asia, Dwyrain Ewrop ac America Ladin.

Ymysg yr enghreifftiau o brosiectau sydd wedi derbyn grantiau gennym eleni y mae £759,119 i 'Health Unlimited' i wella iechyd mewn cymunedau bugeiliol yn Ethiopia. Mae cyfleusterau gofal iechyd yn yr ardal yn gyfyngedig ac nid ydynt yn ystyried ffordd grwydrol y bobl o fyw. Ni cheir ond chwech y cant o enedigaethau ym mhresenoldeb gweithwyr iechyd cymwys, ac mae un plentyn o bob pump yn marw cyn cyrraedd ei bump oed. Bydd y prosiect yn codi'r nifer o blant dan bump oed sy'n cael eu himiwneiddio ac yn gwella iechyd y mamau trwy gefnogi clinigau teithiol a hyfforddi gweithwyr iechyd.

Cafodd 'Sense' International grant o £390,553 er mwyn iddynt helpu plant dall a byddar yn India. Mae llawer o'r rhain yn hynod ddifreintiedig, yn cael eu cadw mewn cewyll amrwd neu'n cael eu clymu'n gaeth wrth i'w rieni fynd at eu gwaith. Bydd y prosiect yn gweithio gyda'r plant, eu rhieni, athrawon a swyddogion y llywodraeth er mwyn ymestyn addysg brif lif i'r plant hyn.

# Adran dau



Pan gafodd y Gronfa Loteri Fawr ei sefydlu, buom yn cynnal ymgynghoriad ynglŷn â dyfodol y rhaglen grantiau Rhyngwladol. Cymerodd llawer o elusennau Prydeinig sy'n ymddiddori ym maes datblygu rhyngwladol ran. Yn Rhagfyr 2004, cyhoeddodd Cronfa Loteri Fawr y byddai'n parhau i gynnal rhaglen grantiau Rhyngwladol. Ers hynny, rydym wedi ymgynghori ymhellach ar yr hyn y dylai'r rhaglen ei gyflawni a sut y dylid gwneud hyn.

Effeithiwyd ar y Bwrdd gan faint trychineb Tswnami Asia yn Rhagfyr 2004, a chyhoeddwyd y byddai £12 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer mentrau ailadeiladu hirdymor yn yr ardaloedd a ddioddefodd waethaf. Wrth i'r ardal symud ymlaen o'r cyfnod argyfwng i adferiad yn y tymor hwy, rydym yn cydweithio'n agos gydag elusennau o Brydain sydd yn weithredol yno er mwyn targedu'r arian hwn mor effeithiol ag y bo modd.

## Cymru

Dyranwyd 355 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £10.6 miliwn.

Un o'r heriau mwyaf i ni eu hwynebu eleni oedd ymdopi â'r galw uchel a pharhaus am ein harian. Mae targedu effeithiol, cydweithio a chyfathrebu da wedi helpu darpar ymgeiswyr i ddeall ein polisïau a gweithdrefnau'n well, a dylanwadodd hynny ar eu penderfyniad a ddylent ymgeisio ai peidio.

Wrth i fenter **cyfran deg** ddirwyn i ben, cyflawnwyd targedau mewn tair ardal. Roedd y perfformiad yng Nghaerffili'n arbennig o galonogol oherwydd sefydlu cytundeb tair ffordd rhwng y Gronfa Gymunedol, y Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) lleol a'r awdurdod lleol, gyda'r canlyniad bod y cyllido yn y sir wedi ei ddyblu. Roedd y defnydd o ffurflenni amlinellol cyn i gais llawn gael ei wneud yn fanteisiol i ddarpar ymgeiswyr gan alluogi staff i dargedu eu gwaith allgymorth yn effeithiol.

Ffocws allweddol ein gwaith eleni oedd gweithio ar y cyd. Sefydlwyd strwythur staff newydd i gyfuno gwaith y Gronfa Gymunedol â staff y Gronfa Cyfleoedd Newydd, gan esgor ar un tîm gydag ymrwymiad i sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannydd Loteri effeithiol yng Nghymru. Canlyniad parhau â'n hymwneud ag arianwyr eraill y Loteri a Camelot oedd cyfres o ddigwyddiadau cyllido ar y cyd ledled Cymru, yn arwain at ddathlu am wythnos gyfan ben-blwydd y Loteri Genedlaethol yn ddeg oed fis Tachwedd. Gweinyddwyd y rhaglen Arian i Bawb Cymru gennym, ac mae ei phoblogrwydd parhaus gydag ymgeiswyr yn amlwg oddi wrth y nifer o geisiadau a dderbyniwyd.

Parhaodd ein perthynas agos â'r sector gwirfoddol a buom yn gweithio'n agos â'n rhanddeiliaid i sicrhau y byddai'r wybodaeth bod y rhaglen boblogaidd o grantiau i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol yn dod i ben yn cael ei lledaenu'n iawn, gan roi cymaint o rybudd ag y bo modd. Esboniwyd a hyrwyddwyd yr ymarfer ymgynghori ynglŷn â dyfodol cyllido gan y Gronfa Loteri Fawr yng nghynhadledd CGGC. Buom yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn datblygu Cynllun yr Iaith Gymraeg newydd, gan adeiladu ar gryfderau'r ddau gynllun blaenorol. Bydd hyn yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol unwaith y bo'r ddeddfwriaeth wedi ei chwblhau.



Derbyniodd 'Circus Eruption' yn Abertawe grant o £73,307. Mae'r prosiect yn annog plant o bob gallu i ryngweithio a goresgyn canfyddiadau negyddol. Drwy sgiliau a gemau syrcas mae'n annog pobl ifanc o bob gallu i integreiddio â'i gilydd ac i gefnogi eu gilydd i oresgyn amryw sialensau a dysgu pethau newydd.

## Yr Alban

Dyranwyd 479 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £18.8 miliwn.

Roedd hon yn flwyddyn fawr - ym mhob ystyr o'r gair - wrth i'r Gronfa Gymunedol baratoi i uno â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn y disgwyliad y ceir deddfwriaeth a fydd yn creu dosbarthydd Loteri newydd. Awydd yr Ysgrifennydd Diwylliant am weld y dosbarthydd newydd fel corff a fyddai'n "fwy na chyfanswm ei gydrannau" oedd man cychwyn enwi'r dosbarthydd newydd yn Gronfa Loteri Fawr.

Yn sgîl gwaith ymgynghori, cafwyd cefnogaeth y staff a'r cyhoedd i'r syniad o "fawr" a thrwy gydol y flwyddyn cafwyd atsain o'r enw newydd mewn aml i gyd-destun - uchelgeisiau mawr, syniadau mawr, rhan fawr mewn gosod y blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni newydd. Yng ngeiriau ein cydgyhoeddiad cyntaf, dyma yn wir "Newydd Mawr".

Wrth i ni uno systemau gweinyddol y ddau gorff i arbed rhywfaint o arian, a'i gwneud hi'n haws i ymgeiswyr gael mynediad at arian y Loteri, roedd busnes y rhaglenni cyllido'n aros heb ei newid, gan iddynt gadw eu hunaniaeth.

Parhaodd rhaglen y Gronfa Gymunedol i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a sefydlwyd yn ei gynllun strategol yn 2002: cyllido prosiectau a fyddai o fudd i bobl sy'n ddifreintiedig oherwydd newid cymdeithasol neu economaidd, pobl anabl a'u gofalwyr, a chymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Roedd ein ffurflen gais amlinellol yn boblogaidd gyda'n hymgeiswyr ac ymrwymwyd y gyllideb ar gyfer grantiau yn llawn.

Un prosiect llwyddianus iawn a dderbyniodd arian yw'r prosiect 'Chatability'. 'Chatability' yw'r ystafell sgwrsio gyntaf saff yn Yr Alban sydd wedi ei hanelu at blant anabl a phobl ifanc. Derbyniodd 'Chatability' yr Alban £39,500 gan y Gronfa Gymunedol yn haf 2004 i sefydlu man rhith ar gyfer ieuenctid anabl er mwyn iddynt allu cyfarfod â ffrindiau newydd, cyfnewid newyddion a rhannu syniadau.

Rhoddwyd sylw i'r goreuon ymysg y prosiectau a gyllidwyd gan y Loteri er mwyn dathlu degfed penblwydd y Loteri Genedlaethol ar 6 Tachwedd. Canolbwynt y dathliadau oedd digwyddiad mawr yng Nghanolfan Wyddoniaeth Glasgow, ac bu i fwy na 180 o brosiectau ledled yr Alban naill ai agor eu drysau am ddim, gynnal partïon i ddathlu, neu gynnal cystadlaethau chwaraeon er mwyn dangos yr hyn y mae cyllido gan y Loteri wedi ei gyflawni dros yr Alban.

Symudodd y Gronfa Gymunedol, gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, i adeilad newydd ar Lannau Clud ganol mis Rhagfyr ac ers hynny mae rhaglen y Gronfa Gymunedol (a ail-enwyd yn 'Developing Communities') wedi dechrau ar ei gyfnod terfynol, ar ôl 10 mlynedd fel ariannydd annibynnol mwyaf y sector gwirfoddol yn yr Alban. Ar ddechrau blwyddyn newydd, rydym yn edrych yn ôl i'r gorffennol ac ymlaen i'r dyfodol, a hynny ar yr un pryd, gan gydnabod ein bod wedi gadael etifeddiaeth fawr ar ein hôl.

# Adran dau



## Gogledd Iwerddon

Dyranwyd 283 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £6.8 miliwn.

Dathlodd swyddfa Gogledd Iwerddon ei phenblwydd yn ddeg oed eleni ac aethom ati i ddatblygu rhaglenni newydd, a hynny mewn cyfnod o newid cyffrous.

Rydym ni am i'r rhaglenni hynny adeiladu ar gyraeddiadau rhaglen y Sector Gwirfoddol a Chymunedol, gan ein helpu i wireddu ein huchelgais o sicrhau bod unigolion a chymunedau'n chwarae eu rhan mewn cyflwyno newid cymdeithasol er gwell.

Yn dilyn lansiad y Gronfa Loteri Fawr fis Mehefin 2004 cynhaliwyd ymgynghoriad ledled Gogledd Iwerddon gennym er mwyn cywain barn am sut y dylem gyllido blaenoriaethau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Byddwn yn ymateb i'ch barn a ddaw'n amlwg o'r ymgynghoriad trwy wneud newidiadau yn ein ffordd o weithredu, gan gynnwys mabwysiadu agweddau newydd tuag at gyllido. Cychwynasom ar ymgynghori o'r newydd fis Chwefror 2005 er mwyn ein helpu i ddatblygu rhaglenni newydd, ac rydym wedi dechrau ar newidiadau a fydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer hyn.

Rydym eleni wedi parhau i gyrraedd ein grwpiau targed, yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl anabl a phob hŷn a'u gofalwyr. Rydym yn dal i gyrraedd ein targedau ar gyfer cyllido cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Diogelodd ‘Caring Breaks Limited’ grant o £96,771 gennym i ddarparu seibiant angenrheidiol i deuluoedd yn Ne a Dwyrain Belfast ac i ofalwyr oedolion ag anableddau dysgu difrifol. Mae’r grant yn sicrhau y gall y sefydliad gynnig seibiant i fwy o ofalwyr gyda’r sicrhâd fod eu mab neu ferch yn derbyn y gofal gorau ac yn cael eu cynnwys mewn amrediad o weithgareddau a fydd yn adeiladu eu sgiliau a hyder.

Rydym wedi parhau i osod cydraddoldeb yn flaenoriaeth uchel ar ein rhaglen wrth i ni weithio i lunio'r rhaglen gydraddoldeb ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr yng Ngogledd Iwerddon. Rydym wedi gwneud ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleoedd a chysylltiadau da yn glir, a byddwn yn parhau i weithio tuag at wneud cydraddoldeb yn greiddiol i'n gwaith wrth i ni ddatblygu polisïau a rhaglenni sydd yn unol â'n dyletswyddau dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

## Gogledd Ddwyrain Lloegr

Dyranwyd 297 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £8.7 miliwn.

Mae gan Ogledd Ddwyrain Lloegr gymysgedd amrywiol o gymunedau trefol, lled wledig a gwledig, gydag ardaloedd sylweddol o amddifadedd a nifer o ardaloedd adfywio. Mae rhai o'n cymunedau ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yn yr holl DU. Ceir ymrwymiad cryf, fodd bynnag, i sicrhau cynhwysiant ac adfywiad cymdeithasol gwell ar gyfer cymunedau difreintiedig gwledig a threfol, ac mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn weithgar iawn yn y rhanbarth. Rydym wedi ymateb i hyn trwy gyllido ystod eang o brosiectau, yn cynnwys adeiladau cymunedol, cynlluniau cynghori am ddyled, hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol a gweithgareddau ar gyfer pobl anabl, gyda chyfanswm o £8.7 miliwn yn helpu pobl yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.



Rydym wedi cyrraedd neu wedi pasio pob targed o flaenoriaeth ranbarthol a oedd gennym ond un (sef plant a phobl ifanc, pobl hŷn a'u gofalwyr, pobl anabl, pobl sydd dan anfantais oherwydd newid economaidd a chymdeithasol, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches). Nid ydym wedi cwrdd â'n targed ar gyfer pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Fel ffordd o fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon am gyllid, rydym yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth un-i-un cyn ymgeisio i ddarpar ymgeiswyr o grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

Daeth y fenter deirblwydd **cyfran deg** i ben fis Mawrth 2005, a chwrddasom â'n targedau yn yr ardaloedd hynny (Stockton a Darlington) o flaen amser.

Buom yn gweithio'n agos yn ystod y flwyddyn gydag asiantaethau cynorthwyol i gynnig cyngor mewn cymorthfeydd cynghori a digwyddiadau allgymorth.

Un o'r dyfarniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd i 'Age Concern Metropolitan Gateshead'. Rhoddwyd y grant i brosiect 'good companions', sef cynllun sy'n rhoi cefnogaeth i bobl hŷn ar sut i ymdopi â byw ar eu pen eu hunain. Mae 'Good Companions' yn cynnig amrediad o wasanaethau yn cynnwys ymweld â'r cartref, galwadau ffôn a rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol. Mae'r grant o £113,000 dros dair blynedd wedi talu am gyflogau dau aelod o staff.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori yn Middlesbrough a Newcastle fis Mehefin, a digwyddiadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer ein grwpiau blaenoriaeth lleol. Cynhaliwyd digwyddiad gennym hefyd fis Medi ar gyfer rhanddeiliaid allweddol rhanbarthol.

Er mwyn dathlu 10fed Pen-blwydd y Loteri, cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus gennym ar gyfer y cyd-ddosbarthwyr yn y Ganolfan Metro, Gateshead i arddangos gweithgareddau ac ymwneud rhai o ddeiliaid ein grantiau.

Gwnaethom un o'r dyfarniadau cyntaf o dan raglen Grantiau i Fudiadau y Gronfa Pobl Ifanc a hynny i brosiect celf gymunedol greadigol sy'n gweithio gyda merched dan anfantais.

## Gogledd Orllewin Lloegr

Dyranwyd 516 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £22 miliwn.

Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr, gyda 6.9 miliwn o bobl, yw'r ail fwyaf ymysg rhanbarthau Lloegr o ran poblogaeth, ac mae'r dwysedd poblogaeth deirgwaith y cyfartaledd Ewropeaidd. Cymysgedd ydyw o gymunedau trefol, lled wledig a gwledig, gydag ardaloedd eang o amddifadedd a nifer o fannau adfywiad pwysig.

Gan y rhanbarth y mae'r nifer fwyaf o ardaloedd sy'n dod o fewn y 20 y cant o Loegr sy'n dioddef o'r amddifadedd gwaethaf (Mynegrif Amddifadedd Lluosog 2004) ac mae gan gytrefi Manceinion a Lerpwl lefelau o amddifadedd sydd yn gyson uwch na'r rhan fwyaf o'r ardaloedd eraill yn Lloegr.

Mae gan sector gwirfoddol y rhanbarth lawer iawn o grwpiau lleol sydd wedi eu gwreiddio yn y gymuned ac yn cael eu cefnogi gan gyrff isadeiledd lleol. Mae llawer o'r rhain wedi bod yn bartneriaid i ni yn ystod y flwyddyn, gan weithio gyda ni i gynnig cyngor a chefnogaeth i grwpiau sy'n ymgeisio am grantiau Loteri.

Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn oedd pasio ein holl dargedau ar gyfer grwpiau o fuddiolwyr sydd wedi eu blaenoriaethu a hefyd ein targedau daearyddol. Dan y fenter **cyfran deg** cafodd rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr fwy o ardaloedd **cyfran deg** na'r un rhanbarth arall yn y wlad - sef 17 o ardaloedd llywodraeth leol.

Rydym wedi ymfalchïo'n fawr yn lefel y gwasanaeth cwsmer a gynigiwyd i ymgeiswyr. Penderfynwyd ar yr holl geisiadau a aseswyd gennym yn ystod y flwyddyn o fewn y cyfnod a bennwyd ar gyfer y gwaith.

# Adran dau

Gwnaethom welliannau hefyd i'r ffordd o gynnig cefnogaeth cyn ymgeisio i ddarpar ymgeiswyr. Rhoesom gyfle i grwpiau ganfod a fyddai eu prosiectau'n debygol o gwrdd â'n polisïau cyllido a hynny'n fuan - fel y gallent benderfynu mynd ymlaen gyda chais llawn ai peidio.

Mae'r canlynol ymysg y grantiau sydd wedi symud ymlaen yn sylweddol o ran prosiectau a deilliannau yn ystod y flwyddyn hon:

- Cafodd 'Age Concern' Barrow a'r Ardal £167,975 i helpu gyda'r Cynllun Pontio, a fydd yn darparu dosbarthiadau crefftau, sesiynau hel atgofion, rhaglenni llythrennedd a phrosiect ffotograffiaeth i'r rhai dros 55 oed. Mae hefyd yn cynnig prosiect sioe ffasiynau a garddio oedran cymysg mewn ysgolion a cholegau i wella'r berthynas rhwng dwy ran wahanol o'r gymuned.
- Rhoddwyd £194,374 i 'Diversity in Barrier Breaking Communications'. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio cyfleusterau darlledu megis systemau sain, stiwdios recordio byw, deciau cymysgu a sgiliau TG i gynnig hyfforddiant i bobl ifanc anabl neu ddadrithiedig. Canmolwyd y prosiect am ei dull unigryw o weithredu ac enillodd wobr arbennig gan Learn Direct yn y Gwobrau Hyfforddi Cenedlaethol.

## Swydd Efrog a'r Humber

Dyfarnwyd 396 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £15 miliwn.

Mae rhanbarth Swydd Efrog a Humber yn gymysgedd o gymunedau gwledig a threfol gydag anghenion a thraddodiadau amrywiol. Yn ystod 2004-5 dyrannodd rhaglen sector Gwirfoddol a Chymunedol y Gronfa Loteri Fawr grantiau i nifer helaeth o brosiectau sy'n ymateb i amryw o anghenion y cymunedau lleol ac sy'n annog pobl i gymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

Daeth y fenter **cyfran deg** – a gynlluniwyd i sicrhau bod mwy o arian Loteri'n mynd i rai rhannau o'r rhanbarth nad oeddynt cyn hynny wedi derbyn eu **cyfran deg** o gyllid y Loteri – i ben ar gyfer rhaglen y sector Gwirfoddol a Chymunedol ym mis Mawrth 2005. Cawsom darged o £18.6 miliwn i'w ddyrannu i bedair ardal llywodraeth leol mewn cyfnod o dair blynedd. Roeddem yn falch iawn o gwrdd â'r targedau am bob un o'r ardaloedd hyn – Doncaster, Rotherham, Wakefield a Kirklees.

Llwyddasom i gwrdd â'n targedau **cyfran deg** trwy weithio mewn partneriaeth â llawer o arianwyr ac asiantaethau eraill i gynnig gwasanaethau cefnogol i grwpiau lleol i'w helpu i lunio prosiectau llwyddiannus. Rydym yn hyderus y bydd yr arian a roddwyd i asiantaethau lleol i'w galluogi i gefnogi grwpiau llai, a'r rhwydweithiau ariannu a grëwyd fel rhan o'r rhaglen, yn cael effaith barhaol, yn ychwanegol at waith ardderchog y prosiectau lleol.

Trefnasom ddwy fenter benodol yn gysylltiedig â Chyfran Deg. Y gyntaf oedd cynllun cyllido ar y cyd ag ariannwyr Ewropeaidd Amcan 1, yn Doncaster a Rotherham. Golygai hyn y gallem ddyblu gwerth ein buddsoddiad yn rhai o'r cymunedau bach sydd dan yr anfanteision mwyaf, trwy gynnig arian cyfatebol ar gyfer prosiectau a oedd hefyd yn derbyn arian Ewrop. Trwy weithio gydag Amcan 1, bu modd i ni symleiddio'r broses ymgeisio a rhoi penderfyniad am gyllid yn gynt. Yr ail oedd panel lleol a weithiai mewn tair ward yn ardal Wakefield gan roi cyfle i bobl leol fynegi barn am yr angen am brosiectau yn eu hardal.

Rydym wedi parhau i gyllido llawer o waith da ledled y rhanbarth, yn cynnwys sawl prosiect sydd wedi bod o fudd i blant a phobl ifanc. Mae Canolfan Gymunedol Tsieineaidd Sheffield yn enghraifft o un o'r prosiectau hyn; dyfarnwyd grant o £117,606 i ddatblygu ac ymestyn eu cynllun chwarae plant sydd yn cynnig amrediad o weithgareddau i blant rhwng 5 a 14 oed, gyda'r nod o wella eu hunanhyder a'u sgiliau cymdeithasol.



## Dwyrain Canolbarth Lloegr

Dyranwyd 349 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £9.8 miliwn.

Mae gan Ddwyrain Canolbarth Lloegr yn agos at 36,000 o grwpiau sector gwirfoddol a hynny mewn rhanbarth sydd â rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y wlad, yn bennaf yn yr ardaloedd trefol a'r cyn feysydd glo yn y gogledd a chymunedau gwledig yn Swydd Lincoln. Y sialens yn y rhanbarth amlddiwylliannol hwn gyda phoblogaeth sy'n sylweddol hŷn nag mewn unrhyw ran arall o'r DU oedd sicrhau ein bod yn targedu ein hadnoddau'n effeithiol.

Mae'r tîm rhanbarthol wedi parhau â'u hymagwedd ragweithiol, gan gefnogi ymgeiswyr yn yr ardaloedd a dargedwyd gennym trwy gynnig cefnogaeth a chynhaliaeth un-i-un yn ogystal â darparu hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr cyllido ac asiantaethau cynorthwyol.

Mae ein swyddog pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig wedi cydweithio'n agos â grwpiau ledled Dwyrain Canolbarth Lloegr a oedd wedi cael trafferth o'r blaen wrth geisio denu cyllid, ac erbyn hyn ceir arwyddion ei fod yn dechrau llwyddo. Ynghyd â'n partneriaid rhanbarthol, VOICE East Midlands a Lloyds TSB, rydym wedi datblygu prosiect sy'n cefnogi mudiadau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig sy'n ceisio statws elusennol a thrwy hyn gynyddu eu cyfleoedd i sicrhau arian a gallu cyffredinol eu mudiad.

Parhaodd **cyfran deg** yn llwyddiant ysgubol yn Ashfield a Bolsover, a bydd yr holl dargedau'n cael eu pasio erbyn diwedd 2005. Profwyd bod yr agwedd bartneriaethol a fabwysiadwyd er mwyn cynyddu gallu grwpiau lleol yn yr ardaloedd hyn yn boblogaidd dros ben ac mae hyn wedi cyfrannu at lwyddiant y fenter hon, nid o ran cyllid yn unig ond hefyd o ran y cysylltiadau sy'n dal i ffynnu wedi i'r rhaglen ei hun ddod i ben.

Cawsom hyder yn ein gallu i gwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid trwy wrando ar bobl a chynnig cefnogaeth a chyngor wyneb yn wyneb yn ystod y fenter **cyfran deg**. Parhawn i gynnig darpariaeth gyffelyb i gymunedau West Lindsey a Boston, sef ein hardaloedd targed Cymunedau Cefn Gwlad. Rydym wedi cymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau lleol gyda swyddogion cefnogol penodol ar gael i gwrdd â grwpiau a rhanddeiliaid eraill. O ganlyniad, rydym wedi dangos cynnydd ardderchog yn erbyn ein targedau, gyda Boston eisoes yn derbyn 97 y cant a West Lindsey 85 y cant o'r targed 5 mlynedd gyfan.

Un o’r grwpiau a dderbyniodd budd o’r gefnogaeth yma yw ‘Home Start Boston’ a dderbyniodd grant o £199,766 i ehangu eu gwasanaeth gwirfoddol ymweld â’r cartref. Mae’r grant dros dair blynedd wedi talu am 6 aelod o staff rhan-amser sy’n rhedeg y prosiect i roi cefnogaeth i deuluoedd o dan straen ym Mwrdeistref Boston.

# Adran dau

## Gorllewin Canolbarth Lloegr

Dyranwyd 501 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £14.7 miliwn.

Er mwyn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn buom yn annog grwpiau a oedd yn ystyried ymgeisio am grant i lenwi ffurflen gais amlinellol fer a'i dychwelyd atom. Wrth ddysgu am eu cynlluniau yn gynnar yn y broses, roedd modd i ni gynnig adborth, sylwadau ac awgrymiadau, a hefyd cyfeirio grwpiau at ffynonellau lleol ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Roeddem hefyd yn gallu rhoi arweiniad realistig ynglŷn â'r tebygrwydd a fyddent yn derbyn cyllid ai peidio, gan gofio bod cystadleuaeth gref am arian. Addaswyd llawer o geisiadau yn sgîl ein sylwadau a'n cyngor a daethant yn gryfach o'r herwydd.

Buom yn parhau i gynnal sesiynau briffio misol yn ein swyddfa ranbarthol gydol y flwyddyn, a pharhau gyda'n gwaith allgymorth yn ardaloedd **cyfran deg** Dudley, Gogledd Solihull a Walsall, yn ogystal â'r ardaloedd daearyddol y rhoddem flaenoriaeth iddynt, sef Tamworth, Newcastle under Lyme a Cannock Chase. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau briffio ledled y rhanbarth gennym hefyd yn ystod yr Hydref 2004 ar gyfer ein cysylltiadau allweddol o blith llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol, er mwyn lansio rhaglen Grantiau i Fudiadau Cronfa Pobl Ifanc. Cafodd y rhain eu cyfuno ag ail gam ymgynghoriad y Gronfa Loteri Fawr, ar ein themâu a'n deilliannau arfaethedig.

Mae ein pwyllgor rhanbarth yn cynnal o leiaf dau o'i gyfarfodydd bob blwyddyn mewn prosiectau sydd wedi derbyn cyllid gennym. Yn ystod Haf 2004, cyfarfu'r pwyllgor yn 'The Hub', adeilad cymunedol yn Birmingham, yn fuan wedi iddo ailagor ar ôl cael ei ail-wneud yn sylweddol. 'The Hub' oedd y lleoliad hefyd ar gyfer y Cinio Mawr rhanbarthol fis Tachwedd, pan ddaeth amrediad eang o brosiectau at ei gilydd i ddathlu degfed pen-blwydd y Loteri Genedlaethol.

Roeddem hefyd yn falch, fel rhan o ddathliadau degfed pen-blwydd y Loteri Genedlaethol, o gefnogi Canolfan Gymunedol y Gwrw Nanak pan aeth ati'n llwyddiannus i dorri record y byd am wneud y bhaji nionyn fwyaf erioed. Cynigiodd tri o'n staff helpu yn yr ymdrech i dorri record y byd, a ddaeth â sylw a hysbysrwydd gwerthfawr gan y cyfryngau i'r ganolfan gymunedol hon, a ailwampiwyd yn ddiweddar, yn West Bromwich.

## Dwyrain Lloegr

Dyfarnwyd 353 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £9.9 miliwn.

Mae rhanbarth Dwyrain Lloegr yn ardal lle ceir cyferbyniadau mawr. Mae gennym bopeth o gymunedau prysur amlddiwylliannol megis Watford a Luton i dawelwch gwledig ardaloedd megis Gogledd Norfolk, a phopeth rhwng y ddau eithaf hyn. Mae'r rhanbarth hwn yn un lle mae twf mawr yn nifer y tai ac llawer o gymunedau newydd yn cael eu codi, gyda'r duedd i fod â nifer uwch na'r cyffredin o deuluoedd ifanc, ac mae gennym ardaloedd eang ger y môr lle mae pobl sydd wedi ymddeol yn dewis byw. Ond beth bynnag fo'r ddemograffeg neu amrywiaeth y rhanbarth, ni ellir gwadu bod gennym amrediad o gymunedau cryfion. Mae'n debyg nad yw'r cymunedau wedi newid fawr ddim mewn rhai ardaloedd gwledig, ond mae cymunedau mwy newydd yn bodoli lle daw pobl at ei gilydd am y tro cyntaf i weithio tuag at nod cyffredin. Lle ceir cymunedau amrywiol, ceir atebion amrywiol i'r anghenion cymunedol ac yn Rhanbarth Dwyrain Lloegr rydym yn falch o amrywiaeth y prosiectau sydd wedi eu hariannu gennym.

Er enghraifft, buom yn ariannu 'Kickstart' yng Ngogledd Norfolk. Mae'r prosiect yn rhoi benthyg sgwteri i bobl ifanc, oherwydd na allent fynychu cyfweliadau neu gyrraedd eu gwaith hebddynt. Yn Swydd Rhydwely, cyllidwyd Cyngor ar Bopeth Leighton-Linslade a'r Ardal gennym. Defnyddir ein harian i dalu am gynghorydd ariannol a all helpu pobl sydd wirioneddol angen lleihau maint eu dyledion.



Roedd pobl anabl a'u gofalwyr yn un o'r blaenoriaethau yn y rhanbarth unwaith eto eleni, ac rydym wedi rhoi mwy na £3 miliwn i brosiectau sy'n cwrdd â'u hanghenion. Gwnaethom ariannu nifer o brosiectau ardderchog, er enghraifft y Ganolfan Adnoddau Anabledd sy'n gwasanaethu Swydd Rydwely a Luton. Mae'n cynnig gwybodaeth ac eiriolaeth i'r rhai sydd ag anghenion symudedd ac anabledd ac yn lobïo cwmnïau trafnidiaeth i integreiddio cludiant cyhoeddus a chymunedol. Gwnaethom hefyd ariannu Grŵp Cynnal Strôc Harlow fel y gallent gynnig cefnogaeth, cyngor a gweithgareddau i bobl sydd wedi cael strôc.

Rydym yn falch fod cymaint o fywydau wedi cael budd o'n grantiau eleni, ac rydym yn ddiolchgar am yr holl ymdrechion a wnaed gan y mudiadau, y gwirfoddolwyr a'r rhai a gymerodd ran yn y prosiectau hynny.

## Llundain

Dyfarnwyd 532 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £20 miliwn.

Mae swyddfa ranbarthol Llundain yn ymwneud â'r 32 bwrdeistref yn Llundain, gan wasanaethu oddeutu 7 miliwn o bobl. Mae Llundain yn amrywio'n fawr o ran ethnigrwydd, diwylliant a chymdeithas, ac mae'n cynnwys tair o'r pum bwrdeistref fwyaf difreintiedig yn Lloegr. Ein prif nod yw helpu'r rhai sydd yn dioddef y difreintedd mwyaf, ac rydym yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol i wneud yn siŵr bod ein cyllid yn cyflawni hyn.

Mae **cyfran deg** yn parhau'n llwyddiant mawr yn Enfield a Waltham Forest. Er i ran VCS y fenter ddod i ben fis Mawrth 2005, mae gwaddol y grantiau a wnaethpwyd trwyddi yn parhau. Rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso camau cynnar y cynllun er mwyn gallu deall beth fu ei effaith.

Arhosodd ein blaenoriaethau ar gyfer ariannu yn 2004-5 yr un fath, er i ni wella'r modd y targedir y flaenoriaeth sy'n ymwneud â phobl hŷn sydd wedi'u hynysu; yn sgîl hyn, ni wnawn ariannu dim ond prosiectau sy'n gweithio gyda grwpiau penodol o bobl hŷn, er enghraifft y rhai sydd ag anableddau dysgu, lle mae darpariaeth gwasanaethau'n wael. Mae hyn yn sicrhau bod ein harian yn parhau i helpu'r rhai sydd â'r angen fwyaf.

Bydd un o'n grantiau bach yn rhoi arian tuag at ailwampio man chwarae sydd ar hyn o bryd yn adfail. Bydd y grant o £26,975 i 'Avenue House Estate Management' yn helpu i drawsnewid y darn o dir i mewn i fan chwarae a all gael ei ddefnyddio gan blant abl ac anabl. Bydd offer pwrpas deublyg yn cael eu gosod gan alluogi plant sydd ag amrediad eang o anableddau i ddefnyddio'r man chwarae'n ddiogel. Hwn yw'r unig fan chwarae cyhoeddus o'i fath yn yr ardal a rhagwelir y bydd miloedd o blant yn elwa ohono. Bydd o gymorth i ddatblygiad plant ag anableddau corfforol, meddyliol a dysgu ac bydd o gymorth i oresgyn yr unigrwydd y maent yn ei brofi'n aml oherwydd problemau mynediad.

Dywedodd 'Avenue House Estate Management', " Mae'r man chwarae yma'n boblogaidd iawn ac roedd ei gau oherwydd rhesymau diogelwch yn ergyd drom i'r gymuned. Ond rydym yn cymeryd y cyfle yma i osod offer defnydd deublyg a fydd yn galluogi plant sydd ag amrediad eang o anableddau yn ogystal â phlant abl i fwynhau y man chwarae."

# Adran dau



Cwblhawyd blwyddyn gyntaf y cynllun cefnogaeth i'r rhai sy'n derbyn grant, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y grwpiau dan sylw. Dan gonsortiwm a arweiniwyd gan y 'Black Training and Enterprise Group', cafodd 30 o ddeiliaid grant gyfuniad o gefnogaeth un-i-un a sesiynau hyfforddi a dysgu mewn grwpiau er mwyn datblygu'r cymwyseddau allweddol angenrheidiol ar gyfer rhedeg eu prosiectau'n llwyddiannus. Mae'r ail weithgaredd, a gyflwynir gan 'Community Action Network', yn canolbwyntio ar weithio gyda deiliaid grant i ddatblygu cynlluniau cyllidol, gan eu cynorthwyo i dyfu'n fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

Rydym yn chwarae rhan mewn nifer o fentrau a leolir yn Llundain, yn cynnwys y 'London Lottery Forum', 'London Funders Group', 'Local Authority Network' a'r 'Lead Funder Project'. Mae'r wybodaeth a'r profiad sydd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y grwpiau hyn yn ein galluogi i rannu arfer gorau ac i ddylanwadu ar ein rhanddeiliaid allweddol.

## De Ddwyrain Lloegr

Dyranwyd 449 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £14 miliwn.

Mae De Ddwyrain Lloegr yn fywiog, yn gymhleth, yn fawr ac mae'n amrywio'n fawr o le i le. Dyma un o ranbarthau mwyaf ffyniannus y DU - a'r 20fed economi o ran maint yn y byd, ond mae yno bocedi o amddifadedd difrifol. Mae 79 y cant o'r boblogaeth mewn gwaith, ond eto ystyrir bod 372,000 o gartrefi'n rhai 'tlawd' – y ffigwr uchaf y tu allan i Lundain. Ac mae yno 44,000 o fudiadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol yn gwasanaethu 8 miliwn o bobl. Roedd ein nod felly'n syml. Rhaid oedd canfod ffyrdd o ddefnyddio'n harian fel y gallai fod o fudd i gymaint o bobl ag yr oedd modd. Gwnaethom hyn trwy godi safonau ac ansawdd ceisiadau a gosod targedau uchelgeisiol.

Roeddem yn credu y deuai ceisiadau o safon uwch pe treulid amser gydag ymgeiswyr a chynnig hyfforddiant iddynt, gan wneud yn siŵr y byddai cymaint ag y gellid wedi eu paratoi'n briodol fel y gallent gyflwyno'r cais gorau posibl.

Daeth 550 o ddarpar ymgeiswyr i 38 o gyfarfodydd a sesiynau briffio wyneb yn wyneb er mwyn dysgu am bynciau megis cymhwyster ar gyfer derbyn grant a pholisïau cyllido ac er mwyn derbyn awgrymiadau am sut i lunio cais da. Yn dilyn y sesiynau briffio a digwyddiadau allgymorth, a drefnwyd gennym yn y lle cyntaf ar gyfer prosiectau a oedd yn cwrdd â'n blaenoriaethau rhanbarthol, buom yn parhau i gefnogi ymgeiswyr trwy gyfrwng ein llinell gymorth.

Cyfunwyd y rhaglen hon o gefnogaeth cyn ymgeisio ledled y rhanbarth â digwyddiadau eraill i helpu gyda lansio a sefydlu'r Gronfa Loteri Fawr. Daethom ni a'r 'South East Racial Equality Network' (SEREN) ynghyd i gynnal dau ddiwrnod arbennig o godi ymwybyddiaeth yn y rhanbarth. Anogwyd ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr sy'n wynebu'r eithrio cymdeithasol gwaethaf i rannu gobeithion eu cymunedau gyda ni, fel y gallwn ni eu helpu nhw. Cymerodd y rhan fwyaf ohonynt ran mewn trafodaethau hefyd er mwyn cyfrannu eu barn at ein hymgynghoriad a gynhelid ledled y DU.

Buom yn cwrdd â thargedau uchelgeisiol yn ein hymgyrch i ddod â gwelliannau i fywydau pobl. Mae'r pwyllgor rhanbarth wedi cynyddu'r gwariant ar y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf, a bydd yn parhau i wneud hyn.




Mae llwyddiannau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: £141,565 i 'Portsmouth Council for Community Service' i'w cymorthi i sefydlu cynllun mudoledd siop cyntaf y ddinas; £95,104 i 'Aylesbury Vale Carer's Association' drwy eu cefnogi nhw i gefnogi gofalwyr ifanc; ac £104, 436 i ehangu ac ailwampio'r neuadd gymunedol yn Alford, Surrey. Aeth bron i 80 y cant o'n cyllideb i brosiectau oedd yn cyfarfod â'n blaenoriaethau ariannu'n uniongyrchol.

## De Orllewin Lloegr

Dyfarnwyd 433 o grantiau gyda gwerth o oddeutu £11 miliwn.

Mae rhanbarth De Orllewin Lloegr wedi gorfod wynebu'r her o reoli'r bwlch mawr rhwng y lefel uchel o alw am grantiau a maint ein cyllideb, sydd yn un o'r rhai lleiaf ar gyfer rhanbarthau Lloegr. Roedd y pwysau hyd yn oed yn fwy eleni. Ceisiem ymdopi â disgwyliadau'r ymgeiswyr trwy fuddsoddi mewn allgymorth, datblygu a chynnig cyngor cyn iddynt ymgeisio, a thrwy eu hannog i ofyn am lai.

Trwy ddefnyddio'r dull hwn, llwyddasom i gynnig mwy o grantiau eleni, gan fod o les i fwy o gymunedau. Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd 97 grant, gan gyrraedd cyfradd llwyddiant o 28 y cant – yn uwch na'r hyn a ragwelid gennym. Trwy gyfrwng ein gwaith datblygu, ac ar y cyd a'r dosbarthwyr Loteri eraill yn Ne Orllewin Lloegr, llwyddwyd i ddileu rhai o'r "mannau gwan" lle nad oedd lefel y grantiau'n cyfateb â maint yr angen.

Roeddem yn arbennig o falch bod modd cynyddu'n sylweddol dros ben yr arian a roddwyd gennym i brosiectau sy'n cefnogi pobl hŷn; mae cyfran uwch o bobl hŷn yn y rhanbarth hwn nag yng ngweddill y DU. Llwyddasom i gwrdd â'n targedau cyllido teirblwydd yn ein hardaloedd **cyfran deg**, a bu modd i ni gael effaith wrth fynd i'r afael ag arwahaniad gwledig ledled y rhanbarth.

Cafodd 'Age Concern' un o'n grantiau uchaf, £177,000, er mwyn gwella'r gwaith cynllunio a chyflwyno gwasanaethau i bobl hŷn yn Ne Orllewin Lloegr. Mae hyn eisoes wedi helpu 'Age Concern' i weithio mewn partneriaethau ledled De Orllewin Lloegr, gan ddylanwadu ar bolisi ac ar gyflwyniad gwasanaethau i bobl hŷn. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd amcangyfrifir y bydd 20 y cant yn fwy o bobl hŷn yn y rhanbarth erbyn 2020.

Rhaid i bobl ifanc yn Ne Orllewin Lloegr symud i ffwrdd o'r cymunedau lle cawsant eu magu, oherwydd cludiant gwael, cyflogau is a chostau tai uchel. Rhoddodd grant o £53,222 i'r 'North Tamar Community Transport Association' sicrwydd am barhad gwasanaeth pwysig a chynyddol boblogaidd i bobl ifanc yn y rhan hon o ogledd Dyfnaint. Mae'n golygu y bydd modd iddynt ddefnyddio sgwteri pŵer isel i gyrraedd sesiynau hyfforddi neu i gyrraedd eu gwaith. Mae'r holl gymuned yn ymfalchïo yn y fenter hon, sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr lleol.

Gan fod y rhaglenni cyllido presennol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol yn dirwyn i ben, ein gobaith yw y bydd ein buddsoddiad dros y blynyddoedd i helpu grwpiau blaenoriaeth i wella eu cyfle o dderbyn grantiau o fudd iddynt yn y cyfnod ariannu newydd.

# Adran dau
## cyfran deg

Yn 2002, lansiodd y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fenter **cyfran deg**. Ei nod oedd gwneud arian y Loteri'n haws i gymunedau dan anfantais ei gaffael mewn 77 ardal ddifreintiedig ledled y DU, ardaloedd a ddewiswyd gan nad oeddynt wedi cael eu **cyfran deg** o arian y Loteri yn y gorffennol yn ogystal âr ffaith eu bod yn uchel ar y Mynegrif Amddifadedd Lluosog.

Roedd tri deg saith ardal allan o 77 heb dderbyn eu **cyfran deg** gan y Gronfa Gymunedol, a daeth y rhain yn ardaloedd o flaenoriaeth am y tair blynedd o Ebrill 2002 hyd Fawrth 2005. Cefnogwyd y lleill trwy gyfrwng gwaddoliad **cyfran deg** y Gronfa Cyfleoedd Newydd a ddisgrifir isod. Cyhoeddwyd targedau cyllido ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn, a chafodd tîm o staff grantiau, allgymorth a datblygu'r dasg o gynyddu'r gefnogaeth i ymgeiswyr yn yr ardaloedd hyn.

O'r cychwyn, gwnaethom ymrwymiad, nid yn unig i roi grantiau i ardaloedd **cyfran deg**, ond hefyd i fuddsoddi yng nghynaladwyedd hirdymor prosiectau i sicrhau bod eu heffaith yn parhau wedi iddynt ddod i ben. Wrth weithio gyda chymunedau a datblygu partneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol ym mhob ardal, bu modd i ni adnabod rhwystrau a chynyddu gallu lleol i gael mynediad at gyllid nid yn unig gennym ni, ond hefyd gan ariannwyr eraill.

Rydym wedi buddsoddi cyfanswm o bron i £85 miliwn mewn cymunedau **cyfran deg** yn y tair blynedd ers pan lansiwyd y fenter. Rydym wedi gweithio'n galed i'w gwneud hi'n haws cael mynediad at gyllid ac rydym wedi gweithio gyda chymunedau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Rydym wedi llwyddo i gyrraedd 92 y cant o'r targedau a osodwyd, gan sicrhau bod gan bob ardal **cyfran deg** o leiaf yr un faint o gyllid ar gyfartaledd am bob person â'r ardaloedd eraill.

Wrth i ni newid ffocws ein blaenoriaethau, mae gwaddol ein buddsoddiad yn parhau i godi momentwm. Bydd datblygiad Ymddiriedolaethau **cyfran deg** gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar draws yr holl 77 ardal **cyfran deg** yn adeiladu ar y gobaith a'r brwdfrydedd a gododd yn yr ardaloedd **cyfran deg** a bydd yr ymddiriedaeth sydd bellach gan gymunedau lleol ynom yn parhau i gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.

Un prosiect sydd wedi derbyn arian grant eleni yw'r 'Dudley Asian Women's Centre – Kaash Project', a dderbyniodd £59,777. Mae'r prosiect wedi defnyddio ei arian **cyfran deg** i gyflogi gweithiwr prosiect am dair mlynedd i gyrraedd a chynnwys merched Asiaidd datgyweddog a gwan yn Dudley. Mae'r gweithiwr prosiect wedi hyfforddi 15-20 o wirfoddolwyr bob blwyddyn i ddarparu cynnlun ymgyfeillio, gwasanaethau cyfieithu a dehongli, prosiect ieuenctid a hyfforddiant a digwyddiadau hunan-ddatblygiad. Mae mamau sengl a'r grŵp merched wedi bod yn ffocws neilltuol. Mae rhai unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yma wedi eu cymell i ymgymryd â hyfforddiant ac wedi ennill cymwysterau newydd.



# Adran dau
## Cymunedau Cefn Gwlad



Mae Cymunedau Cefn Gwlad yn fenter ar y cyd rhwng y Gronfa Gymunedol a'r Asiantaeth Cefn Gwlad. Ei nod yw sicrhau bod rhai o ardaloedd gwledig Lloegr yn derbyn eu 'cyfran deg' o arian.

Dewiswyd wyth ardal i fanteisio ar Gymunedau Cefn Gwlad, yn seiliedig ar fynegrifau amddifadedd a lefelau isel o ariannu. Dyma'r wyth ardal: Shepway (Caint); Dofr (Caint); King's Lynn a Gorllewin Norfolk; Gogledd Norfolk; Fenland (Swydd Gaergrawnt); Boston (Swydd Lincoln); Gorllewin Lindsey (Swydd Lincoln); a Sedgemoor (Gwlad yr Haf).

Mae ein staff allgymorth a datblygu wedi treulio amser ym mhob un o'r ardaloedd hyn er mwyn hyrwyddo ceisiadau a fyddai'n llwyddiannus. Yn ogystal â chynnig cefnogaeth un-i-un i ddarpar ymgeiswyr, maent hefyd wedi chwarae rhan sylweddol mewn trefnu partneriaethau gydag ariannwyr eraill i geisio sicrhau y ceir prosiectau sy'n fwy llwyddiannus a chynaliadwy. Maent hefyd yn defnyddio gwybodaeth leol i greu gwell darlun o'r ardaloedd, a bydd hyn yn ein helpu i weithio'n fwy strategol yn y dyfodol.

Erbyn diwedd Mawrth 2005, roedd y gwario yn wyth ardal y Cymunedau Cefn Gwlad wedi cyrraedd £6.9 miliwn - sef 49 y cant o'r targed pum mlynedd, a hynny hanner ffordd trwy'r rhaglen. Roedd rhai ardaloedd, fodd bynnag, wedi bod yn fwy llwyddiannus na'i gilydd - roedd Boston wedi cyrraedd 97 y cant o'i darged, er mai dim ond 29 y cant a gyrhaeddwyd gan Dofr.



Bu grant Cymunedau Cefn Gwlad o £283,542 o gymorth i 'Aylesham Neighbourhood Project' wrth iddynt ehangu a darparu amrediad fwy o wasanaethau cefnogi i deuluoedd â phlant ifanc. Bydd wythnos nodweddiadol yn y prosiect, sy'n gwasanaethu clwstwr o bentrefi cloddio ger Dover, yn gweld crèche, grwpiau rhiant a plentyn, cyrsiau magu plant, grŵp i rieni a phlant ifanc ag anableddau, bwyta'n iach, cyrsiau coginio a clybiau cinio. Mae'r prosiect yn cyrraedd at rieni hefyd drwy ymweliadau cartref. Mae saith deg o deuluoedd â phlant ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau yma'n gyson a digwyliwn i'r ffigwr yma barhau i godi.

Y bwriad oedd i brif ran y rhaglen Cymunedau Cefn Gwlad redeg tan Hydref 2007. Rydym wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i wario'r arian hwn yn yr wyth ardal, a byddwn yn cadw at hyn. Serch hynny, mae dirwyn rhaglen y Sector Gwirfoddol a Chymunedol i ben ar 31 Mai 2005 wedi golygu bod rhaid atal gwaith yn yr ardaloedd hyn nes i raglen newydd gael ei lansio.

Defnyddir grant strategol gwerth £2.2 miliwn dan raglen Cymunedau Cefn Gwlad gan ein partner cyllido Ymddiriedolaeth Carnegie y DU. Mae Carnegie yn rhedeg rhaglen 'Ymchwil Gweithredol Gwledig' sy'n anelu at dreialu atebion ymarferol a chost-effeithiol a arweinir gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig. Nod Carnegie yw sicrhau bod profiadau'r prosiectau Ymchwil Gweithredol hyn yn helpu i siapio polisi gwledig a dylanwadu arno, trwy gyfrwng cysylltiadau â Chomisiwn Carnegie ar Ddatblygu Cymunedol Gwledig. Bydd y rhaglen yn rhedeg am hyd at dair blynedd, gyda oddeutu £750,000 y flwyddyn gan y Gronfa Loteri Fawr a £250,000 o arian Ymddiriedolaeth Carnegie y DU.

# Adran dau

## Arian i Bawb Lloegr



Cynllun grantiau Loteri yw Arian i Bawb Lloegr a anelwyd at gymunedau lleol. Rydym yn rhoi grantiau o symiau rhwng £500 a £5,000 a hynny mewn ffordd syml a hawdd ei deall. Ers i ni gychwyn yn 1998, rydym wedi dyrannu dros 70,000 o grantiau – sef mwy na thraean o'r holl grantiau Loteri a wnaethpwyd erioed. Rydym yn gwneud hyn yn gyflymach nag erioed hefyd, gyda'r cyfnod a gymerir i brosesu ceisiadau'n gostwng i chwe wythnos.

Yn ystod 2004-5 rhannwyd 9,000 o grantiau gennym yn Lloegr, gwerth bron i £36 miliwn. Mae'r arian ar gyfer Arian i Bawb yn dod o dri dosbarthydd Loteri: Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cronfa Loteri Fawr a 'Sport England'. Rydym yn ariannu prosiectau sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, trefnadol neu gymunedol neu mewn chwaraeon, yn ogystal â phrosiectau sy'n hyrwyddo addysg, yr amgylchedd a iechyd yn y gymuned leol.

Eleni, roeddem hefyd yn gyfrifol am ddau o'r cynlluniau a oedd yn coffáu 60 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Trwy gyfrwng y rhaglen Arwyr yn Ôl, buom yn talu costau dros 14,000 o gyn-filwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r mannau lle buont yn ymladd. Ac fe ariannwyd dros 1,750 o brosiectau gennym dan rhaglen Ffrynt Cartref yn Ôl a ganiatáodd i bobl o bob oedran gofio am y bobl a oedd wedi helpu i ennill y rhyfel ar y ffrynt cartref.

Mae Arian i Bawb hefyd wedi dechrau treialu meicro-grantiau – grantiau llai fyth gwerth rhwng £50 a £500 – mewn tri o ranbarthau Lloegr. Rydym wedi bod yn edrych ar wahanol ffyrdd o ddyfarnu meicro-grantiau, megis cynnwys pobl leol yn y broses o benderfynu am grantiau. Daeth y cynlluniau peilot i ben yn ystod haf 2005 a byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad ohonynt yn ystod yr hydref er mwyn penderfynu a ydym am eu hehangu i gynnwys yr holl wlad.

Ac mae mwy o newidiadau yn yr arfaeth. Mae Arian i Bawb wedi bod mor lwyddiannus fel ein bod yn bwriadu codi'r swm mwyaf y gellir ei roi i £10,000 yn fuan yn 2006.



# Adran tri

## Ble'r aeth yr arian

**Rhoddwyd 5,058 o grantiau yn 2004/05, sef chyfanswm o £198,873,208. Derbyniasom 11,623 o geisiadau am grant yn gofyn am £813,512,768. Erbyn mis Mawrth 2005, y cafanswm a roddwyd gennym ers 1995 oedd £3,018,253,815 rhwng 66,384 o brosiectau.**

| Swyddfa/Rhaglen | Nifer y Grantiau | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Grantiau Strategol | 60 | £18,711,695 |
| Ymchwil | 28 | £5,728,087 |
| Rhyngwladol | 27 | £11,497,830 |
| Cymru | 355 | £10,658,560 |
| Yr Alban | 479 | £18,826,618 |
| Gogledd Iwerddon | 283 | £6,867,549 |
| **Cyafnswm swyddfeydd Lloegr** | | |
| Gogledd DDwyrain | 297 | £8,736,070 |
| Gogledd Orllewin | 516 | £22,199,123 |
| Swydd Efrog a'r Humber | 396 | £15,059,745 |
| Dwyrain y Canolbarth | 349 | £9,802,862 |
| Gorllewin y Canolbarth | 501 | £14,731,077 |
| Dwyrain | 353 | £9,902,512 |
| Llundain | 532 | £20,516,948 |
| De Ddwyrain | 449 | £14,366,202 |
| De Orllewin | 433 | £11,268,330 |
| **Cyfanswm** | **5,058** | **£198,873,208** |

### Helpu pobl mewn angen

Dywed ein Cynllun Strategol mai un o'n nodau yw rhoi mwy o bwyslais ar y bobl fwyaf ddifreintiedig yn y DU a gwella ansawdd eu bywyd pan fyddwn yn dyfarnu grantiau. Mae'r tudalennau canlynol yn grynodeb o sut y mae'r grantiau newydd a ddosbarthwyd gennym yn ystod y flwyddyn wedi gwneud hynny. Dim ond y grantiau o'n rhaglenni grant Mawr a Chanolig sydd wedi eu cynnwys yn y ffigyrau hyn.

## Ein grwpiau blaenoriaeth

Er mwyn ein helpu i roi mwy o bwyslais ar bobl mewn angen mae ein Cynllun Strategol yn enwi nifer o grwpiau blaenoriaeth. Mae hyn yn ein galluogi ni i fesur a monitro'r arian y mae'r grwpiau hyn yn ei dderbyn.

Rydym wedi dyfarnu cyfanswm o 1,094 o grantiau gwerth £132 miliwn eleni er budd pobl yn ein grwpiau blaenoriaeth. (Nid yw grantiau a ddyfarnwyd o dan ein Rhaglenni Rhyngwladol, Ymchwil ac Arian i Bawb Lloegr yn cyfrif tuag at flaenoriaethau corfforaethol.) Mae'r dadansoddiadau isod yn rhoi syniad o'r symiau yr ydym wedi eu rhoi i bob grŵp a'r math o waith a ariennir.

Bu rhai o'r grantiau o fudd i bobl sy'n dod o fewn mwy nag un grŵp – er enghraifft grantiau i helpu plant anabl – ac felly maent yn ymddangos fwy nag unwaith yn y dadansoddiad. Ni ellir felly adio'r ffigyrau at ei gilydd i gyrraedd y cyfansymiau uchod.

**Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig oherwydd newid cymdeithasol neu economaidd, boed drefol neu wledig, gan gynnwys ardaloedd lle mae diwydiannau lleol yn dirywio, ardaloedd tlawd wedi eu hamgylchynu gan ardaloedd mwy ffyniannus, ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan ymfudiad.**

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Cyfanswm | £43,013,114 |
| Helpu pobl sydd o dan anfantais oherwydd ynysigrwydd gwledig | £8,337,265 |
| Helpu pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol difreintiedig | £17,740,816 |
| Cefnogi neuaddau pentref | £3,324,468 |
| Darparu cyngor, gwybodaeth a chwnsela | £9,843,304 |

## Plant a phobl ifanc

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Cyfanswm | £34,127,521 |
| Helpu plant sy'n byw gydag anableddau | £4,312,563 |
| Sgowtiaid, geidiaid a grwpiau eraill mewn lifrai | £633,982 |
| Cefnogaeth Gartref | £2,471,248 |
| Darparu cyfleusterau gofal plant, meithrinfa neu gyfleusterau chwarae | £6,959,709 |

# Adran tri

## Pobl anabl a'u gofalwyr

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Cyfanswm | £42,930,040 |
| Gwella mynediad at gyfleoedd gwaith | £4,557,059 |
| Gwella mynediad i gyfleusterau cymunedol | £33,721 |
| Cefnogaeth i fyw'n annibynnol | £6,938,161 |

## Cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig (BME)

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Cyfanswm | £23,870,737 |
| Helpu plant a phobl ifanc BME | £6,971,363 |
| Helpu pobl BME hŷn | £3,629,108 |
| Helpu pobl BME anabl | £6,536,595 |
| Mynd i'r afael ag effeithiau hiliaeth | £2,820,137 |
| Meithrin galluoedd y sector gwirfoddol BME | £3,574,928 |

## Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Cefnogi mudiadau sy'n helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau ehangach sy'n eu derbyn.

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Cyfanswm | £10,263,622 |
| Helpu plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches | £2,645,349 |
| Helpu cymunedau a cheiswyr lloches | £5,538,440 |
| Darparu cyngor, gwybodaeth a chwnsela | £4,347,954 |

## Pobl eraill ddifreintiedig

Beth am y mathau hynny o angen nad ydynt yn dod o fewn un o'n grwpiau blaenoriaeth, neu sy'n gyffredin i nifer ohonynt? Rhoddir rhai ffigyrau ar gyfer mathau eraill o grant isod:

| | Swm a Ddyfarnwyd |
|---|---|
| Helpu rhieni unigol | £5,031,989 |
| Helpu pobl ddigartref | £6,042,276 |
| Helpu teuluoedd carcharorion a chyn droseddwyr | £1,262,460 |
| Helpu pobl ar incwm isel | £13,424,686 |
| Helpu pobl sy'n ddi-waith | £7,965,295 |
| Mynd i'r afael â cham-drin sylweddau | £3,472,999 |
| Cefnogi dioddefwyr troseddau | £2,194,370 |
| Cefnogi pobl sy'n cael eu cam-drin | £4,014,574 |

## Pobl yr ydym eisoes yn eu cefnogi

Rydym yn gofyn i fudiadau sy'n derbyn grantiau baratoi adroddiad i ni ar ddiwedd pob blwyddyn o'u prosiect. Rydym yn coladu'r wybodaeth hon i sicrhau bod gennym wybodaeth gynhwysfawr am nifer y bobl y mae'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu'n eu helpu, a'r mathau o newid y mae'r prosiectau'n anelu at eu cyflawni.

Mae'r ffigyrau a roddir isod yn grynodeb o'r adroddiadau a baratowyd gan bob mudiad a oedd i adrodd i ni yn ystod 2003/04. Mae'r ffigyrau'n dangos nifer y bobl yr oeddent wedi eu helpu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

| Math o fuddiolwyr | Buddiolwyr |
|---|---|
| Cymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig | 212,540 |
| Plant a Phobl Ifanc | 759,104 |
| Pobl Anabl a'u Gofalwyr | 871,931 |
| Pobl Hŷn a'u Gofalwyr | 439,406 |
| Pobl mewn ardaloedd sydd dan anfantais oherwydd newid cymdeithasol neu economaidd | 839,577 |
| Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | 106,276 |

# Adran tri

## Targedau gwariant grant ar gyfer grwpiau buddiolwyr â blaenoriaeth

Erbyn diwedd Mawrth 2004, roedd y targedau tair blynedd ar gyfer plant a phobl ifanc eisoes wedi'w cyfarfod. O ganlyniad roedd targedau ar gyfer gwariant 2004/05 yn bennaf i gynnal y gwariant ar lefelau a fyddai'n sicrhau fod gwaraiant ar flaenoriaethau eraill yn cael eu cyfarfod dros y cyfnod o dair blynedd.

| Dangosydd perfformiad | Adroddiad diwedd tair blynedd | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| Targed yn mynegi fel canran o'r gwariant cyfanswm grant yn ystod 2002-2005 | Y ffigyrau gwirioneddol a gyrhaeddwyd yn 2002-2005 oedd: | Y ffigyrau gwirioneddol a gyrhaeddwyd yn 2002-2005 oedd: |
| plant a Pobl Ifanc: 15% | plant a Pobl Ifanc: 19% | plant a Pobl Ifanc: 17% |
| pobl hŷn a'i gofalwyr: 19% | pobl hŷn a'i gofalwyr: 12% | pobl hŷn a'i gofalwyr: 11% |
| pobl anabl a'i gofalwyr: 20% | pobl anabl a'i gofalwyr: 22% | pobl anabl a'i gofalwyr: 22% |
| pobl sy'n byw mewn ardaloedd wedi'i ddifreintio gan newid cymdeithasol ac economiadd: 19% | pobl sy'n byw mewn ardaloedd wedi'i ddifreintio gan newid cymdeithasol ac economiadd: 22% | pobl sy'n byw mewn ardaloedd wedi'i ddifreintio gan newid cymdeithasol ac economiadd: 22% |
| ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa: 4% | ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa: 5% | ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa: 5% |
| cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig: 12% | cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig: 11% | cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig: 12% |

# Adran pedwar

## Cronfa Loteri Fawr – edrych ymlaen

**Yn yr adran hon rydym yn edrych ymlaen at nifer o ddatblygiadau sy'n effeithio ar ein cyllid a'r modd rydym wedi ein trefnu i'w ddosbarthu.**

Ym mis Mehefin 2004 a mis Ionawr 2005, cynhaliodd y Gronfa Loteri Fawr ddau ymgynghoriad DU-eang mawr â'i rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach. Ers Mawrth 2005, mae'r Bwrdd wedi bod yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'i raglenni grant yn y dyfodol.

Roedd y cyhoeddiad ym mis Mawrth yn Lloegr yn cynnwys y canlynol:

- £155 miliwn i ddatblygu a gwella cyfleusterau a gweithgareddau chwarae.
- £354 miliwn i wella amgylcheddau gwledig a threfol y mae cymunedau'n gallu cael mynediad gwell iddynt a'u mwynhau, gan gynnwys £90 miliwn i ariannu parciau.
- £163 miliwn i brosiectau sy'n hyrwyddo lles, gan gynnwys ymdrin â materion iechyd meddwl, gwella gweithgarwch corfforol ac atal camddefnydd alcohol (mae'r swm hwn yn cynnwys £45 miliwn i brosiectau sy'n hyrwyddo bwyta'n iach i blant a'u cymunedau).
- £155 miliwn i helpu i ddatblygu'r sector gwirfoddol trwy ddarparu gweithwyr i roi cyngor am gyllid, canolfannau adnoddau a chymorth i ardaloedd a chanddynt ychydig iawn o allu sector gwirfoddol neu sector cymunedol, neu ddim o gwbl. Hefyd, bydd yr arian yn helpu sefydliadau i rannu dysg a chymryd rhan mewn partneriaethau a strategaethau lleol a fydd yn hyrwyddo trefn lywodraethol dda yn y sector.
- £160 miliwn i Arian i Bawb.
- £140 miliwn i raglen grantiau Trawsnewid sy'n cefnogi prosiectau cyfalaf mawr ledled y DU gyfan.
- £60 miliwn i brosiectau sy'n helpu pobl tramor mewn angen, fel rhaglen DU-eang unwaith eto.

Rydym yn gweithio ar y rhaglenni newydd cyntaf, a disgwylir y byddant yn agor i geisiadau yn gynnar yn 2006. Byddwn yn parhau i ymgynghori a chyd-weithio â sefydliadau a phartneriaid allweddol wrth i'r rhaglenni gael eu datblygu. Y nod yw bod yn ariannwr deallus, gan fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau dosbarthu gwahanol, a sicrhau bod hygyrchedd a chymorth i ymgeiswyr a derbynwyr wrth galon eu hymagwedd.

Gwneir penderfyniadau tebyg yn ddiweddarach yn ystod 2005, a fydd yn nodi'r rhaglenni grant newydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyfres o fesurau a fydd yn helpu cymunedau i gael mynediad i gyllid. Byddwn yn:

- mabwysiadu ymagwedd portffolio gymysg tuag at ariannu, gyda dim llai na thraean o'r incwm yn cael ei ddosbarthu drwy ffrwd ariannu hygyrch, nad yw'n rhy orchmynnol ac a lywir gan y galw, gan gynnwys y cynllun Arian i Bawb estynedig
- cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran hyd y cyfnod ariannu
- mabwysiadu'r egwyddor adennill costau'n llawn trwy ganiatáu i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol adennill yr holl gostau cyffredinol dilys

# Adran pedwar

- sicrhau bod 60-70 y cant o'n cyllid yn mynd i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol
- cryfhau ein swyddfeydd rhanbarthol i gynyddu'r pwyslais ar ddatblygu polisïau, allgymorth, partneriaethau a chysylltiadau allanol
- sefydlu dwy ganolfan weithredu dros Loegr, yn Newcastle a Birmingham, i'w gwneud yn haws cael mynediad i gyllid ac i sicrhau polisi ariannu cryf ac unedig
- gwneud arbedion effeithlonrwydd o 10-20 y cant ar gostau cynnal, i'w hail-fuddsoddi mewn ariannu prosiectau.

Mae cyfraniad y cyhoedd yn ddatblygiad pwysig i ni, ac rydym yn rhoi prawf ar ddulliau newydd o gynnwys pobl wrth benderfynu ble y dylai arian ar gyfer achosion da fynd. O dan y Gronfa Pobl Ifanc, rydym wedi recriwtio pobl ifanc i eistedd ar Bwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i wneud penderfyniadau ariannu. Rydym wedi cynnal ymgynghoriad helaeth ar raglenni newydd, gan gynnwys comisiynu ymchwil ynghylch sut mae pobl sy'n chwarae'r Loteri'n meddwl y dylid gwario arian y Loteri. Rydym hefyd yn archwilio sut y gallwn annog ymglymiad y cyhoedd ar raddfa eang wrth benderfynu pa brosiectau fydd yn cael eu hariannu o dan ein rhaglen grantiau Trawsnewid.

Rydym wedi ymrwymo i werthuso a dysgu, rhannu arferion da a dylanwadu ar bolisïau'n genedlaethol ac yn lleol.

Lle bo'n briodol, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydategu blaenoriaethau a rhaglenni'r Llywodraeth i gael yr effaith fwyaf. Ail-gadarnhawyd ein hymroddiad i helpu pobl a chymunedau mewn angen. Cydnabyddwn y bydd hyn yn parhau i olygu gwneud dewisiadau anodd i gefnogi prosiectau sy'n gwella bywydau pobl mewn angen, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ariannu prosiectau sy'n amhoblogaidd ymhlith rhai. Ar yr un pryd, byddwn yn cefnogi achosion poblogaidd ac yn falch o wneud hynny.

Yn bwysicaf oll, nid y Gronfa Gymunedol na'r Gronfa Cyfleoedd Newydd fydd y Gronfa Loteri Fawr. Bydd yn ariannwr newydd a gwahanol sy'n pryderu nid am i bwy rydym yn rhoi'r arian (p'un ai'n sectorau neu'n sefydliadau penodol) ond beth rydym yn ei ariannu a phwy sy'n cael budd ohono.

# Adran pump

## Gofal cwsmer

**Yn ystod 2004/2005, datblygwyd Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd gan y Gronfa Loteri Fawr. Datblygwyd hwn ar y cyd â saith mudiad arall sy'n dosbarthu arian y Loteri i roi mwy o gysondeb i'r ffordd y mae dosbarthwyr y Loteri'n gweithio. Gallwch gwyno os methwn â chyrraedd y safonau a nodir yn y siarter.**

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu dulliau o fonitro ac adrodd ar ein llwyddiant wrth fodloni'r safonau hyn. Caiff arolwg newydd i fonitro safon perfformiad y Gronfa Loteri Fawr, yn eich barn chi, ei ddatblygu ar gyfer 2005-06.

Eleni, dechreuodd naw aelod o staff ar gwrs saith mis i ennill cymhwyster BTEC mewn Gofal Cwsmeriaid. Bydd yr aelodau staff hyn yn ymddwyn fel pleidwyr gofal cwsmeriaid, gan ledaenu arferion da ar draws y sefydliad.

I ategu cyfeiriad e-bost presennol y gwasanaeth cwsmeriaid, sefydlwyd llinell ffôn gwasanaeth cwsmeriaid bwrpasol i dderbyn eich cwynion a'ch sylwadau am ein gwasanaeth.

### Cwynion

Mae tri cam i'n trefn gwynion: Yng ngham un byddwn yn gwahodd y cwsmer i gysylltu â'r unigolyn neu adran y maent yn anhapus ag ef. Ceisiwn ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl yn y modd yma.

Os yw'r cwsmer yn parhau i fod yn anhapus gallant yna barhau i gam dau, ble bydd y cynghorydd gofal cwsmer ag ansawdd yn trefnu i'r Prif Weithredwr ymateb.

Cam tri – Os yw'r cwsmer yn parhau i fod yn anhapus yna gallant gyfeirio eu cwyn i'n Adolygydd Cwynion Annibynnol. Nid yw'r ACA yn rhan o'n sefydliad ac mae eu ymchwiliadau a'u hargymhellion yn ddiduedd.

**Cwynion Cam Un**

Yn ystod 2004-2005, cofnododd y Gronfa Loteri Fawr 44 o gwynion cam un, er bod nifer o'r rhain, ar ôl eu harchwilio'n fanylach, yn geisiadau am eglurhad pellach neu'n gwynion ynghylch sefydliadau rydym wedi'u hariannu yn unig, yn hytrach nac am y gwasanaeth y mae'r Gronfa Loteri Fawr ei hun wedi'i ddarparu.

Credwn fod llawer o gwynion heb eu cofnodi o hyd, am eu bod yn cael eu datrys yn gyflym ar y ffôn neu fel rhan annatod o'r broses asesu. Rydym yn adolygu'r ffordd rydym yn cofnodi'r wybodaeth hon i ddarparu gwybodaeth fwy cywir yn y dyfodol.

**Cwynion Cam Dau**

Yn ystod 2004-2005, derbyniodd y Gronfa Loteri Fawr 15 o gwynion cam dau, h.y. nad oedd wedi cael eu datrys yn foddhaol ar lefel swyddog, ac a adolygwyd gan y Prif Weithredwr o ganlyniad i hynny.

Cwynion Cam Dau:

| Cyfanswm | Cadarnhawyd | Cadarnhawyd yn Rhannol | Heb eu Cadarnhau |
|---|---|---|---|
| 15 | 3 | 3 | 9 |

**Cadarnhau:**

Rhoddwyd gwybodaeth anghywir am ganlyniad cais, a nodwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod y wybodaeth ar-y-sgrîn a oedd ar gael i'r aelod o staff a oedd yn ymdrin â'r alwad wedi'i osod yn wael. Rhoddwyd gweithdrefn wirio ar waith i atal hyn rhag digwydd eto.

Cafwyd dwy gŵyn am gau rhaglen yn sydyn. Ymddiheuriom am hyn ac esbonio'r amgylchiadau.

# Adran pump

**Cadarnhawyd yn Rhannol:**

Ymddiheuriom am beidio ag ymateb i lythyr, ond nid oeddem yn derbyn ein bod heb roi gwybod i'r sefydliad am newidiadau i'r rhaglen.

Mewn achos arall, ymddiheurwyd am gyfathrebu gwael a diffyg darparu gofal cwsmeriaid derbyniol, ond nid oeddem yn derbyn bod hyn wedi effeithio ar ganlyniad yr asesiad.

Yn yr achos olaf, ymddiheurwyd am sylweddoli'n hwyr nad oedd sefydliad yn gymwys i wneud cais am arian, gan arwain at wastraff gwaith ar ran yr ymgeisydd. Gwnawn ein gorau i osgoi'r fath gamgymeriadau ond, yn anffodus, maent yn digwydd o bryd i'w gilydd. Erbyn hyn, tynhawyd y gweithdrefnau i geisio ei atal rhag digwydd eto.

**Heb eu Cadarnhau:**

Ar y cyfan, derbyniwyd y rhain gan ymgeiswyr siomedig a deimlai ein bod wedi methu ag asesu eu ceisiadau'n gywir. Roedd y rhain naill ai'n honiadau nas profwyd, neu am fod ymgeisydd wedi camddeall y broses ymgeisio. Yn yr achosion hyn, cynigiwyd eglurhad pellach am y rhesymau dros eu gwrthod.

Mewn un achos, honnwyd ein bod wedi dosbarthu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y wybodaeth berthnasol gennym erioed, felly ni chadarnhawyd y gŵyn.

## Adolygydd Cwynion Annibynnol

Cyfeiriais yn fy adroddiad y llynedd at gŵyn a wnaed gan brifysgol a oedd yn bartner ymchwil i sefydliad gwirfoddol yr oedd eu grant wedi cael ei derfynu. Daeth y canlyniadau ariannol, gan gynnwys ad-dalu'r grant yn rhannol, i ran y brifysgol ac nid ei phartner. I gydnabod y diffygion a ganfyddais yn y modd yr ymdriniodd y Gronfa â'r achos, cynyddodd ei chynnig iawndal gwreiddiol, ond ni dderbyniwyd hyn gan y brifysgol a oedd yn dadlau y dylent dderbyn dwywaith cymaint â hynny. I dorri ar y cyfyngder hwn, cynigiais ddarparu adroddiad pellach yn argymell sail ar gyfer pennu'r iawndal priodol. Derbyniwyd y cynnig hwn gan y ddau barti ac yn ddiweddarach derbyniwyd fy argymhelliad ar gyfer iawndal o ryw £25,000.

Roedd y gŵyn arall yr ymdriniais â hi yn gysylltiedig â chais am grant i adeiladu neuadd chwaraeon gymunedol newydd. Mae'r gŵyn hon yn deillio o'r cyfnod adrodd diwethaf, sef 2003-04 hefyd. Roedd yn codi pryderon ynghylch y ffin rhwng prosiectau sy'n bennaf yn berthnasol i'r gymuned a'r rheiny sy'n bennaf yn berthnasol i chwaraeon, a digonoldeb arweiniad y Gronfa i ymgeiswyr ynglŷn â hynny. Canfyddais na seiliwyd penderfyniad y Gronfa, sef bod y prosiect yn bennaf yn berthnasol i chwaraeon (ac felly yn rhywbeth i 'Sport England' ei ystyried), ar ddealltwriaeth ac asesiad digonol o'r cais, ac argymhellais y dylai'r Gronfa ei ailystyried. Hefyd, argymhellais y dylid ei ystyried mewn Rhanbarth gwahanol.

Darganfuais y dylai'r Gronfa fod wedi cynghori'r ymgeisydd ynghylch ei bryderon am raddfa'r cynnwys chwaraeon pan wnaeth gais cynharach, ac argymhellais y dylai'r Gronfa ad-dalu'r costau ychwanegol canfyddadwy (£1,175) yr oedd yr ymgeisydd wedi'u gwario wrth baratoi'r cais dilynol. Hefyd, darganfuais oedi anesgusodol ar lefel yr uwch reolwyr wrth ymateb i'r gŵyn, a bod yr ymatebion yn anghyflawn; a chofnod gwael. Derbyniwyd fy nghanfyddiadau a'm hargymhellion gan y Gronfa, gan gynnwys y rheiny y gellir eu cymhwyso'n fwy cyffredinol i wella'r broses o ymdrin â chwynion a cheisiadau sydd, o bosibl, yn cynnwys mwy nag un Dosbarthwr Loteri.

Yn ystod y flwyddyn, cefais fy ngwahodd gan y Gronfa i helpu wrth adolygu ei gweithdrefnau cwyno a'r modd roedd yn ymdrin â chwynion wrth baratoi ar gyfer mabwysiadu gweithdrefnau cyffredinol ar draws holl Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol, a oedd yn cael eu datblygu ar y pryd gan Fforwm y Loteri. Roeddwn hefyd yn falch iawn o gael fy mhenodi gan y Fforwm, ynghyd â Syr David Yardley, i fod yn Adolygwyr Cwynion Annibynnol ar ran holl Ddosbarthwyr y Loteri o ddechrau 2005/6.

**Clive Wilson**, Adolygydd Cwynion Annibynnol

## Rhyddid Gwybodaeth

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym ar 1 Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i unigolion ofyn am unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Gronfa Loteri Fawr, yn amodol ar eithriadau. Rhaid darparu'r wybodaeth hon o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rhwng 1 Ionawr 2005 a 31 Mawrth 2005, cafodd y Gronfa Loteri Fawr 45 cais, gan ymateb mewn ychydig dros 9 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Cafodd ychydig o'r wybodaeth ei heithrio rhag cael ei rhyddhau, ac ni chafwyd unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau.

Daeth y ceisiadau o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys newyddiadurwyr, ymgeiswyr am grantiau ac aelodau'r cyhoedd â chanddynt ddiddordeb mewn prosiectau.

Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw ac yn annog cyhoeddi ei chofnodion drwy ei Chynlluniau Cyhoeddi.

# Adran chwech

## Cydraddoldeb

**Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb wrth galon ein busnes, fel dyfarnwr grantiau ac fel cyflogwr DU-eang. Mae'r gwerthoedd sy'n sail i'n gwaith yn cynnwys nifer sy'n amlygu'r ymagwedd hon. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnwys Tegwch, Hygyrchedd a Chynnwys pobl. Ein nod yw creu diwylliant lle caiff y gwerthoedd hyn eu gwireddu. Rydym hefyd wedi cytuno ar set o egwyddorion i'n helpu i ddeall sut y gallwn roi cydraddoldeb ar waith. Yr egwyddorion hyn yw hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth cymunedau, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol a chyfrannu at leihau anfantais ac allgáu.**

Mae anghenion pobl anabl wedi bod yn ffocws i ni fel cyflogwr. I'r perwyl hwn, rydym yn ceisio ennill nod ansawdd y Symbol Anabledd. Bydd ennill y nod hwn yn dangos bod gennym ymagwedd gadarnhaol at anabledd. Bydd yn arwydd gweladwy ein bod yn cymryd camau i gyflogi a datblygu pobl anabl.

Credwn ei fod yn bwysig gwrando ar farn pobl o'r tu allan i'r sefydliad wrth ffurfio ein busnes. Mae ein Fforwm Cydraddoldeb yn cynnwys ymgynghorwyr arbenigol sy'n cynrychioli ystod eang o faterion cydraddoldeb. Credwn hefyd fod arweinyddiaeth gref yn hanfodol. Am y rheswm hwn, mae ein Fforwm yn cynnwys aelodau o'n Bwrdd ni hefyd.

Rydym wedi gweithio'n ddiwyd i gynnwys materion cydraddoldeb yn ein holl raglenni a pholisïau newydd. Gelwir y broses hon yn brif-ffrydio. Rydym yn cydnabod mai proses hirdymor yw hon. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'n staff ystyried pa effaith y gallai ein polisïau a'n rhaglenni ei chael ar bobl o gefndiroedd gwahanol.


Yna, rhaid i'n staff ystyried a yw'r effeithiau hynny'n deg ac yn gyfiawn. Os nad ydynt, yna rhaid iddynt ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i gael gwared arnynt neu eu lleihau. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio barn a phrofiadau'r rheiny yr effeithir arnynt gan ein busnes i lywio ein dyfarniadau.

Rydym wedi sefydlu tîm prosiect ymroddedig i yrru ein gwaith o brif-ffrydio cydraddoldeb yn ei flaen. Rhoddwyd y dasg i'r tîm hwn o ddatblygu systemau a chymorth i ganiatáu i'n staff wneud prif-ffrydio cydraddoldeb yn realiti bob dydd. I gefnogi eu hymdrechion, cafodd cydraddoldeb ei integreiddio i'n trefniadau cynllunio busnes ac adrodd. Rydym hefyd wedi cytuno ar ymagwedd tuag at fesur ein perfformiad o ran cydraddoldeb yn y dyfodol. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys y gofyniad bod yr holl staff yn cynhyrchu amcanion cydraddoldeb personol sy'n gysylltiedig â'u swyddi ac â'n amcanion strategol. Caiff eu perfformiad wrth fodloni'r amcanion hyn eu mesur fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.


Mae ein gwaith o brif-ffrydio cydraddoldeb hefyd yn ein galluogi i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (gweler yr adroddiad ar waith Swyddfa Gogledd Iwerddon). Rydym hefyd wedi parhau i wella wrth fodloni'r gofynion o dan y Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000. Caiff y darganfyddiadau allweddol a'r camau a gynlluniwyd o'r data cyflogaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol eu cyflwyno dros y dudalen.

Byddwn yn parhau i fonitro ystadegau cydraddoldeb perthnasol a datblygu polisïau a rhaglenni a fydd yn lledu mynediad i'n cronfeydd ac ymdrin ag anghydraddoldebau yn ein harferion.

## Ystadegau Cydraddoldeb




*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*



# Adran chwech

Cyfansoddiad y staff yn ôl Rhyw

| | Cronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|---|
| Staff Gwrywaidd | 32.3% | 47.7% | 56.1% |
| Staff Benywaidd | 67.7% | 52.3% | 43.9% |

*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*

Cyfansoddiad y staff yn ôl Anabledd

| | Cronfa | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU |
|---|---|---|---|
| Staff ag anabledd | 2.5% | 3.6% | 12.2% |
| Staff heb anabledd | 98.5% | 96.4% | 87.8% |

*Mae poblogaeth y DU yn cyfeirio at ddata pobl sy'n weithgar yn economaidd*

## Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg wedi ei gyhoeddi a'u gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n manylu ar sut yr ydym yn darparu gwasanaeth deg i'r boblogaeth Saesneg a Chymraeg. Mae'r Gronfa'n adnabod fod galluogi pobl i gysylltu â'r sefydliad drwy eu dewis iaith yn fater o gyfle cyfartal ac arfer da.

Cyfrifoldeb staff swyddfa Cymru yw monitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a bydd Cyfarwyddwr Cymru yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein perfformiad yn erbyn y targedau a gyhoeddwyd.

Y cyrhaeddiadau nodedig yn ystod 2004/05 oedd:

- Cafodd ceisiadau trwy'r Gymraeg eu hasesu a'u monitro gan swyddogion dwyieithog er mwyn sicrhau cydraddoldeb o fewn y broses dyrannu grantiau.
- Cyhoeddwyd ddeunyddiau ychwanegol am ein grantiau a ddyrannwyd yng Nghymru yn ddwyieithog ar ein gwefan i wella'n gwasanaeth i ddefnyddwyr.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â'n darpariaeth gyfrwng Gymraeg.
- Lansiwyd gwefan y Gronfa Loteri Fawr yn y Saesneg a'r Gymraeg ar Fehefin 1 2004.

Mae staff y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi bod yn cydweithio'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn ac ar ôl yr uniad i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr ar y broses o ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr ar sail cryfderau a phrofiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

# Adran saith
## Cofrestr o fuddiannau

**O dan ein Côd Ymarfer, mae'n ofynnol i holl aelodau Bwrdd a phwyllgorau ac aelodau staff Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol. Cedwir datganiadau buddiannau Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Pwyllgorau gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.**

**Maent ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd drwy ysgrifennu at Brif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr.**

### Tryloywedd ac atebolrwydd
Rydym yn dod o dan weithdrefnau'r Ombwdsmon Seneddol. Rydym hefyd yn gweithredu Côd y Llywodraeth ynghylch Mynediad i Wybodaeth.

# Adran wyth
## Adolygiad ariannol

**Nodir canlyniadau'r Gronfa Gymunedol am y flwyddyn tan 31 Mawrth 2005 a'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn y cyfrifon blynyddol ar dudalennau adran un ar ddeg.**

Mae'r Gronfa Gymunedol yn derbyn 16.7 y cant o'r arian a godir drwy'r Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Gronfa Gymunedol £226 miliwn mewn incwm Loteri a £6 miliwn mewn incwm buddsoddiad. Caiff hwn ei fuddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Yn ystod ei hoes, mae'r Gronfa Gymunedol wedi derbyn £2.9 biliwn gan y Loteri. Nid yw Bwrdd y Gronfa Gymunedol yn rheoli buddsoddi'r Arian; yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n gyfrifol am hynny. Rhoddir manylion pellach yn nodyn 11 i'r cyfrifon blynyddol. Mae nodyn 18 i'r cyfrifon blynyddol yn nodi'r rheswm y mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i unrhyw risgiau sylweddol o du cyfraddau llog.

Yn ystod 2004/05, cynigiodd y Gronfa Gymunedol gyfanswm o £199 miliwm mewn grantiau newydd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ymrwymiadau caled gwerth £329 miliwn ar gyfer cynigion a dderbyniwyd ac a oedd yn ymaros taliad, gydag ymrwymiadau meddal gwerth £37 miliwn pellach o ran dyfarniadau sy'n ymaros cael eu derbyn. Yn ystod ei hoes, mae'r Gronfa Gymunedol wedi dyfarnu grantiau gwerth £3 biliwn. Ceir manylion llawn rhaglenni grantiau a dyfarniadau a wnaed mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Talwyd cyfanswm o £253 miliwn i dderbynwyr grantiau yn ystod 2004/05. Gwneir taliadau i dderbynwyr grantiau ar sail ceisiadau am wariant cyfalaf sy'n dod i law oddi wrth dderbynwyr, ac ar sail y gofynion proffil ar gyfer taliadau refeniw.

Yn unol â'i pholisi mae mantol y Gronfa Gymunedol yn Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi parhau i leihau o £213 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £174 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i dalu grantiau o £365 miliwn o'u cymharu â'r fantol hon yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sefyllfa sy'n cynrychioli gor-ymrwymiad o £191, sef rhyw 11 mis o'r incwm a ragwelir.

Mae mantol darged hirdymor Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol rhwng 3 - 6 mis o'i hincwm blynyddol rhagweledig (£52 - £104 miliwn ar hyn o bryd) (gweler nodyn 1.3). Y fantol darged a adroddwyd yng nghyfrifon blynyddol y llynedd ar gyfer 31 Mawrth 2005 oedd £115 miliwn. Ni chyrhaeddwyd y targed hwn oherwydd:

- derbyn £19 miliwn mwy o incwm nag a ragwelwyd
- £4 miliwn llai o wariant ar gostau gweithredu na'r rhagolygon
- cynnydd o £3 miliwn mewn mantolau banc a gedwir yn lleol
- £39 miliwn yn llai o daliadau grant na'r disgwyl.

Mae'r diffyg mewn taliadau grant yn codi am nifer o resymau, gan gynnwys cynnydd mewn prosiectau cyfalaf, dyfarnu mwy o grantiau mawr a gobaith ar ran y Gronfa o ran cyflymder tynnu'r arian i lawr gan dderbynwyr grantiau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol o dan sylw, costau

gweithredu'r Gronfa Gymunedol oedd £32 miliwn. Mae nodyn 7 i'r cyfrifon blynyddol yn adrodd y dangosydd perfformiad ariannol. Dyma gynnydd o £3.4 miliwn ar wariant y llynedd, sy'n adlewyrchu costau unigryw a gododd o ganlyniad i'r uniad gweinyddol gyda'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Gwnaeth y Gronfa Gymunedol warged o £29 miliwn am y flwyddyn. Ychwanegir y warged at ddiffyg ariannol o flynyddoedd blaenorol, ac erbyn hyn mae gan y Gronfa Gymunedol ddiffyg ariannol o £148 miliwn ar gronfeydd dargadwedig. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan Fwrdd y Gronfa Gymunedol a'i hardystio gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl cymryd i ystyriaeth gofyniad llif arian dyfarniadau grant, y mae nifer ohonynt i ariannu prosiectau rhwng tair a phum mlynedd. Nodir y rhagamcanion llif arian yn Nodyn 18 i'r cyfrifon.

# Adran naw

## Cysylltu â ni

**Swyddfa gorfforaethol**
1 Plough Place
London
EC4A 1DE

Ffôn: 020 7211 1800

**Gogledd Iwerddon**
1 Cromac Quay
Cromac Wood
Ormeau Road
Belfast
BT7 2JD

Ffôn: 028 9055 1455

**Yr Alban**
1 Atlantic Quay
1 Robertson Street
Glasgow
G2 8JB

Ffôn: 0141 242 1400

**Cymru Caerdydd**
6ed Llawr
1 Kingsway
Caerdydd
CF10 3JN

Ffôn: 029 2067 8200

**Cymru Y Drenewydd**
2il Lawr
Tŷ Ladywell
Y Drenewydd
Powys
SY16 1JB

Ffôn: 01686 611700

**East Midlands**
Chiltern House
St. Nicholas Court
25-27 Castle Gate
Nottingham
NG1 7AR

Ffôn: 0115 834 2993

**Dwyrain Lloegr**
Elizabeth House
2nd Floor
1 High Street
Chesterton
Cambridge
CB4 1YW

Ffôn: 01223 449000

**Swyddfa Ranbarthol Llundain**
1 Plough Place
London
EC4A 1DE

Ffôn: 020 7842 4000

**Gogledd-ddwyrain Lloegr**
6th Floor
Baron House
4 Neville Street
Newcastle upon Tyne
NE1 5NL

Ffôn: 0191 255 1100

**Gogledd-orllewin Lloegr**
Ground Floor
Dallam Court
Dallam Lane
Warrington
WA2 7LU

Ffôn: 01925 626827

**De-ddwyrain Lloegr**
3rd Floor
Dominion House
Woodbridge Road
Guildford
GU1 4BN

Ffôn: 01483 462900

**De-orllewin Lloegr**
Beaufort House
51 New North Road
Exeter
Devon
EX4 4EQ

Ffôn: 01392 849700

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Edmund House
8th Floor
12-22 Newhall Street
Birmingham
B3 3NL

Ffôn: 0121 200 3500

**Swydd Efrog a'r Humber**
2nd Floor
Carlton Tower
34 St. Pauls Street
Leeds
West Yorkshire
LS1 2AT

Ffôn: 0113 290 2902

# Adran deg

## Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor

**Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu rhaglen grantiau'r Gronfa yng nghyd-destun y Cyfarwyddiadau Polisi; am gyflawni'r targedau a nodwyd ar gyfer mentrau yn y cyfarwyddiadau hynny; am sicrhau, gyda chyngor y Prif Weithredwr, y glynir at y safonau uchaf o atebolrwydd cyhoeddus, ac am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ymgeiswyr a derbynwyr grantiau.**

Gwasanaethodd yr aelodau canlynol o Fwrdd y Gronfa Gymunedol rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mai 2004 tan i Fwrdd cydffiniol y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol gael ei ffurfio ar 1 Mehefin 2004.

**Y Foneddiges Diana Brittan DBE**
Cadeirydd
Cadeirydd y Pwyllgor Polisi
Cadeirydd y Pwyllgor Grantiau Strategol

**Y Fonesig Valerie Strachan DCB**
Is-gadeirydd
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau

**Elaine Appelbee MBE**
Aelod Lloegr

**Steven Burkeman**
Aelod Lloegr

**Paul Cavanagh**
Aelod Gogledd Iwerddon

**Jeff Carroll**
Cadeirydd Pwyllgor Cymru

**Douglas Graham**
Aelod yr Alban
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

**Kay Hampton**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban

**Taha Idris**
Aelod Cymru

**Yr Athro James Kearney OBE**
(Bu farw'r Athro Kearney yn hwyr yn 2004)
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon

**Sheila Jane Malley**
Aelod Gogledd Iwerddon

**Richard Martineau**
Aelod Lloegr

**Carol Tongue**
Aelod Lloegr

**Libby Watkins**
Aelod Cymru

**Benjamin Whitaker CBE**
Aelod Lloegr

# Adran deg

## Aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr o 1 Mehefin 2004



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd
Cyd-gadeirydd Pwyllgor y Fforwm Loteri Fawr/Comisiwn y Mileniwm
Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogau



**Y Fonesig Valerie Strachan DCB**
Is-gadeirydd
Cadeirydd Pwyllgor y Grantiau Strategol



**Dr Samuel Burnside**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Ffyrdd Actif o Fyw



**David Campbell CBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Dir Yr Alban



**Paul Cavanagh**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Cronfa Pobl Ifanc



**Tom Davies**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru
Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon



**Roland Doven MBE**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd y Fforwm Cydraddoldeb



**Yr Athro Breidge Gadd CBE**
Aelod Gogledd Iwerddon
Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd y Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol, Pwyllgor Gogledd Iwerddon



**John Gartside OBE**
Aelod Lloegr



**Douglas Graham**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor 'Active Futures' Yr Alban
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



**Taha Idris**
Aelod Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru Mentro Allan



**Huw Vaughan Thomas**
Aelod Cymru
Cadeirydd y Rhaglen Ariannu Gwirfoddol a Chymunedol, Pwyllgor Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Cymru y Gronfa Pobl Ifanc



**Dugald Mackie**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd Pwyllgor Lloegr Cyfleoedd Newydd ar gyfer AG a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau



**Diana Whitworth**
Aelod Cyffredinol



**John Naylor OBE**
Aelod yr Alban
Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Cymunedau yr Alban
Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Gwerthuso a Dysgu Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Pobl Ifanc yr Alban



**Esther O'Callaghan**
Aelod Cyffredinol
Cadeirydd Pwyllgor Lloegr Cronfa Pobl Ifanc



**Anna Southall**
Aelod Cyffredinol

# Adran un ar ddeg

Cyfrifon Blynyddol am y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

## Rhagair i'r cyfrifon

**Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi grantiau'r Loteri Genedlaethol i sefydliadau elusennol, llesiannol neu ddyngarol. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus anadrannol DU-eang, a reoleiddir yn unol â'r Datganiad Rheoli, y Cyfarwyddiadau Ariannol a Pholisi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.**

Ym mis Chwefror 2003, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol (enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol) a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddod at ei gilydd i greu corff newydd i ddosbarthu arian y Loteri, gan fanteisio ar gryfderau'r ddau gorff presennol. Ym mis Tachwedd 2003, penodwyd Stephen Dunmore yn Brif Weithredwr y ddau gorff a dechreuodd ffurfio tîm rheoli ar y cyd i arwain y corff dosbarthu newydd. Mae'r cyfuniad gweinyddol hwn wedi parhau yn ystod 2004/05, ac ar 1 Mehefin 2004 lansiwyd y Gronfa Loteri Fawr â chadeirydd a Bwrdd newydd. Y Gronfa Loteri Fawr yw enw'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar y cyd; mae'r ddau gorff yn parhau fel endidau statudol gwahanol hyd nes cymeradwya'r Senedd ddeddfwriaeth newydd.

Cyn 1 Mehefin 2004 roedd Bwrdd Llywodraethu'r Gronfa Gymunedol yn cynnwys 16 aelod a'r Cadeirydd, y penodwyd pob un ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mai 2004 ymddiswyddodd pob aelod o'r Bwrdd Llywodraethu. Penodwyd Cadeirydd a Bwrdd cydffiniol newydd ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr ar 1 Mehefin 2004. Ceir enwau holl aelodau'r Bwrdd mewn man arall yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir cofrestr o fuddiannau aelodau'r bwrdd ac mae'n agored i'r cyhoedd. Ceir mynediad i'r gofrestr drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr.

### Canlyniadau am y Flwyddyn

Cafwyd gwarged o £29 miliwn ar gyfer y flwyddyn gan y Gronfa Gymunedol. Ychwanegir hyn at y diffyg net cronnus o'r blynyddoedd blaenorol ac erbyn hyn mae gan y Gronfa Gymunedol ddiffyg o £148 miliwn ar gronfeydd wrth gefn argadwedig. Cymeradwywyd y sefyllfa ariannol hon gan Fwrdd y Gronfa Gymunedol a'i ardystio gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ystyried gofyniad llif arian dyfarniadau grant, y mae nifer ohonynt i gyllido prosiectau tair i bum mlynedd. Nodir rhagamcaniadau llif arian yn Nodyn 18 y cyfrifon.

Cynhwysir adolygiad ariannol llawn am y flwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol.

### Arolwg o weithgareddau a datblygiadau'r dyfodol

Prif weithgarwch y Gronfa Gymunedol yw dosbarthu grantiau, a hynny'n bennaf i helpu i fodloni anghenion y rhai hynny mewn cymdeithas sy'n wynebu'r anfantais fwyaf a hefyd i wella ansawdd bywyd yn y gymuned. Yn ystod 2004/2005 daliodd y Gronfa Gymunedol ati i ddyrannu grantiau, talu grantiau a monitro cydymffurfiad derbynwyr grantiau â thelerau ac amodau'r grant.

Mae'r Gronfa Gymunedol hefyd wedi parhau i weinyddu'r cynlluniau Arian i Bawb yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ran dosbarthwyr eraill arian y Loteri, a bu'n cynnal asesiadau grant o'r rhaglenni gofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn ogystal â'r rhaglenni gofal plant, ac yn eu rheoli ar ran y Gronfa Cyfleoedd Newydd. Yn ystod y flwyddyn hon sefydlodd y Gronfa Gymunedol gytundebau â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i gynnal asesiadau grant a rheoli elfennau penodol o'r Gronfa Pobl Ifanc. Sefydlodd y Gronfa Gymunedol gytundeb â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd i gynnal asesiadau grant a rheoli'r rhaglen Cofio'r Ffrynt Cartref.

Yn 2004/05 cwblhawyd y broses o gymathu swyddogaethau corfforaethol a Swyddfeydd Gwlad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Datblygwyd cynlluniau ar gyfer cymathu'r gweithgareddau dyfarnu grantiau a chânt eu gweithredu yn ystod 2005/06. Yn ogystal, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ystyried ei gofynion o ran adeiladau yn y dyfodol, a rhesymolir nifer y safleoedd y bydd yn eu defnyddio yn ystod y tair neu bedair blynedd nesaf.

Yn y flwyddyn ariannol nesaf bydd y Gronfa Gymunedol, yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr, yn dosbarthu dyfarniadau olaf y Gronfa ar gyfer ei rhaglenni grant presennol; bydd rhaglenni 'sy'n ymateb i alw' y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol yn cau i geisiadau newydd ym Mai a Mehefin 2005 (yn dibynnu ar y rhaglen a'r wlad) a gwneir dyfarniadau terfynol tua diwedd y Flwyddyn Ariannol. Yn ystod 2005/06 bydd y Gronfa Gymunedol yn gweithio ar gyflwyno rhaglenni newydd yng nghyd-destun y Cyfarwyddiadau Polisi diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Pennir datblygiadau ar gyfer dyfodol y Gronfa Loteri Fawr yn rhagair y Cadeirydd i'r adroddiad blynyddol.

## Asedau sefydlog

Mae symudiadau asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn wedi eu dangos yn Nodyn 9 y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn daeth yr ychwanegiadau at asedau sefydlog i £0.2 miliwn (2003/04 £0.4 miliwn) sy'n gysylltiedig ag ailwampio'r swyddfeydd yn Glasgow ac yn Llundain.

## Digwyddiadau ôl fantolen

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau o bwys a gafodd effaith ariannol ar y cyfrifon blynyddol hyn rhwng 31 Mawrth 2005 a llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.

## Gweithwyr, cyfleoedd cyfartal ac ymgynghori

Fel cyflogwr, mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymrwymo i sicrhau cyfleoedd cyfartal. Disgrifir hyn yn fanylach yn yr Adroddiad Blynyddol.

Seiliwyd y trefniadau ar gyfer tâl ac amodau ar arfer gorau yn y sector cyhoeddus, ac mae'r Gronfa Gymunedol wedi sefydlu ystod o bolisïau cyflogi sy'n dangos ei hymrwymiad i fod yn gyflogwr teg. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad staff, a sefydlwyd trefniadau cynhwysfawr hefyd. Mae'r holl drefniadau a'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ar y cyd â threfniadau a pholisïau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, er mwyn sefydlu telerau ac amodau cyffredin i holl staff y Gronfa Loteri Fawr. I annog cyfathrebu a pherthynas dda rhwng y Bwrdd, y rheolwyr a'r staff ar bob lefel, cydnabuwyd yr undeb llafur Amicus.

# Adran un ar ddeg

Golyga natur gweithrediadau'r Gronfa Gymunedol fod nifer o staff yn gweithio'n agos â thîm yr uwch reolwyr a'r Bwrdd, er enghraifft, wrth ddatblygu ac arfarnu rhaglenni. Mae rhai aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, sy'n eu galluogi i fod yn ymwybodol o'r meddwl y tu ôl i ddatblygiad y Gronfa Gymunedol a'i gweithrediadau. Yn ychwanegol, ymgynghorir â'r staff ynghylch y cynllun corfforaethol ac ynghylch diwygio'r cynllun strategol. Mae uwch reolwyr y Gronfa Gymunedol, trwy gyfarfodydd grŵp rhaeadrol a'u hygyrchedd, yn sicrhau yr ymdrinnir â phryderon y staff mewn da bryd.

## Datganiad o bolisi ac arferion talu

Nod y Gronfa Gymunedol yw talu ei holl gredydwyr o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni negodwyd telerau ac amodau eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Canllaw Arferion Talu Gwell. Yn y flwyddyn dan sylw, talwyd 88 y cant (2003/2004 89 y cant) o'r holl gredydwyr o fewn trideg diwrnod o dderbyn anfoneb.

## Ewro

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi asesu effaith yr Ewro ar ei gweithrediadau. Ni ddisgwylir y bydd cyflwyno'r Ewro yn cael effaith berthnasol ar weithrediadau'r Gronfa Gymunedol na'i pherthynas â chwsmeriaid a chyflenwyr.

## Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, mae'n ofynnol bod cyfrifon blynyddol y Gronfa Gymunedol yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Felly, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal yr archwiliad allanol ar y Gronfa Gymunedol.



**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo y Gronfa Gymunedol

29 Tachwedd 2005



**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Gymunedol

# Datganiad o gyfrifoldebau'r bwrdd a'r prif weithredwr

O dan Adran 39(1) Deddf y Loteri Genedlaethol ayb 1993, mae'n ofynnol i'r Gronfa Gymunedol baratoi datganiad o gyfrifon am y cyfnod ariannol yn y ffurf ac yn ôl yr amodau a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chydsyniad y Trysorlys.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar ffurf groniadol ac mae'n rhaid iddynt fod yn adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr y Gronfa Gymunedol ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a'i gwariant a'i llif arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifo addas mewn ffordd gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifo cymwys wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa Gymunedol yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi Prif Weithredwr y Gronfa Gymunedol fel Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus a chadw cofnodion cywir, wedi eu hamlinellu ym memorandwm Swyddogion Cyfrifo'r Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a luniwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yng Nghyfrifo'r Llywodraeth, ac yn y Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan adran 26(3) y Ddeddf.

## Cyfrifoldebau dirprwyedig

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymuno â chynlluniau ar y cyd, fel a ddiffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu cyllid ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffiniwyd gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn, mae Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol yn gyfrifol am: sicrhau bod arian y Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Gymunedol yn cael ei gymhwyso'n unol â phwerau cyfreithiol y Gronfa Gymunedol; defnyddio'r arian Loteri a ddyrennir i'r rhaglen gan y Gronfa Gymunedol mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ei fodloni ei hun bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas at y diben, a chytuno ar y peirianwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng Cyrff y Loteri sy'n cymryd rhan.

# Adran un ar ddeg

Mae'r Gronfa'n cyfrannu at y cydgynlluniau canlynol.

- Arian i Bawb, Lloegr, rhan o fenter y cynllun grantiau bach. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a 'Sport England'.
- Cofio'r Ffrynt Cartref, rhan o raglen y cyn filwyr. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.
- Creu Cof Byw, rhan o fenter y Grantiau Trawsnewid. Cynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr
29 Tachwedd 2005

# Datganiad ar reolaeth fewnol

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwy'n gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n gefnogol i gyflawni nodau ac amcanion y Gronfa Gymunedol, wrth:

- ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi drwy Gyfrifo'r Llywodraeth
- sicrhau cydymffurfiad â gofynion Datganiad Rheoli, Cyfarwyddiadau Polisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Datganiad o Ofynion Ariannol y Gronfa Gymunedol.

## Diben y system rheoli mewnol

Dyluniwyd y system rheoli fewnol i reoli'r risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion yn gyfan gwbl; yn hynny o beth, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y mae'n gallu ei gynnig, yn hytrach na sicrwydd llwyr. Seilir y system rheoli fewnol ar broses barhaus a ddyluniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Gymunedol, i werthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'u heffaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Gweithredwyd y system rheoli fewnol trwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 March 2005, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, mae wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Cyflwynir prif elfennau fframwaith rheoli'r Gronfa Gymunedol isod.

## Amgylchedd reoli

- Mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi fy mhenodi i, sef Prif Weithredwr y Gronfa Gymunedol, yn Swyddog Cyfrifo. At y diben hwn, mae gennyf lythyr cyweddiad ar wahân sy'n datgan yn glir fy nghyfrifoldeb ac atebolrwydd dros gynnal system rheoli fewnol cadarn yn y Gronfa. Fi hefyd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.
- Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i integreiddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol i ffurfio'r Gronfa Loteri Fawr, sefydlwyd Cydbwyllgor gweinyddol o'r Ddau Fwrdd i oruchwylio agweddau ar y broses integreiddio cyn sefydlu'r Bwrdd cydffiniol ar 1 Mehefin 2004. Ffurfiwyd y pwyllgor hwn o aelodau'r ddau fwrdd etifeddiaeth, a gefnogwyd gan 2 aelod annibynnol. Er mai gyda Bwrdd y Gronfa Gymunedol yr arhosodd y gwir gyfrifoldeb am faterion y Gronfa Gymunedol, dirprwywyd nifer o benderfyniadau i aelodau'r Gronfa Gymunedol a oedd ar y Cydbwyllgor. Rhoddir manylion pellach am y trefniadau trosiannol isod.
- Uwch Dîm Rheoli, â chylch gorchwyl clir ac aelodaeth diffiniedig, sy'n cyfarfod o leiaf unwaith bob mis i ystyried cynlluniau a gweithrediadau'r Gronfa Gymunedol yn ogystal â chydymffurfiaeth â'r Datganiad Rheoli.
- Bwrdd sy'n cyfarfod o leiaf bob dau fis i ystyried cyfeiriad strategol y Gronfa Gymunedol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac 16 aelod anweithredol, ac mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn ei fynychu.
- Y Pwyllgor Archwilio, a ddisodlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Mehefin 2004 ymlaen, y mae ei gylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen archwilio fewnol, ardystio'r gofrestr risg ac archwilio canlyniadau'r adroddiadau trwy gynnal archwiliadau mewnol ac allanol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ynghylch y materion a drafodir gan y Pwyllgor.
- Y Pwyllgor Adnoddau, y mae ei gylch gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a derbyn adroddiadau ariannol rheolaidd er mwyn herio a goruchwylio gwariant.
- Cynllun corfforaethol cyhoeddedig sy'n nodi amcanion a meincnodau perfformiad y Gronfa Gymunedol. Nodwyd 2004/05 fel blwyddyn drosiannol pan fyddai'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn gweithio fel un corff gweinyddol ac yn gosod sylfeini'r Gronfa Loteri Fawr.
- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r Uwch Dîm Rheoli sy'n adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni'r amcanion corfforaethol hyn, yn ogystal â chyrraedd y targedau perfformiad a gwasanaeth. Yn gyffredinol, cyrhaeddwyd y targedau hyn, fel a fanylwyd yn yr Adroddiad Blynyddol. Lle na chyrhaeddwyd targedau, mae camau'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Adroddiadau ariannol cryno misol i'r Uwch Dîm Rheoli ac adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Adnoddau, sy'n adrodd ar y cynnydd yn erbyn y targedau ariannol, gan gynnwys y cyllidebau ymrwymiad grant, targedau mantoli CDdLG a chyllidebau costau gweithredu.

# Adran un ar ddeg

- Polisi twyll, lle'r ymdrinnir â thwyll a amheuir trwy gydweithio â'r Heddlu ac asiantaethau eraill lle bo'n briodol. Mae nifer o achosion yn cael eu hymchwilio ar hyn o bryd. Trwy gydol yr ymchwiliad, p'un a brofir y cafwyd twyll ai peidio, rydym yn adolygu ein gweithdrefnau a'n prosesau er mwyn dysgu gwersi, ac yn gwella systemau rheoli mewnol, atal twyll a datgelu lle bo angen.
- Ystod eang o bolisïau sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â materion rheoli ar gyfer rheolaeth gorfforaethol, rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad, technoleg gwybodaeth a rheoli risg. Eleni, adolygwyd ac ailgyflwynwyd llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn i adlewyrchu prosesau integreiddiedig.
- Ystod eang o reolau i sicrhau y rheolir gweithgareddau asesu a monitro grantiau'n ddigonol, ac y gellir lleihau'r achosion o golli grantiau'r Loteri. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer asesu grantiau a thasgau rheoli grantiau, tasgau goruchwylio rheolaeth diffiniedig, dirprwyaethau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, a rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll.
- Fframwaith reoli prosiect, â chyfrifoldebau diffiniedig sy'n cynnwys noddwr prosiect, ar gyfer datblygu rhaglenni newydd.
- Proses cysylltiadau mewnol sy'n sicrhau y rhoddir gwybod i'r holl staff am benderfyniadau allweddol mewn da o bryd drwy'r cyfryngau priodol, gan gynnwys defnyddio llythyrau oddi wrth y Prif Weithredwr, briffiau rhaeadrol gan reolwyr llinell a chyflwyniadau gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.
- Strategaeth cyfathrebu allanol sy'n sicrhau bod rhan-ddeiliad, Seneddwyr, y wasg ac aelodau o'r cyhoedd yn cael gwybodaeth briodol a dibynadwy. Roedd yr ymagwedd hon yn ffactor cyfrannol wrth sicrhau bod y Gronfa Gymunedol yn barod i weithredu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 1 Ionawr 2005.
- Uned Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn ôl safonau a ddiffinnir yn llawlyfr Archwilio mewnol y Llywodraeth. Caiff yr archwiliad mewnol ei lywio gan y gofrestr risg gorfforaethol a chan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Gronfa Gymunedol yn agored iddynt. Seilir cynlluniau'r archwiliadau mewnol blynyddol ar y dadansoddiad hwn, a chânt eu cymeradwyo gennyf i a'u hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor Archwilio cyn 1 Mehefin 2004). Mae Pennaeth yr adran Archwiliadau Mewnol yn cyfarfod â mi'n rheolaidd, ac yn cyfarfod â'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol heb unrhyw Swyddogion yn bresennol. Mae Pennaeth yr adran Archwiliadau Mewnol yn rhoi adroddiadau cynnydd cyfnodol i mi sy'n arwain at adroddiad blynyddol ynglŷn â gweithgareddau archwilio mewnol y Gronfa Gymunedol, gan gynnwys canfyddiadau ôl-adolygiadau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys ei barn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau a adolygwyd ganddynt. Adolygwyd hyn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Integreiddio â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd

- Daeth yr uniad gweinyddol rhwng y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i rym ar 1 Ebrill 2004. Fe'm penodwyd i'n Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifo dros y ddau sefydliad o 1 Rhagfyr 2003 ymlaen, ac erbyn Ebrill 2004 roeddwn wedi penodi fy Uwch Dîm Rheoli, heblaw am y Cyfarwyddwr ar gyfer yr Alban.

Roedd y tîm cyfan yn eu swyddi o fis Awst 2004, ac arweiniodd hyn at gymathu'r swyddogaethau corfforaethol a gweithredol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, integreiddiwyd y staff a'r prosesau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r holl swyddogaethau corfforaethol (gan gynnwys Polisi, Cyfathrebu, Trefn Lywodraethol, Cyllid, Adnoddau Dynol a Systemau Gwybodaeth) yn llawn, neu mae cynllun gweithredu clir ynglŷn â sut i gwblhau'r broses integreiddio.

- Sefydlwyd bwrdd prosiect, a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac sy'n cynnwys aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a chanddynt gyfrifoldebau Corfforaethol, i oruchwylio'r adolygiad strwythurol (adolygiad manwl o'r strwythurau rheoli mewnol a lleoliad ffisegol rolau dyfarnu grant a chynrychiolaeth ranbarthol y sefydliad yn Lloegr). Cymeradwywyd y prif benderfyniadau polisi, a bydd y bwrdd hwn yn awr yn goruchwylio gweithredu'r cynlluniau a gytunwyd, yn enwedig o ran cymathu'r rheolaeth dyfarnu grantiau a rhan-ddeiliaid rhanbarthol.

## Rheoli risg
## Gallu i ymdrin â risg

Prif elfen fframwaith rheoli risg y Gronfa Gymunedol yn ystod 2004/05 oedd adolygiadau chwarterol o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, a wnaed gan yr Uwch Dîm Reoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Bu'r adolygiadau hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod y gofrestr risg a'n hymatebion yn berthnasol ac yn gyfoes. Mae adolygu'r gofrestr yn chwarterol gan bob un o'r Cyfarwyddwyr yn unigol, ar y cyd drwy'r Uwch Dîm Rheoli a thrwy drafodaethau â'r Pwyllgor Archwilio a Risg gyda ffocws pendant ar y 10 risg pennaf, yn dilysu cynnwys y gofrestr risg corfforaethol ac yn cadarnhau archwaeth risg y Gronfa Gymunedol.

Caiff egwyddorion rheoli risg, gan gynnwys ystyried risg ac argymhellion ar gyfer lliniaru priodol, eu cynnwys yn ffurfiol yn y broses o gynllunio corfforaethol, asesu grantiau, rheoli grantiau, datblygu rhaglenni newydd a gweithgareddau rheoli. Yn y gorffennol, rhoddwyd arweiniad ynghylch rheoli risg i'r staff perthnasol, gan nodi bod risg a'i reolaeth yn rhan sylfaenol o'u swyddogaeth, sy'n cwmpasu arferion rheoli da a synnwyr cyffredin.

Ar hyn o bryd, mae polisi rheoli risg y Gronfa Loteri Fawr wrthi'n cael ei ddatblygu, ar sail polisïau a phrofiad y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Medi, ac i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Wedi hynny, caiff ei lansio ar draws y sefydliad i sicrhau yr atgoffir yr holl staff o arferion rheoli risg effeithiol. I gefnogi hyn, mae Llawlyfr Rheoli Risg yn cael ei ddatblygu ar gyfer staff.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

Yn dilyn ymlaen o waith blaenorol gan aelodau'r Bwrdd, rheolwyr a staff, mae'r Gronfa Gymunedol wedi nodi'r risgiau penodol o ran cyrraedd ei hamcanion. Ym mis Ebrill 2004, cynhaliwyd ymarfer i gyfuno cofrestri risg y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i ffurfio un gofrestr risg gorfforaethol ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr.

Aseswyd effaith bosibl pob risg a'r tebygolrwydd y gwireddir y risg hwnnw, a phennwyd rheolaethau priodol i liniaru'r risgiau hyn. Cofnodwyd hyn yn y gofrestr risg gorfforaethol. Pob chwarter adolygwyd y gofrestr risg gan bob Cyfarwyddwr, gan fwydo'u sylwadau a'u newidiadau i mewn iddi. Trafododd yr Uwch Dîm Rheoli y gofrestr risg ar y cyd cyn cyflwyno adroddiadau, gan ganolbwyntio ar y 10 prif risg ac unrhyw newidiadau, i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

# Adran un ar ddeg

Yn ychwanegol, fel y nodwyd uchod, mae rheoli risg yn rhan annatod o'n proses cynllunio busnes:

- mae'r cyfarwyddiadau comisiynu a'r templedi ar gyfer y broses cynllunio busnes yn ei wneud yn ofynnol i'r holl reolwyr ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion a nodir ganddynt
- mae'r holl brosiectau, gan gynnwys datblygu rhaglenni newydd, yn cydymffurfio â fframwaith rheoli prosiect y sefydliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol datblygu cofrestri risg ar gyfer prosiectau unigol a'u hadolygu'n rheolaidd
- mae asesiadau grant a llawlyfrau rheoli grant yn nodi'r gofyniad y dylid dyrannu statws risg i bob grant, a bennir drwy ystyried meini prawf penodol. Mae'r statws risg hwn yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau a lefel yr ymyrraeth mewn rheoli'r grant.

Eleni, roedd y blaenoriaethau risg yn cynnwys:

- y risg ariannol, gan gynnwys ystyried twyll allanol a mewnol; datblygwyd ymagwedd gydlynol at ddatgelu ac ymchwilio twyll
- risg gwleidyddol, yn enwedig datblygiad rhaglenni Lloegr a'r Gwledydd, y mae gan bob un ohonynt eu gofynion a'u hamserlenni eu hunain
- risg o ddyfarnu grantiau, gan gynnwys ystyried y canlyniadau, cyflawni targedau a monitro darparwyr gwasanaethau trydydd parti
- risg cyfreithiol a rheoleiddiol, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes
- risg sefydliadol, gan gynnwys integreiddio adferiad yn sgil trychineb ac ymateb i broblemau'n gyflym
- y risg i bobl, yn enwedig colli staff allweddol yn sgil ansicrwydd ynghylch integreiddio; negodwyd set o delerau ac amodau cyffredin gyda'r Undebau Llafur ac adolygwyd y polisïau o ran newid, adleoli a chadw staff
- y risg i enw da, gan gynnwys y posibilrwydd o dderbyn beirniadaeth gyhoeddus o ganlyniad i benderfyniadau ariannu amhoblogaidd
- y risgiau technolegol, yn enwedig rheoli'r broses o drawsnewid rhan o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan gyflenwr allanol yn ôl yn fewnol
- y broses integreiddio; sefydlwyd fframweithiau rheoli i sicrhau y rheolir y broses o integreiddio swyddogaethau'n gywir.

## Adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Gronfa Gymunedol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill. Derbyniais gyngor ynglŷn ag oblygiadau canlyniadau'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol gan Fwrdd y Gronfa Gymunedol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Gweithredwyd cynllun i ymdrin â gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaus y system. Nodir materion arwyddocaol ynghylch rheolaeth fewnol isod.

## Ceisiadau lluosog

Ym mis Medi 2004, nodwyd twyll ceisiadau lluosog mawr a oedd yn effeithio ar nifer o raglenni dyfarnu grantiau'r Gronfa Gymunedol. Yn benodol, ymddengys y targedwyd dyfarniadau Arian i Bawb Lloegr a rhaglenni grant canolig. Mae cynllun Arian i Bawb Lloegr yn Gyd-Gynllun a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol ar ran Dosbarthwyr Loteri eraill. Sefydlwyd ymchwiliad arbennig gan ddefnyddio arbenigedd asiantaethau allanol priodol, gan gynnwys yr Heddlu a'r Comisiwn Elusennau. Rwyf wedi rhoi gwybodaeth i'r holl bartïon sydd â diddordeb yn gyson, gan gynnwys ein Adran nawdd a Swyddogion Cyfrifo Dosbarthwyr y Loteri sy'n cyfrannu at y Cyd-gynllun, am hynt a helynt yr ymchwiliad, y gwendidau rheoli a nodwyd, a'r camau adferol a gymerwyd i wella systemau.

Ar sail y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, gallai cyfran y taliadau afreolaidd a wnaed gan y Gronfa Gymunedol yn ystod 2004/05 fod cymaint â [£xxx,000]. Cyn y flwyddyn ariannol hon, mae'r ymchwiliad wedi nodi taliadau afreolaidd posibl a wnaed ar ran y Gronfa Gymunedol gwerth hyd at [£xxx,000]. Yn ystod y cyfnod y cyflawnwyd y twyll hwn, mae'r Gronfa Gymunedol wedi dyfarnu grantiau gwerth mwy na £1,922 miliwn.

Mae ymchwiliad llawn i'r twyll tybiedig ar y gweill. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad hwn byddaf i, a lle bo'n berthnasol ein partneriaid Arian i Bawb, yn ystyried a yw adenillion yn bosibl ac yn briodol. Yna, caiff unrhyw golledion sy'n weddill eu dileu'n ffurfiol a'u hadrodd i Drysorlys Ei Mawrhydi.

## Rheoli risg

Nododd archwiliad mewnol fod angen mynd i'r afael â nifer o weithredoedd arwyddocaol i sicrhau y gweithredir rheolaeth risg yn llawn a'i mewnosod trwy gydol y sefydliad integredig. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r Archwilwyr Mewnol i sicrhau y datblygir ymagwedd fwy systemataidd a ffurfiol at reoli risg a'i chyflwyno i'r holl staff perthnasol erbyn 31 Mawrth 2006.

## Cydymffurfio

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi cyflwyno gweithdrefnau ym mhob rhan o'r sefydliad i sicrhau bod gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol yn cael eu dilyn. Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn gwirio samplau i sicrhau bod pob swyddfa ac adran yn dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu dogfennu a'u dosbarthu'n briodol.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw Cofrestr o Fuddiannau, sydd ar agor i'r cyhoedd, ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau a phob aelod o staff y Gronfa Gymunedol. Mae proses wedi ei chyflwyno i ddelio ag unrhyw groestyniad buddiannau yng nghyfarfodydd pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae gweithdrefnau'n bodoli i atal unrhyw aelod o staff rhag asesu cais am grant gan fudiad y mae ganddo gysylltiad ag ef.

Ymdriniwyd â cholledion o ran grantiau'r Loteri'n briodol a, lle bo angen, rhoi gwybod i'r Adran amdanynt.

Yn fy marn i, mae'r Gronfa Gymunedol wedi gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion ein Datganiad Rheoli, ein Polisi a'r Cyfarwyddiadau Ariannol.

| | |
|---|---|
| **Stephen Dunmore** | **Sir Clive Booth** |
| Prif Weithredwr a | Cadeirydd |
| Swyddog Cyfrifo | y Gronfa Gymunedol |
| y Gronfa Gymunedol | |

29 Tachwedd 2005

# Adran un ar ddeg

## Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau dŷ'r Senedd a Senedd Yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 73 i 93 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998). Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i addaswyd gan ailbrisio asedau sefydlog penodol a'r polisïau cyfrifo a amlinellir ar dudalennau 76 i 79.

### Priod Gyfrifoldebau'r Gronfa Gymunedol, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalenau 55 a 56, mae'r Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd odani gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi, ac am sicrhau cysondeb y trafodion ariannol. Mae'r Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair a gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel yr archwiliwr annibynnol, drwy statud ac rwyf yn cydymffurfio â'r safonau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r canllawiau moesegol sy'n berthnasol i waith archwilwyr.

Rwy'n mynegi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n gywir un unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd odani, ac a ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm mewn ffordd berthnasol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Gronfa Gymunedol wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwy'n darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg â'r datganiadau ariannol.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 56 i 61 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Gronfa Gymunedol ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Rwy'n adrodd os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r wybodaeth yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o ganlyniad i archwilio'r datganiadau ariannol. Nid wyf wedi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Archwilio ar Reolaeth Fewnol yn edrych ar bob risg a rheolaeth, ac nid yw'n ofynnol i mi eu hystyried. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith fynegi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gronfa Gymunedol na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

## Sylfaen barn yr archwiliad

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i niferoedd, datgeliadau a chysondeb trafodion ariannol sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau a wnaethpwyd gan y Gronfa Gymunedol a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac asesu a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau'r Gronfa Gymunedol, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad i sicrhau'r holl wybodaeth a'r esboniadau yr ystyriais eu bod yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad, neu dwyll neu anghysondeb arall, ac y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm ym mhob ffordd berthnasol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

**1.** Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Gronfa Gymunedol ar 31 Mawrth 2004 ac o'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben a'u bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) a'r cyfarwyddiadau a wnaethpwyd trwy hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon; ac

**2.** mae'r gwariant ac incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ym mhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

| | |
|---|---|
| **John Bourn** | Y Swyddfa Archwilio |
| Rheolwr ac | Genedlaethol |
| Archwilydd | 157-197 Buckingham |
| Cyffredinol | Palace Road |
| | Victoria |
| 2 Rhagfyr 2005 | Llundain SW1W 9SP |

# Adroddiad ar y darganfyddiad o geisiadau grant afreolaidd

## Diben yr Adroddiad

**1.** Yn ei Hadroddiad Blynyddol, adroddodd y Gronfa Gymunedol, sydd bellach yn gweithredu o dan enw'r Gronfa Loteri Fawr, y bu iddi, ym mis Medi 2004, sylwi am y tro cyntaf ar nifer o anghysondebau mewn rhai ceisiadau grant. Cychwynnodd y Gronfa, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau ymchwiliadau helaeth i'r ceisiadau twyllodrus posibl gan sawl gr_p cymunedol, yr oedd rhai ohonynt hefyd wedi'u cofrestru'n elusennau. Lle bu'n briodol, gohiriodd y Gronfa daliadau grant hefyd lle roedd cais wedi'i gymeradwyo ond lle nad oedd yr arian wedi'i dalu eto. Arestiwyd 19 o bobl gan yr heddlu, ac mae'r ymchwiliadau'n parhau i natur a graddfa'r achosion posibl o dwyll.

**2.** Er na phrofwyd eto bod twyll wedi digwydd, mae'r Gronfa'n ystyried bod y taliadau grant dan sylw yn "risg" oherwydd bod anghysondebau yn y ceisiadau (e.e. enwau a chyfeiriadau ffug) ac yn y dogfennau ategol wedi eu canfod, neu oherwydd bod derbynwyr fel arall heb gydymffurfio â gofynion y Gronfa.

**3.** Yn ogystal â'r grantiau a dalwyd sy'n rhan uniongyrchol o ymchwiliad yr heddlu (sy'n cyfrif am rhyw £1.4 miliwn), mae'r Gronfa wedi adolygu pob cais grant ac wedi nodi achosion eraill a allai fod yn gysylltiedig â'r ceisiadau a arweiniodd at yr achos pryder gwreiddiol, neu sy'n amheus am ryw reswm arall. Mae'r Gronfa'n ystyried bod y rhain yn "risg" hefyd.

**4.** Ers hynny, mae'r Gronfa wedi nodi bod gwerth rhyw £1.7miliwn o'r grantiau hyn wedi'u dyfarnu'n gywir, a'r amcangyfrif gorau o gyfanswm gwerth y grantiau sydd nawr yn risg ar draws ei gweithgareddau ers 1999 yw £4.5 miliwn. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r Gronfa wedi talu rhyw £2.5 biliwn i geiswyr grant. O'r grantiau hyn sydd yn risg, mae £770,000 yn ymwneud â grantiau a dalwyd ym mlwyddyn ariannol 2004-05; 0.3% o'r grantiau a dalwyd allan o ryw £253 miliwn. Dadlennodd dosbarthwyr eraill y loteri ar wahân yn eu cyfrifon nhw werth £1.6 miliwn arall o grantiau sy'n risg a ariannwyd ganddyn nhw, a rhoddwyd gwybod i'r Senedd ar 13 Gorffennaf 2005 mewn datganiad ysgrifenedig[1].

## Amodi'r Farn Archwilio

**5.** Wrth lunio fy marn am gyfrifon y Gronfa Gymunedol yn 2004-05, mae'n ofynnol i mi gadarnhau y defnyddiwyd incwm a gwariant y Gronfa, ym mhob ystyriaeth faterol, at y dibenion roedd y Senedd yn eu bwriadu, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu, hynny yw eu bod yn "rheolaidd". Wrth wneud hynny, rwy'n ystyried awdurdodau'r Trysorlys, yn ogystal â chyfarwyddiadau ariannol y Gronfa. O ran y taliadau a wnaeth y Gronfa ar sail ceisiadau twyllodrus posibl, sy'n gyfanswm o £770,000, nid yw'r gwariant hwn yn cyd-fynd â bwriad y Senedd, ac amodwyd fy marn archwilio yn hyn o beth.

**6.** Diben f'adroddiad yw esbonio'r rhesymau dros f'amodi, nodi'r camau a gymerwyd hyd yma a gwneud argymhellion dros dro.

[1] Datganiad ysgrifenedig gan y gweinidog, Hansard 13 Gorffennaf 2005.

## Cefndir

**7.** Mae'r Gronfa Gymunedol yn dosbarthu cyllid loteri i'r sector gwirfoddol ac elusennol drwy nifer o gynlluniau grant, y mae manylion amdanynt i'w gweld yn Nhabl 1. Mae'r rhaglenni grant yn cynnwys rhaglenni strategol, rhyngwladol ac ymchwil, ac maent yn weithredol ar draws y DU gyfan[2].

## Tabl 1: Prif gynlluniau grant a weithredir gan y Gronfa Gymunedol

| Rhaglen | Taliadau grant 2004-05('000au) | Disgrifiad o'r rhaglen |
|---|---|---|
| Arian i Bawb (A4A) £500-£5000 | £13,604 (Dyma gyfraniad y Gronfa Gymunedol at y rhaglen) | Mae'r trefniadau cyllido'n wahanol ar gyfer pob gwlad. Er enghraifft, yn Lloegr, mae Arian i Bawb yn rhaglen ar y cyd a sefydlwyd gyda chyfraniadau oddi wrth ddosbarthwyr eraill y loteri i ddosbarthu nifer fawr o grantiau bach, er mwyn i grwpiau lleol bach allu sefydlu eu gweithgareddau newydd eu hunain neu ehangu ar eu gwaith yn y meysydd a nodwyd gan y Gronfa. Yn 2004-05, talwyd rhyw 12,000 o grantiau. |
| Prif raglen: grantiau dros £5,000 | £203,887 | Asesir ceisiadau grant yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol, a gallant redeg am hyd at dair blynedd ar gyfer prosiectau cyfredol neu brosiectau cyfalaf. |
| Grantiau strategol £60k+ | £18,712 | Mae'r rhaglen hon yn darparu grantiau mawr i grwpiau sy'n gweithio mewn dwy neu fwy o ranbarthau neu wledydd y DU. |
| Grantiau Rhyngwladol £500-£500k | £11,498 | Mae'r prosiect hwn yn ariannu prosiectau sy'n mynd i'r afael ag achosion tlodi ac amddifadedd. Mae'n cefnogi prosiectau tramor a gynhelir gan sefydliadau gwirfoddol sydd wedi'u lleoli yn y DU. |
| Grantiau Ymchwil | £5,728 | Nod y rhaglen hon yw ariannu ymchwil feddygol a chymdeithasol o'r radd flaenaf dan arweiniad y sector gwirfoddol. |
| **Cyfanswm** | **£253,429** | |

[2] Bellach mae'r rhaglenni hyn ar gau i geisiadau wrth i'r Gronfa Loteri Fawr baratoi i lansio rhaglenni newydd.

**8.** Talwyd y mwyafrif llethol o daliadau grantiau y canfuwyd anghysondebau ynddynt o dan raglen Arian i Bawb Lloegr. Ers hynny, gwelwyd bod risg hefyd mewn nifer fechan o ddyfarniadau grant o dan raglenni Arian i Bawb eraill a rhaglenni'r Gronfa Gymunedol. Oherwydd bod maint cyfartalog grantiau ar gyfer yr ail o'r rhain yn fwy, mae'r cyfanswm sydd yn risg hefyd yn fwy.

## Arian i Bawb

**9.** Cynllun grant y loteri y mae'r Gronfa wedi ei dargedu at gymunedau lleol yw'r rhaglen Arian i Bawb. Mae'r Gronfa Gymunedol yn gweithredu rhaglenni tebyg ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er bod y trefniadau cyllido'n wahanol ar gyfer pob gwlad. Y nodau a gyhoeddwyd ar gyfer Arian i Bawb yw:

- ehangu mynediad a chyfranogiad drwy annog mwy o bobl i gymryd rhan weithgar mewn grwpiau a phrosiectau lleol, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n bwriadu bod yn agored ac yn hygyrch i bawb sydd am gymryd rhan
- cynyddu sgiliau a chreadigrwydd drwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu pobl a sefydliadau, annog talent a chodi safonau, a
- gwella safonau byw drwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd pobl, eu lles, eu hamgylchedd neu gyfleusterau lleol, er enghraifft drwy waith gwirfoddol, prosiectau hunangymorth, a phrosiectau neu ddigwyddiadau lleol.

**10.** Mae'r Gronfa Gymunedol yn gweinyddu'r rhaglen Arian i Bawb ar ran consortiwm o ddosbarthwyr y loteri. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Comisiwn y Mileniwm (o 1999 i 2000 yn unig) a Chyngor Celfyddydau Lloegr hefyd yn darparu cyllid i raglen Lloegr. Mae'r Swyddogion Cyfrifo'n rhannu'r cyfrifoldeb dros y rhaglen ac mae pob cyllidwr yn cyfrannu canran gytûn at "bair ar y cyd". Er mai Cyfarwyddwr Rhaglenni'r Gronfa Gymunedol sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun o ddydd i ddydd, mae angen cymeradwyaeth pob Swyddog Cyfrifo i wneud penderfyniadau pwysig am y cynllun, gan gynnwys, er enghraifft, a ddylid dileu taliadau penodol, a all arwain yn anochel at oedi.

**11.** Mae Arian i Bawb yn cynnig grantiau rhwng £500 a £5,000 ac mae wedi tyfu'n gyflym. Ers cychwyn y rhaglen yn 1999, gwnaed dros 83,000 o ddyfarniadau gwerth rhyw £294 miliwn. Yn 2004-05, dyfarnwyd rhyw 12,000 o grantiau, â chyfanswm o £46 miliwn, a chyfran y Gronfa o hyn oedd £13.6 miliwn.

**12.** Ni chaiff y cyllid grant a delir o dan y cynllun Arian i Bawb ei adrodd mewn unrhyw gyfres unigol o ddatganiadau ariannol, yn wahanol i gynlluniau grant eraill. Yn hytrach, adroddir grantiau a dalwyd yng nghyfrifon pob un o'r cyllidwyr ar wahân. Er bod rhesymau da pam y dylid ariannu cynllun grant o ffynonellau amrywiol, er enghraifft i helpu gr_p penodol, byddai fframwaith adrodd unigol yn helpu i sicrhau eglurder wrth gyfrif am yr arian a wariwyd. Mewn rhai achosion, gwneir hyn eisoes. Er enghraifft, mae Sport England yn llunio cyfrif memorandwm ar wahân ar gyfer eu cynllun Spaces for Sports and Arts.

## Lefel y colledion posibl

**13.** Rhybuddiwyd y Gronfa am geisiadau amheus am y tro cyntaf gan aelod gwyliadwrus o staff. Wedi adnabod yr achosion cyntaf a amheuwyd o dwyll, yn ymwneud â cheisiadau lluosog, cynhaliodd y Gronfa ymarfer cloddio data ar ei system cronfa ddata grantiau i nodi pob dyfarniad a thaliad grant posibl a oedd yn gysylltiedig â'r achosion gwreiddiol. O'r ymarfer hwn, mae'r Gronfa wedi adnabod grantiau lle gallai twyll fod yn bresennol. Mae rhai o'r achosion hyn yn cael eu hymchwilio gan yr heddlu, tra bod eraill wedi eu nodi dim ond am fod rhai nodweddion ganddynt yn gyffredin â sefydliad amheus arall. Er mwyn canfod a ddefnyddiwyd y grantiau hyn at y dibenion a fwriadwyd, byddai angen i'r Gronfa ymweld â'r derbynnydd grant i sefydlu a ydynt yn ddilys. Mae'r Gronfa o'r farn efallai nad yw hyn yn ymarferol mewn sawl achos, neu nad dyma'r defnydd gorau o'i hadnoddau, yn enwedig lle bo swm y grant yn llai na £5,000. Mewn rhai achosion, nid yw ymweliad yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd bod ymchwiliad yr heddlu yn dal i fynd rhagddo. Fodd bynnag, lle bo'n ymarferol yn ei barn, mae'r Gronfa wedi cychwyn rhaglen o ymweliadau dilynol, sy'n dal i fynd rhagddi.

**14.** Yn ystod yr ymchwiliad, nodwyd sawl grant amheus arall ym mhrif raglen grantiau'r Gronfa Gymunedol hefyd. Dim ond nifer fach o grantiau sy'n risg, ond oherwydd bod y grantiau hyn yn llawer mwy na'r grantiau Arian i Bawb, mae risg i swm mwy o arian. Mae'r holl grantiau hyn wrthi'n cael eu hymchwilio, ac mae rhai eisoes wedi eu clirio o'r ymchwiliad. Bydd y gweddill yn parhau i gael eu hystyried yn risg nes y bydd ymchwiliadau'r Gronfa wedi'u cwblhau.

**15.** Mae Tabl 2 yn rhoi manylion y grantiau hynny nad oes gan y Swyddog Cyfrifo ddigon o dystiolaeth yn eu cylch am gysondeb y taliadau hyn, ac mae'r tabl yn eu rhannu fesul blwyddyn, a rhwng Arian i Bawb a rhaglenni grant eraill. Y cyfanswm yw uchafswm y golled bosibl. Yn ystod yr un cyfnod, cyfanswm y colledion yw 0.17 y cant o'r grantiau a dalwyd.

## Tabl Dau: Amcangyfrif o'r colledion posibl yn ôl blwyddyn a'r cynllun grant yn erbyn cyfanswm y grantiau a dalwyd

| Cynllun: | Arian i Bawb | | Rhaglenni Grant Eraill | | Cyfanswm | | Cyfanswm y grantiau a dalwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn yn Dod i Ben | Nifer y grantiau | Cyfanswm a dalwyd (£) | Nifer y grantiau | Cyfanswm a dalwyd (£) | Nifer y grantiau | Cyfanswm a dalwyd (£) | Nifer y grantiau | Cyfanswm a dalwyd (£) |
| Cyn 31 Mawrth 2000 | 32 | 82,016 | 10 | 608,287 | 42 | 690,303 | 28,029 | 789,605,805 |
| 31/3/2001 | 37 | 123,082 | 4 | 357,026 | 41 | 480,108 | 15,725 | 380,280,143 |
| 31/3/2002 | 73 | 220,986 | 9 | 506,905 | 82 | 727,891 | 14,715 | 362,235,025 |
| 31/3/2003 | 114 | 177,320 | 8 | 625,254 | 122 | 802,574 | 15,378 | 328,575,065 |
| 31/3/2004 | 211 | 236,615 | 10 | 737,350 | 221 | 973,965 | 13,939 | 290,977,233 |
| 31/3/2005 | 139 | 164,797 | 7 | 604,794 | 146 | 769,591 | 11,261 | 253,428,869 |
| **Cyfanswm** | **606** | **1,004,816** | **48** | **3,439,616** | **654** | **4,444,432** | **99,047** | **2,405,102,140** |

Sylwch:

(1) Datgelwyd cyfanswm o £1.6 miliwn o golledion posibl o dan y cynllun Arian i Bawb ar wahân gan ddosbarthwyr eraill yn eu cyfrifon nhw.

(2) Gall "Cynlluniau grant eraill" gynnwys grantiau sy'n daladwy dros sawl blwyddyn. Dangosir nifer y grantiau yn erbyn y flwyddyn y gwnaed eu taliadau cyntaf.

## Mecanweithiau rheoli presennol

### Arian i Bawb

**16.** Dyluniodd y Gronfa Gymunedol y rhaglen a'r systemau rheoli a sefydlwyd i gefnogi ceisiadau, asesiadau a monitro i gynnig mynediad rhwydd i geiswyr. Eu hamcanion allweddol oedd rhoi'r baich lleiaf posibl ar geiswyr grant, a oedd yn gydnaws â diogelu'r arian cyhoeddus a oedd dan sylw, a sicrhau y gallai'r Gronfa Gymunedol dalu grantiau i geiswyr llwyddiannus mor gyflym â phosibl. Penderfynwyd ar yr ymagwedd hon, a oedd yn hysbys i'r cyllidwyr eraill ac i'r Adran nawdd, er mwyn annog trawstoriad eang o'r sector gwirfoddol a chymunedol, fel grwpiau hunangymorth cymunedol bach, i wneud cais am gyllid grant. Roedd llawer o'r ceiswyr grant llwyddiannus heb gael cyllid grant o'r blaen a gallai eu maint olygu mai dim ond systemau elfennol oedd ganddynt i fonitro ac adrodd.

**17.** Mae grantiau o £500 hyd at £5,000 ar gael, ac amcan y Gronfa yw talu grantiau i geiswyr llwyddiannus cyn pen 6 wythnos ar ôl eu cais. Symleiddiwyd y ffurflen gais am grant gymaint â phosibl, ac roedd yn rhaid i'r ceisydd ac un canolwr ei llofnodi. Os oedd y cais am gyllid yn dod o fewn meini prawf y Gronfa, ac os llenwyd y ffurflen yn gywir fel arall (gan gynnwys llofnodi ymrwymiad y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio fel a ddatganwyd), yna dyfarnwyd cyllid. Y brif rwymedigaeth ar dderbynwyr grant oedd bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r cyllid yn y modd a ddatganwyd ganddynt yn eu cais, ac yna adrodd ar y canlyniadau.

**18.** Sefydlodd y Gronfa ystod o reolaethau i sicrhau y byddai'r grantiau'n cael eu defnyddio fel y bwriadwyd. Yn y cam asesu, roedd hyn yn cynnwys:

- nodi grantiau risg uchel, gan ddefnyddio meini prawf fel profiad blaenorol y ceisydd a pha mor drefnus ydyw
- gofyn am dystiolaeth ddogfennol (er enghraifft, datganiadau banc, cynlluniau cyllideb) i ategu'r cais, a
- dyrannu ceisiadau grant ar hap i swyddogion dyfarniadau, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gyd-dwyllo.

**19.** Defnyddiwyd rheolaethau eraill ar ôl talu'r grant, gan gynnwys gwirio samplau o:

- ofyn i dderbynwyr grant gyflwyno derbynebau ar gyfer rhai pryniannau
- gofyn i ganolwyr gyflwyno adroddiadau am gynnydd prosiectau, a
- derbynwyr grant sy'n cael ymweliad i gael sicrwydd am y grant penodol ac am y fframwaith rheoli.

Roedd cyfran y grantiau a samplwyd fel hyn yn uwch ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn risg uchel, a defnyddiwyd rhai rheolaethau ar gyfer pob grant risg uchel.

**20.** Un rheolaeth allweddol a oedd yn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo bod y taliadau grant yn rheolaidd oedd cael adroddiad "diwedd grant" oddi wrth y derbynnydd am y gweithgaredd a'r modd y defnyddiwyd y grant ganddynt. Nid yw'r adroddiadau hyn yn mynd drwy archwiliad neu fath arall o graffu annibynnol ond dylent fod wedi'u dilysu, er enghraifft, gan ymddiriedolwyr os elusen oedd y buddiolwr.

## Rhaglenni grant eraill

**21.** Caiff rhaglenni grant eraill eu hariannu'n gyfan gwbl gan y Gronfa Gymunedol. Ar gyfer y rhaglenni hyn, telir cyllid mewn rhandaliadau ac mae hyn yn ddibynnol ar wybodaeth a ddarperir i ategu'r angen am daliadau parhaus. Mae hyn yn galluogi'r Gronfa Gymunedol i atal taliadau grant yn hwyrach os na chyflwynir adroddiad blynyddol neu os na fodlonir gofyniad arall. Dyma'r brif reolaeth mae'r Gronfa Gymunedol yn ei defnyddio i ddilyn sut mae'r derbynnydd yn gwario'r grant.

**22.** Mae rheolaethau eraill yn cynnwys:

- gofyn am adroddiad cynnydd bob blwyddyn, ac ar ddiwedd y prosiect
- ymweld â phob grant risg uchel a chyfran sylweddol o brosiectau eraill yn ystod y cyfnod rheoli, yn ogystal ag â phob ail grant i sefydliadau nas ymwelwyd â hwy ar gyfer y grant cyntaf (yn 2004-05 gwnaed rhyw 1,650 o ymweliadau i geiswyr a derbynwyr grant), a
- gofyn am anfonebau ar gyfer pob eitem gyfalaf sydd werth dros £10,000 ac ar gyfer pob cerbyd.

## Diffygion yn y system reoli

**23** Yn Arian i Bawb, lle cafwyd y mwyafrif helaeth o'r ceisiadau lluosog, roedd y risg o dwyll ceisiadau amryfal wedi ei nodi, ond roedd rheolwyr o'r farn mai dim ond mewn achosion unigol roedd twyll yn digwydd yn fwy na thebyg, a phenderfynon nhw fod y rheolaethau'n ddigonol, o ystyried yr angen i gadw'r gofynion gweinyddol mor syml â phosibl ar gyfer grantiau a oedd mor fychan eu gwerth. Ni nodwyd bod bygythiad i'r Gronfa gan weithgarwch troseddol ar raddfa eang.

**24.** Ni ddatgelwyd yr achosion o dwyll a amheuir yn gynt oherwydd nad oedd systemau'r Gronfa'n cynnwys profion digonol i nodi achosion lle roedd mwy nag un cais yn dod i law oddi wrth yr un ceisydd yn ymddwyn yn dwyllodrus. Canlyniad hyn oedd na ddatgelwyd ceisiadau lluosog. Yn ogystal, oherwydd y system reoli a oedd yn ei lle, nid oedd gan y Swyddog Cyfrifo ddigon o dystiolaeth i gadarnhau bod grantiau i nifer sylweddol o achosion cysylltiedig yn rheolaidd.

**25.** Yn 2003, cynhaliodd tîm archwilio mewnol y Gronfa adolygiad o'r rheolaethau a oedd yn eu lle ar gyfer y rhaglen Arian i Bawb, a nododd y risg o dderbyn ceisiadau lluosog, ond ystyriai mai bach a derbyniol oedd y risg yng nghyd-destun y cynllun. Tynnwyd adroddiad crynhoi'r archwiliad mewnol at sylw'r Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r argymhelliad cysylltiedig nad oedd angen gweithredu ar y pryd. Ni chrybwyllwyd yn arbennig y risg penodol o geisiadau lluosog, oherwydd bod y rheolwyr a'r archwilwyr mewnol o'r farn bod y risg yn isel. Mabwysiadodd y rheolwyr yr argymhelliad am adolygiad pellach, ac roedd hyn wrthi'n cael ei gynllunio pan ddarganfuwyd yr achosion o dwyll a amheuir.

**26.** Un darn o dystiolaeth allweddol i sicrhau y gwariwyd grantiau'n gywir yw adroddiad oddi wrth dderbynnydd y grant. Fodd bynnag, nid oedd derbynwyr grant bob tro'n darparu'r wybodaeth hon, er gwaethaf ceisiadau parhaus gan y Gronfa. Nid oedd gan y Gronfa lawer o rym i roi pwysau ar dderbynwyr grant anghydweithredol gan eu bod eisoes wedi derbyn y grant. Gallai'r Gronfa atal ceisiadau grant pellach oddi wrth dderbynwyr nad oeddent yn cydymffurfio, ond fel arall byddai'n barnu fel arfer y cyflawnwyd bwriadau'r grant. Er yr ystyriwyd bod hyn yn fater gweinyddol mewnol, efallai nad oedd y staff yn deall nad oedd gan y Swyddog Cyfrifo unrhyw sicrwydd bod gwariant y Gronfa'n rheolaidd, heb dystiolaeth o'r fath.

**27.** Ar yr un pryd, nid yw'r rheolaethau ategol wedi bod yn ddigon cadarn. Y canlynol yw'r ystyriaethau allweddol:

- cynlluniwyd rheolaethau gan dybio bod ceiswyr yn onest yn y bôn. Roedd ffurflenni cais a thystiolaeth ddogfennol arall, gan gynnwys adroddiadau diwedd grant, yn cynnwys gwybodaeth ffug. Mewn rhai achosion, gallai'r ddogfennaeth ategol y gofynnwyd amdani i wirio cysondeb ceisiadau (e.e. datganiadau banc a chynlluniau cyllideb) fod wedi'u hadolygu'n fwy trylwyr, a gallai hynny fod wedi datgelu ceisiadau amheus yn gynt. Er enghraifft, gallai datganiadau banc, a ddefnyddiwyd i gadarnhau manylion cyfrifon banc, fod wedi cael eu defnyddio hefyd i wirio manylion am dynnu symiau mawr o arian
- roedd y gofyniad am fynediad rhwydd at y rhaglen Arian i Bawb yn golygu mai nod y rheolaethau a ddefnyddiwyd oedd hwyluso ymdrin â cheisiadau'n gyflym a chefnogi'r angen am lai o fiwrocratiaeth ar gyfer grantiau cymharol fach. Roedd gwrthdaro posibl rhwng eisiau talu grantiau'n gyflym a'r profion mwy trylwyr yr oedd eu hangen os aseswyd bod grant yn risg uchel (a oedd yn gwneud ymweliad yn fwy tebygol, er enghraifft). Felly, roedd yn bosibl bod cymhelliant gwrthnysig i beidio â gweithredu'r rheolaethau fel y bwriadwyd, a
- ni ystyriwyd y gallai canfyddiadau archwilio, a dynnodd sylw'r rheolwyr at achosion lle roedd yn ymddangos bod diffygion rheoli mewn gweithdrefnau gweinyddol, fod yn niweidiol i'r system reoli gyfan, ond ystyriwyd eu bod yn achosion unigol, ac arweiniodd hyn at anfon nodiadau atgoffa i staff roi'r gweithdrefnau rheoli ar waith yn gywir.

## Camau a gymerwyd wrth ymateb i nodi achosion posibl o dwyll a gwendidau rheoli

**28.** Mae'r Gronfa wedi adolygu ei systemau dyfarnu grantiau ac wedi rhoi sawl rheolaeth ychwanegol yn ei lle i oresgyn y risg a nodwyd o dwyll ceisiadau lluosog. Ymhlith y camau a gymerwyd mae:

- arfau dadansoddi data gwell a fflagiau i rybuddio staff am geisiadau amheus. Mae'r rhain yn rhybuddio staff am geisiadau amheus, sydd wedyn yn cael eu hymchwilio. Mae'r Gronfa o'r farn bod yr arfau hyn yn rheolaeth effeithiol, sy'n ei gwneud yn debygol iawn y datgelir ymgeisiau eraill o dwyll sy'n debyg i'r rhai a amheuir
- rhestrau gwirio gorfodol diwygiedig i'r holl staff eu dilyn wrth asesu ceisiadau grant
- hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll
- trosglwyddo'r tîm archwilio grantiau i safle sy'n annibynnol ar weithrediadau grant, a chynyddu ei faint o 2 i 8 aelod o staff, a
- chadarnhau gwybodaeth berthnasol o fanciau ceiswyr.

**29.** Sefydlwyd grŵp trawsadrannol hefyd i ystyried goblygiadau twyll a rheolaethau dros grantiau bach. Mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gronfa Loteri Fawr yn aelodau, a'r Trysorlys sy'n arwain y grŵp.

**30.** Mae'r Gronfa Loteri Fawr wrthi'n datblygu systemau newydd o ddyfarnu grantiau ar gyfer ei rhaglenni newydd. Ar ôl datblygu'r systemau newydd, mae'r Gronfa'n bwriadu defnyddio'i harchwilwyr mewnol i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y systemau hyn wrth atal a datgelu twyll.

**31.** O ran y ffeiliau sy'n cael eu hymchwilio gan y Gronfa Gymunedol mewn cysylltiad â'r twyll, mae'r Gronfa'n cynnal asesiad fesul achos a ddylid tynnu'r grant yn ôl. Bydd yn adfer symiau a dalwyd eisoes lle mae asedion i'w hadfer.

## Argymhellion dros dro

**32.** Dim ond ar ôl cwblhau prosesau'r heddlu a'r prosesau cyfreithiol y bydd modd cyhoeddi'r holl wersi sydd i'w dysgu. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi tynnu ar eu profiad o arfer da mewn cynlluniau grant eraill ac yn argymell:

- y dylid ystyried yn fwy penodol y risg o dwyll a allai fodoli mewn rhaglenni y bwriedir gwneud mynediad atynt yn rhwydd, ac i ba raddau y dylid rhoi rheolaethau yn eu lle i atal hyn. Mae angen dealltwriaeth gyffredin bod angen cyfaddawd rhwng mynediad rhwydd a lefel y rheolaeth y gellir ei gweithredu. Dylid adolygu rheolaethau er mwyn targedu'r data a'r sicrwydd allweddol (gan gynnwys rheoleidd-dra) y mae eu hangen ar y Swyddog Cyfrifo i gynnal ei d/dyletswyddau. Rwy'n croesawu sefydlu grŵp trawsadrannol gan y Trysorlys i ystyried y mater hwn
- bod yn rhaid ystyried unrhyw fethiannau a ddarganfyddir mewn rheolaeth fewnol yn ofalus, rhag ofn eu bod yn tynnu sylw at ddiffyg a allai fod yn y system, yn hytrach nag yn achos unigol o fethiant
- y dylai'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r broses o ddwyn risgiau a nodir gan archwilwyr mewnol at eu sylw, a sicrhau nad yw crynhoi adroddiadau Archwiliadau Mewnol yn arwain at hepgor canfyddiadau arwyddocaol archwiliadau o'u trosolwg. Ym mhob achos, mae angen i adroddiadau archwilio llawn fod ar gael i aelodau'r Pwyllgor Archwilio, ac mae angen iddynt hwythau fod yn fodlon bod y crynodebau a lunnir yn gywir ac yn bodloni eu hanghenion.

Gan edrych heibio hyn at faterion ehangach, yn eu rôl fel adran noddi:

- dylai'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried a ddylai atebolrwydd dros gyd-raglenni grant fod yn fwy eglur. Er enghraifft, dylai'r Adran benodi prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer cynlluniau grant sylweddol, a all wneud pob penderfyniad sy'n berthnasol i'r cynllun, yn hytrach na'r hyn a arferir yn achos Arian i Bawb, lle rhennir atebolrwydd o hyd, a
- oherwydd bod anghysondeb yn y modd yr adroddir rhaglenni grant unigol yng nghyfrifon blynyddol dosbarthwyr y loteri, y dylai'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried, ar y cyd â'r Dosbarthwyr, a ddylid adrodd pob cydraglen debyg ar wahân yn hytrach na phob dosbarthwr yn adrodd ei gyfran o'r grantiau a delir, fel yn achos Arian i Bawb.

| | |
|---|---|
| **John Bourn** | Y Swyddfa Archwilio |
| Rheolwr ac | Genedlaethol |
| Archwilydd | 157-197 Buckingham |
| Cyffredinol | Palace Road |
| | Victoria |
| 2 Rhagfyr 2005 | Llundain SW1W 9SP |

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Elw o'r Loteri Genedlaethol | 11 | 226,074 | 216,474 |
| Incwm buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 5,927 | 8,505 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) ar golled o ailbrisio'r buddsoddiad | | 1,990 | (1,098) |
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | | 508 | 369 |
| Adfer grant | | 3,364 | 2,607 |
| Incwm arall | | 5,698 | 5,047 |
| **Cyfanswm incwm** | | **243,561** | **231,904** |
| **Gwariant grant** | | | |
| **Wrth gefnogi mentrau** | | | |
| Yr ymrwymiadau grant a wnaed | 14 | 199,321 | 272,294 |
| Llai ymrwymiadau di-rym neu ddiddymedig | 14 | (17,090) | (14,648) |
| | | 182,231 | 257,646 |
| **Costau gweinyddu** | | | |
| Costau cyflog y gweithwyr | 2 | 16,431 | 17,495 |
| Costau cyflog aelodau'r bwrdd | 3 | 142 | 113 |
| Costau gweithredu eraill | 4 | 12,062 | 9,858 |
| Costau uno | 6 | 2,534 | |
| Dibrisiant | 9 | 654 | 967 |
| | 5 | 31,823 | 28,433 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **214,054** | **286,079** |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn trethiant** | | **29,507** | **(54,175)** |
| Trethiant | 8 | (125) | (81) |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y cyfnod** | | **29,382** | **(54,256)** |
| **Diffyg a gadwyd** | | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 | | (177,322) | (123,066) |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y cyfnod | | 29,382 | (54,256) |
| **Diffyg a gadwyd ar 31 Mawrth 2005** | | **(147,940)** | **(177,322)** |

Nid oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw enillion na chollediion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir uchod, ac o ganlyniad i hynny ni chyflwynwyd datganiad ar wahân o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Nid oes unrhyw weithgareddau y rhoddwyd terfyn arnynt.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 93 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 9 | 664 | 1,258 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau | 10 | 3,221 | 4,045 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | 9,866 | 6,458 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 174,460 | 213,250 |
| | | 187,547 | 223,753 |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 12 | (6,023) | (1,841) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 14 | (169,049) | (235,524) |
| | | (175,072) | (237,365) |
| **Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net** | | 12,475 | (13,612) |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 13,139 | (12,354) |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | | | |
| Credydwyr | 12 | (183) | (286) |
| Grantiau a ymrwymwyd i'w talu | 14 | (159,612) | (164,336) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau** | 13 | (1,284) | (346) |
| **Cyfanswm net (rhwymedigaethau)** | | **(147,940)** | **(177,322)** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | |
| **Incwm a gadwyd** | | **(147,940)** | **(177,322)** |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Gymunedol.

**Stephen Dunmore**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Gronfa Gymunedol

29 Tachwedd 2005

**Syr Clive Booth**
Cadeirydd y Gronfa Gymunedol

29 Tachwedd 2005

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 93 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian hyd at 31 Mawrth 2005

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 272,781 | 310,182 |
| Incwm arall | | 4,974 | 4,138 |
| Adfer grantiau ac arian parod o ffynonellau eraill | | 3,364 | 2,607 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (8,412) | (10,212) |
| Taliadau i ac ar ran y gweithwyr | | (16,128) | (16,024) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (253,430) | (290,977) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | 17 | 3,149 | (286) |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog banc a dderbyniwyd | | 508 | 369 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol | | (169) | (448) |
| **Trethiant** | | | |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (80) | (89) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | 3,408 | (454) |
| **Newid mewn cyllid o ganlyniad i'r llif arian** | | | |
| Arian parod fel ar 31 Mawrth 2005 | | 9,866 | 6,458 |
| Llai arian parod ar 1 Ebrill 2004 | | (6,458) | (6,912) |
| **Symudiad** | | 3,408 | (454) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 93 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 Datganiad o'r polisïau cyfrifo

### 1.1 Arferion cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan yr arferion cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisiad asedau sefydlog, yn ôl eu gwerth i'r busnes, drwy gyfeirio at eu cost gyfredol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 43D(2) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).*

Er bod Cyfarwyddiadau Cyfrifon y Gronfa Gymunedol yn ei wneud yn ofynnol cynnwys Asedau Sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar gyfer 2004/05 nid yw'r Gronfa Gymunedol yn credu bod y gwerthoedd hyn yn sylfaenol wahanol i'r costau hanesyddol a ddangosir ar y Fantolen. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y maent yn briodol.

* Mae copi o'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 10 Mehefin 2002 ar gael drwy wneud cais ysgrifenedig amdanynt i'r Gronfa Gymunedol, I Plough Place, Llundain EC4A 1DE

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Lluniwyd yr ymrwymiadau grant ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod ar ôl ystyried anghenion ariannol derbynwyr y grantiau (gall y rhain ymestyn dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth gymryd y safbwynt hwn ynglŷn ag incwm y dyfodol, mae'r Bwrdd yn tybio, fel mater o bolisi cyhoeddus, y bydd y Loteri'n parhau i weithredu ac y bydd canran y Gronfa Gymunedol o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cael ei chynnal, fel a nodir yn adrannau 21 i 23 o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r gweddillion a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDdLG) yn aros o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y gweddillion hyn sydd i'w phriodoli i'r Gronfa Gymunedol yn cyd-fynd â'r hynny a ddangosir yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Fantolen, fe'i ardystiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa Gymunedol mewn perthynas â'i hymrwymiadau presennol a'i hymrwymiadau yn y dyfodol.

Nod y Gronfa Gymunedol yw cadw'r gweddillion yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar lefel gall a fydd yn uchafu'r symiau a ddosberthir fel grantiau, cyhyd ag y bydd y Gronfa Gymunedol yn parhau i dderbyn sicrwydd digonol na fydd hyn yn amharu ar yr ymrwymiadau presennol nac yn cyfyngu'n afresymol ar ei gallu i wneud ymrwymiadau yn y dyfodol.

O 2005/06 ymlaen, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cytuno mai targed hirdymor Cronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol fydd cadw gweddillion o fewn amrediad o dri i chwe mis o incwm blynyddol. Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r ansicrwydd o ddarogan incwm yn ystod y tair blynedd nesaf, ystyrir mai dyma'r lefel gall isaf er mwyn i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol sicrhau y gellir bodloni ei hymrwymiadau. Mae'r targedau ar gyfer y tair blynedd fel a ganlyn:

- erbyn 31 Mawrth 2005 a gweddill o £115 miliwn yn CDdLG
- erbyn 31 Mawrth 2006 a gweddill o £140 miliwn yn CDdLG
- erbyn 31 Mawrth 2007 a gweddill o £155 miliwn yn CDdLG.

Seilir y targedau hyn ar ragolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran, ac maent yn caniatáu ar gyfer effaith y Loteri Olympaidd arfaethedig ac yn adlewyrchu'r gwariant ar y Cyfeiriadau Polisi presennol a Chyfeiriadau Polisi disgwyliedig.

## 1.4 Asedau sefydlog

Caiff asedau sefydlog eu troi'n gyfalaf yn y Fantolen yn unol â gwerth eu cost hanesyddol yn hytrach na thrwy gyfeirio at gostau cyfredol, gan na ystyrir bod y rhain yn sylfaenol wahanol. Caiff eitemau sy'n costio llai na £2,000 eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y cânt eu prynu. Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn troi costau datblygu meddalwedd yn gyfalaf.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu pris yr asedau ar sail linol syth dros gyfnod amcangyfrifedig eu hoesau buddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Darnau gosod a ffitiadau | Yr isaf o bedair blynedd neu'r oes sy'n weddill o'r brydles, lle bo hynny'n briodol |
| Offer swyddfa | Pedair blynedd |
| Offer TG | Tair blynedd |

## 1.5 Cronfa bensiwn

Caiff gweithwyr eu sicrhau gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS), sef cynllun budd-dâl diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu. Er bod y Cynllun yn gynllun budd-dâl diffiniedig, cyfrifoldeb y PGPGS yw talu'r budd-daliadau yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu tâl am bob gweithiwr, a gyfrifir ar sail gronnol. Darperir y budd-daliadau pensiwn drwy gyfrwng y PGPGS. O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall y staff sy'n aelodau o'r cynllun fod yn perthyn i un o dri chynllun budd-dâl diffiniedig statudol yn seiliedig ar 'gyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol plws). Ar ôl 1 Hydref 2002, gall aelodau newydd ddewis rhwng ymaelodi â'r cynllun premiwm neu gallant ymuno â threfniant 'prynu arian' safonol yn seiliedig ar fod yn rhanddeiliad, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Gellir dod o hyd i'r gwahaniaethau rhwng y cynlluniau yng ngwefan www.civilservice-pensions.gov.uk.

# Nodiadau i'r cyfrifon

I nifer fach o staff, mae'r Gronfa Gymunedol yn cyfrannu 15 y cant o'u cyflog mewn perthynas â chynllun pensiwn preifat neu bersonol o'u dewis hwy. O 1996/97 ymlaen, ar ôl cael cyngor gan y Trysorlys, cafodd y gyfradd gyfrannu ar gyfer cynlluniau pensiwn personol newydd ei gostwng i dri y cant.

## 1.6 Prydlesi gweithredu

Caiff costau prydlesi gweithredu sydd gan y Gronfa Gymunedol eu talu o'r Cyfrif Incwm a Gwariant, ar sail linol, yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir manteision y cyfnodau di-rent ar yr holl lesddaliadau newydd a sefydlir ar sail linol dros y cyfnod tan yr adolygiad rent cyntaf.

## 1.7 Ymrwymiadau grant

## Cynigion ac ymrwymiadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn datgan bod angen gwahaniaethu rhwng ymrwymiadau meddal ac ymrwymiadau caled.

Diffinnir ymrwymiad caled fel swm y grant sy'n daladwy yn ystod oes cynllun y mae gan y Gronfa Gymunedol gytundeb ysgrifenedig â'r ymgeisydd yn ei gylch. Telir yr ymrwymiadau caled o'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn y llofnodir y contractau. Dangosir yr ymrwymiad caled ar y Fantolen fel credydwr, gyda'r balans yn cael ei leihau wrth i daliadau i dderbynwyr grantiau gael eu rhyddhau.

Diffinnir ymrwymiadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Gymunedol i ariannu cynllun, a chynnig grant a wnaed i'r ymgeisydd ac y mae'r ymgeisydd heb ei dderbyn yn ffurfiol hyd yn hyn. Caiff y rhain eu dangos fel nodyn yn y cyfrifon, ond nid ydynt yn cael eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

## Grantiau a ad-delir ac a adenillir

Mae amodau grantiau'r Gronfa Gymunedol yn caniatáu adennill neu ad-dalu'r grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan nad yw deiliad y grant yn cydymffurfio â'r amodau a'r telerau, neu pan fydd y gwariant gwirioneddol gan dderbyniwr grant yn gostwng yn is na'r grant a dalwyd ar sail amcangyfrif o'r costau.

## Trosglwyddiadau grant

Rhaid trosglwyddo grantiau pan fydd derbynwyr presennol grantiau'n newid eu cyfansoddiad yn ystod y flwyddyn. Gan fod y sefydliad newydd yn endid cyfreithiol newydd, rhaid diddymu'r hen grant a gwneud cais am grant newydd a'i ddyfarnu.

## 1.8 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa Gymunedol yn geidwad ar asedau penodol sy'n berchen i drydydd partïon. Mae'r asedau hyn yn cynrychioli mantolenni banc o £3.5 miliwn a gedwir ar ran Dosbarthwyr Loteri eraill i ariannu dyfarniadau a wneir o dan gynlluniau Arian i Bawb a rhaglen grant Cofio'r Ffrynt Cartref, a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol. Ni chydnabyddir y rhain yn y cyfrifon gan nad oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw ddiddordeb buddiannol uniongyrchol ynddynt.

## 1.9 Rheoli grantiau – cyd-gynlluniau

Pan fydd y Gronfa Gymunedol wedi ymuno â chynllun ar y cyd, fel y'u diffinnir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir am yr ymrwymiadau caled a wneir drwy'r cyd-gynllun ar sail cyfran y Gronfa Gymunedol yn y cynllun. Caiff y costau gweinyddu eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn ôl y cyfanswm a wariwyd gan y Gronfa Gymunedol.

## 1.10 Dyrannu incwm a chostau

Dyrennir yr incwm a'r costau a godir gan y Gronfa Loteri Fawr rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Dyrennir incwm a chostau sydd i'w priodoli i Gronfa benodol yn uniongyrchol. Dosrennir costau ar y cyd i bob Cronfa ar sail methodoleg ddyrannu briodol, er enghraifft, ar sail cyfran incwm neu nifer y staff.

## 1.11 Cost dybiannol y cyfalaf

O 1 Ebrill 2002 ymlaen, dileodd Trysorfa Ei Mawrhydi'r angen i gyfrifo cost dybiannol y cyfalaf ar yr asedau a ariennir gan y Loteri.

## 2 Nifer a chostau'r staff

Roedd costau gweithwyr cyflogedig, ac eithrio aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 13,037 | 13,728 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,013 | 1,079 |
| Costau pensiwn | 1,592 | 1,737 |
| Staff asiantaeth | 789 | 951 |
| | 16,431 | 17,495 |

Yng nghyfrifon blynyddol 2003/04, datgelwyd staff asiantaeth fel rhan o gostau gweithredu eraill. Diwygiwyd y ffigyrau cymharol i adlewyrchu'r ffaith y cafodd y costau hyn eu cynnwys fel costau staff.

Caiff adenillion o £62,403 sy'n cynrychioli staff a secondiwyd allan i sefydliadau eraill eu cynnwys yn yr incwm arall.

Roedd cyfartaledd nifer y gweithwyr (ac eithrio'r staff dros dro) a oedd yn gweithio i'r Gronfa Gymunedol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 Cyfartaledd nifer y gweithwyr | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 Cyfartaledd nifer y gweithwyr |
|---|---|---|
| Cynllunio a Pherfformiad | 20 | 19 |
| Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol | 44 | 59 |
| Polisi a Chysylltiadau Allanol | 20 | 20 |
| Gweithrediadau | 283 | 269 |
| Swyddfeydd y gwledydd | 64 | 64 |
| Dosbarthwyr eraill * | 104 | 87 |
| | 535 | 518 |

*Mae'r Gronfa Gymunedol yn cyflogi staff i brosesu ceisiadau a rheoli grantiau ar ran dosbarthwyr eraill y Loteri o dan y cynlluniau Arian i Bawb, cynlluniau Cofio'r Ffrynt Cartref a'r rhaglen Gofal Plant y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

# Nodiadau i'r cyfrifon

Roedd hawl uwch-reolwyr y Gronfa Gymunedol i gyflogau a phensiwn fel a ganlyn:

| *Dangosir figyrau cymharol 2004 mewn cromfachau.* | Cyflog, gan gynnwys bonws perfformiad ar 31 Mawrth 2005 | Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 | Cyfanswm y pensiwn cronnol yn 60 ar 31 Mawrth 2005 | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) ar 31 Mawrth 2005 (neu'r dyddiad ymadael) | Gwir gynnydd yn GTCAP ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau yn ffactorau buddsoddi y farchnad |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stephen Dunmore (Prif Weithredwr) o 1 Rhagfyr 2003 | 60-70[1] (19) | 0 | 0 | 0 (0) | 0 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) o 14 Mehefin 2004 | Cynhwysir yng nghyfrifon y Gronfa Cyfleoedd Newydd | | | | |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Cymru) o 29 Mawrth 2004 | Cynhwysir yng nghyfrifon y Gronfa Cyfleoedd Newydd | | | | |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr yr Alban) o 28 Awst 2004 | 45-50 | 0 | 0 | 4 | 2 |
| Adrienne Kelbie (Cyfarwyddwr, yr Alban tan 9 Mai 2004, Cyfarwyddwr Gweithrediadau) | 90-95 (80 –85) | 2.5-5.0 7.5-10.0 cyfandaliad hefyd | 10-15 30-35 cyfandaliad hefyd | 98 (65) | 28 |
| Gerald Oppenheim (Cyfarwyddwr, Cynllunio a Pherfformiad) | 90-95 (85 – 90) | 0-2.5 2.5-5.0 cyfandaliad hefyd | 30-35 95-97.5 cyfandaliad hefyd | 511 (467) | 15 |
| Vanessa Potter (Cyfarwyddwr, Polisi a Chysylltiadau Allanol) o 1 Ionawr 2004 | Cynhwysir yng nghyfrifon y Gronfa Cyfleoedd Newydd | | | | |
| Walter Rader (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) o 1 Rhagfyr 2003 | Cynhwysir yng nghyfrifon y Gronfa Cyfleoedd Newydd | | | | |

[1] O Ragfyr 1 2003 ymlaen mae cyflog y Prif Weithredwr yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd yn cadw ei fuddianau pensiwn drwy ei gytundeb Cronfa Cyfleoedd Newydd.

Penodwyd y Prif Weithredwr presennol ar 1 Rhagfyr 2003 i fod yn Brif Weithredwr y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Gyfleoedd Newydd ar y cyd. Datgelir ei gyflog, gan gynnwys ei holl hawliau pensiwn, ar gyfer y rhan o'i gontract gwasanaeth sy'n ymwneud â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw. Daw cytundeb y Prif Weithredwr i ben y diwrnod ar ôl i'r Gronfa Loteri Fawr gael ei chreu mewn cyfraith a phenodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Prif Weithredwr yn dod o dan delerau ac amodau cyflogaeth safonol y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Cyfarwyddwyr i Uwch Dîm Rheoli'r Gronfa Loteri Fawr, tîm cyd-reoli'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Mae'r Cyfarwyddwyr a gyflogir gan y Gronfa Gymunedol ar gontractau gwaith parhaol, sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gyfleoedd Newydd ac sy'n dod o dan delerau ac amodau gwaith safonol y Gronfa Gymunedol.

Cyflogir y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cymru, y Cyfarwyddwr Polisi a Chysylltiadau Allanol a Chyfarwyddwr Gogledd Iwerddon gan y Gronfa Gyfleoedd Newydd ar gytundebau sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa Gymunedol. Datgelir eu cyflog yng nghyfrifon y sefydliad hwnnw.

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy gyfrwng Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Datgelir mwy am bensiynau yn Nodyn 20. Dengys Colofn 4 y tabl uchod werth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yr aelodau, a gronnwyd ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae Colofn 5 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y GTCAP a gyllidwyd yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, y cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

GTCAP yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol wedi'u hasesu'n actiwaraidd. Y buddion a brisir yw buddion cronnol yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sy'n daladwy o'r cynllun i briod. Mae'r GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fydd aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn yr hen gynllun. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch lle mae datgelu'n gymwys iddo yn unig. Mae ffigyrau'r GTCAP, a'r manylion pensiwn eraill o 2003/04, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i'r trefniadau PGS ac y mae'r Bleidlais CS wedi derbyn taliad trosglwyddo amdano sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gymerir. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTCAPau yn unol â chanllawiau a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 3 Gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd

Mae Cadeirydd Bwrdd y Gronfa Gymunedol yn benodiad dros dro, deuddydd yr wythnos. Rhoddodd Diana Brittan y gorau i'w swydd fel Cadeirydd y Gronfa Gymunedol ddydd Gwener 31 Mai 2004. Mae cyflog y Foneddiges Brittan yn cynnwys tâl yn lle rhybudd diswyddo. O 1 Mehefin 2004, daeth Syr Clive Booth yn Gadeirydd ar y Gronfa Loteri Fawr.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £ |
|---|---|---|
| Diana Brittan tan 31 May 2004 | 33,064 | 30,699 |
| Syr Clive Booth o 1 Mehefin 2004 | 20,319 | – |

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am dair blynedd, i gychwyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol holl aelodau'r Bwrdd i aros yn eu swyddi tan y penodwyd Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 1 Mehefin 2004. Mewn rhai achosion, aeth hyn â hwy y tu hwnt i'w cyfnod presennol yn eu swyddi.

Mae gan holl aelodau'r Bwrdd yr hawl i dderbyn taliad am y cyfnod a dreulir ar weithgareddau'r Gronfa Gymunedol. Mae'n rhaid i 50 y cant o amser aelodau'r Bwrdd a benodir i'r Gronfa Loteri Fawr gael ei dreulio ar weithgareddau'r Gronfa Gymunedol. Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau hyn, y mae aelodau'r Bwrdd yn gallu hawlio ffi cyfradd ddyddiol o £198 amdanynt (2003/04 £194), yn cynnwys cyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa Gymunedol. Ni dderbyniodd unrhyw aelodau'r Bwrdd gyfraniadau at eu pensiynau. Cyfanswm yr enillion a dalwyd i aelodau'r Bwrdd tan 31 Mawrth 2005 oedd £88,821 (2003/04 £82,505), a ddadansoddir fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben a 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Elaine Appelbee tan 31 Mai 2004 | 0.4 | 2.5 |
| Steven Burkeman tan 31 Mai 2004 | 1.5 | – |
| Dr Samuel Burnside o 15 Mehefin 2004 | 4.6 | – |
| David Campbell o 1 Mehefin 2004 | 3.6 | – |
| Jeff Carroll tan 31 Mai 2004 | 2.0 | 9.5 |
| Paul Cavanagh | 3.0 | 3.2 |
| Tom Davies o 15 Mehefin 2004 | 2.8 | – |
| Roland Doven o 1 Mehefin 2004 | 1.6 | – |
| Yr Athro Briedge Gadd o 15 Mehefin 2004 | 3.6 | – |
| John Gartside o 1 Mehefin 2004 | 1.7 | – |
| Douglas Graham | 7.2 | – |
| Kay Hampton tan 31 Mai 2004 | 1.6 | 9.5 |
| Taha Idris | 4.5 | 4.0 |
| Yr Athro James Kearney tan 31 Mai 2004 | 3.1 | 9.5 |
| Dugald Mackie o 1 Mehefin 2004 | 2.4 | – |
| Sheila Jane Malley tan 31 Mai 2004 | 3.6 | 4.8 |
| Richard Martineau tan 31 Mai 2004 | 4.7 | 10.2 |
| John Naylor o 1 Mehefin 2004 | 4.6 | – |
| Esther O'Callaghan o 1 Mehefin 2004 | 1.9 | – |
| Anna Southall o 1 Mehefin 2004 | 1.4 | – |
| Y Fonesig Valerie Strachan (Dirprwy Gadeirydd) | 11.0 | 18.5 |
| Carol Tongue tan 31 Mai 2004 | 1.0 | 4.0 |
| Huw Vaughan Thomas o 15 Mehefin 2004 | 1.8 | – |
| Elisabeth Watkins tan 31 Mai 2004 | – | – |
| Benjamin Whitaker tan 31 Mai 2004 | 3.7 | 5.8 |
| Diana Whitworth o 1 Mehefin 2004 | 3.1 | – |
| Lorne MacLeod tan 31 Mawrth 2003 | – | 0.2 |
| James Strachan tan 31 Mawrth 2003 | – | 0.8 |

Mae'r Gronfa Gymunedol yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd ac yn talu'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

## 4 Costau gweithredu eraill

Ymhlith y costau gweithredu eraill ceir:

| | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Teithio a threuliau** | | | | |
| Staff | 688 | | 861 | |
| Aelodau'r Bwrdd | 78 | 766 | 70 | 931 |
| Tâl yr archwilwyr | | 43 | | 41 |
| Taliadau'r brydles weithredu – eiddo | | 1,521 | | 1,286 |
| Costau eraill | | 9,732 | | 7,600 |
| | | 12,062 | | 9,858 |

## 5 Cyfanswm y costau gweithredu

Dadansoddiad o'r gwariant gweithredu:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2005 £'000 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2004 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| Dyfarnu grantiau'n effeithiol | 25,313 | 79% | 22,664 | 80% |
| Rheoli a gweinyddu | 5,305 | 17% | 4,382 | 15% |
| Cefnogi'r sector gwirfoddol | 1,205 | 4% | 1,387 | 5% |
| Cyfanswm y gwariant gweinyddol | 31,823 | 100% | 28,433 | 100% |

**Dyfarnu grantiau'n effeithiol** yw'r gwaith sydd ei angen i reoli rhaglenni grant y Gronfa Gymunedol a'r prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys costau'r swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol, asesu ceisiadau, adolygu meysydd a blaenoriaethau rhaglenni, rheoli a monitro dyfarniadau, y pwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol a'r systemau TG y mae eu hangen i gynorthwyo wrth roi grantiau.

**Trefn lywodraethol a gweinyddu** yw'r gwaith sydd ei angen i redeg y Gronfa Gymunedol fel endid cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys costau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau nad ydynt yn dyfarnu grantiau, swyddfa'r Prif Weithredwr, y gwaith archwilio mewnol a rhai o agweddau'r adrannau gwasanaethau corfforaethol.

Mae **cefnogi'r sector gwirfoddol** yn cynnwys gwaith y mentrau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol sydd â'r nod o ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng deiliaid y grantiau sy'n gweithio mewn meysydd penodol, a chynyddu effaith y Gronfa Gymunedol mewn dulliau fel cyfran deg neu allgymorth, a gwaith y swyddogion datblygu

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 6 Cost uno

Ymhlith y costau uno y mae:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 |
|---|---|
| Ymgynghori | 277 |
| Newidiadau TG | 11 |
| Taliadau terfynu cyflogaeth | 1,282 |
| Ffioedd proffesiynol | 45 |
| Costau Eiddo | 883 |
| Arall | 36 |
| | 2,534 |

## 7 Dangosydd perfformiad ariannol

Nod y Gronfa Gymunedol yw cadw'r costau gweithredu islaw 10 y cant o'r incwm. Cyfrifir y dangosydd hwn ar sail net h.y. heb gynnwys incwm a chostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau y codir tâl ar ddosbarthwyr eraill amdanynt ar gyfradd cost lawn. Parheir i gyrraedd y targed hwn yn ystod hyd oes y Gronfa Gymunedol; mae'r costau gweithredu net yn 7.5 y cant o'r incwm (2003/04 7.3 y cant). Y rheswm am y cynnydd yn y dangosydd hwn yw'r costau uno. Yn y gorffennol, mae'r Gronfa Gymunedol hefyd wedi ystyried costau gweithredu net fel y cant o'r incwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Gan ddefnyddio'r sylfaen hon, y dangosydd perfformiad ariannol yw 11.0 y cant (2003/04 10.0 y cant).

## 8 Treth gorfforaeth

Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu treth gorfforaeth ar log banc a dderbyniwyd ar gyfradd effeithiol o 22 y cant (22 y cant y flwyddyn flaenorol). Y dreth sy'n daladwy yw £125,206 (£80,752 y flwyddyn flaenorol. Nid yw'r arian a gedwir ac a fuddsoddir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Gymunedol yn drethadwy.

## 9 Asedau sefydlog diriaethol

| | Offer swyddfa £'000 | Offer cyfrifiadurol £'000 | Darnau gosod a ffitiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Fel cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 426 | 956 | 5,199 | 6,581 |
| Ychwanegiadau | 4 | 39 | 126 | 169 |
| Gwerthiant | - | – | (3,246) | (3,246) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 430 | 995 | 2,079 | 3,504 |
| **Dibrisiant cyfredol** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2004 | 367 | 788 | 4,168 | 5,323 |
| Cost am y flwyddyn | 46 | 106 | 502 | 654 |
| Gwerthiant | – | – | (3,137) | (3,137) |
| **Ar 31 Mawrth 2005** | 413 | 894 | 1,533 | 2,840 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2005 | 17 | 101 | 546 | 664 |
| Ar 31 Mawrth 2004 | 59 | 168 | 1,031 | 1,258 |

## 10 Dyledwyr a rhagdaliadau

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr | 604 | 774 |
| Rhagdaliadau | 2,005 | 546 |
| Incwm 'a gafwyd' | 612 | 2,725 |
| | 3,221 | 4,045 |

Mae'r balansau canlynol sy'n daladwy gan gyrff Llywodraethol eraill wedi eu cynnwys yn y cyfrifon uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yn ddyledus gan gyrff Llywodraethol eraill | 2,040 | 2,507 |
| Cyfanswm yn ddyledus gan Awdurdodau Lleol | 67 | 85 |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 11 Balans a gadwyd gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Y gost ar 1 Ebrill 2004** | 214,348 | |
| Wedi'w gymhwyso ar gyfer colledion na'i sylweddolwyd a ddygwyd ymlaen | 1,550 | |
| **Cost ar 31 Mawrth 2004 ailddatgan** | | 215,898 |
| Dosbarthiad gan y Loteri Genedlaethol | 226,074 | |
| Incwm buddsoddi a enillwyd | 5,927 | |
| Arian a dynnwyd i lawr | (272,781) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (40,780) |
| **Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad** | | 175,118 |
| Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad | | (658) |
| **Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2005** | | 174,460 |

Ar 31 Mawrth 2005, gwerth mantol y Gronfa Gymunedol, a gedwir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar y farchnad oedd £174,459,663 (2003/04 £213,249,970).

Rheolir yr arian a gedwir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol gan y Comisiynwyr ar gyfer gostwng y ddyled genedlaethol (a elwid yn Gomisiynwyr y Ddyled Genedlaethol gynt). Derbyniodd y Gronfa Gymunedol 16.7 y cant o'r arian a dalwyd gan grŵp Camelot Ccc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl tynnu'r costau sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol ar gyfer costau Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth ymarfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, costau'r rheoleiddiwr (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) a chostau'r buddsoddwr (Comisiynwyr ar gyfer gostwng y ddyled genedlaethol). Caiff cyfrif buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ei ailbrisio cyn bob trafodyn ariannol, boed yn dderbyniad neu'n tynnu arian i lawr, gyda'r llog yn cael ei ddosrannu yn unol â fformiwla sy'n seiliedig ar y balans sydd gan y corff fel cymhareb o gyfanswm y balans.

## 12 Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 716 | 486 |
| Credydwyr eraill | 453 | 627 |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd | 3,601 | – |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 1,128 | 648 |
| Treth gorfforaeth | 125 | 80 |
| | 6,023 | 1,841 |

Mae'r balansau canlynol sy'n daladwy gan gyrff Llywodraethol eraill wedi eu cynnwys yn y cyfrifon uchod:

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yn ddyledus gan gyrff Llywodraethol eraill | 3,653 | 80 |
| Cyfanswm yn ddyledus gan Awdurdodau Lleol | 276 | 87 |

## Credydwyr: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 183 | 286 |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

| | Taliadau prydles na ellir eu hosgoi £'000 | Cyfraniadau ymddeoliad cynnar £'000 | Darpariaethau colli swydd £'000 | Cyfanswm y provisions ddarpariaeth £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2004 | 298 | 48 | – | 346 |
| Codwyd o'r gwariant yn ystod y flwyddyn | 385 | 460 | 456 | 1,301 |
| Taliadau a wnaed | (298) | (65) | (–) | (363) |
| Cariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2005 | 385 | 443 | 456 | 1,284 |

Yn ystod y flwyddyn ariannol gadawodd y Gronfa Gymunedol ei heiddo Highlander House yng Nglasgow a'i heiddo Vauxhall yn Llundain, a chymerwyd y penderfyniad hefyd i symud o Baron House, Newcastle. Ar bob un o'r safleoedd hyn, mae'r brydles yn ei wneud yn ofynnol i'r Gronfa Gymunedol gywiro dadfeiliadau. Mae darpariaeth 2004/05 yn cynrychioli dadfeiliadau a chostau prydles anorfod yn y safleoedd hyn. Yn 2003/04, roedd y ddarpariaeth yn cynrychioli dadfeiliadau ar St Vincent's House a chostau prydles anorfod ynglŷn â gadael swyddfa Hilden House y Gronfa Gymunedol ym Melffast. Cafodd y costau hyn eu setlo yn ystod 2003/04.

Fel rhan o'r ailstrwythuro yn sgil yr uno gweinyddol â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd:

- Mae rhai aelodau staff cymwys wedi cytuno i ymddeol yn gynnar. O ganlyniad i'r cytundebau hyn, mae gan y Gronfa Gymunedol gytundeb i dalu rhai cyfraniadau pensiwn penodol hyd at ddyddiad ymddeol statudol yr unigolion hyn. Darparwyd amcangyfrif o gyfraniadau'r dyfodol i'r staff hynny a oedd wedi trefnu cytundebau ymddeoliad cynnar terfynol cyn 31 Mawrth 2005.
- Nodwyd swyddi penodol nad oes eu hangen mwyach. Darparwyd ar gyfer costau diswyddiad amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymgynghori â nhw cyn 31 Mawrth 2005, ond na thalwyd taliad llawn ar eu cyfer erbyn y dyddiad hwnnw. Gwneir taliadau diswyddiad yn unol â'r trefniadau a'r telerau contractiol a nodir yn nhrefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGS).

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 14 Ymrwymiadau grant

| | | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ymrwymiadau Caled** | | | | |
| Ymrwymiadau caled a ddygwyd ymlaen | | 399,859 | | 433,191 |
| Ymrwymiadau caled a wnaed | 199,321 | | 272,294 | |
| Ymrwymiadau caled a ddi-rymwyd ac a ddiddymwyd | (17,090) | | (14,648) | |
| Ymrwymiadau caled a fodlonwyd | (253,429) | | (290,977) | |
| Symudiad net yn yr ymrwymiadau caled | | (71,198) | | (33,331) |
| Ymrwymiadau caled a gariwyd ymlaen | | 328,661 | | 399,860 |

## Ymrwymiadau caled yn heneiddio

| | | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| I'w talu o fewn blwyddyn | | 169,049 | | 235,524 |
| I'w talu yn ystod: | | | | |
| 2006/07 (2005/06) | 104,207 | | 126,965 | |
| 2007/08 (2006/07) | 40,727 | | 35,813 | |
| 2008/09 (2007/08) | 12,350 | | 1,265 | |
| 2009/10 (2008/09) | 2,328 | 159,612 | 293 | 164,336 |
| Cyfanswm yr ymrwymiadau â chredydwyr eraill | | 328,661 | | 399,860 |

Mae'r ymrwymiadau caled a wnaed a'r ymrwymiadau caled a ddi-rymwyd neu a ddiddymwyd yn cynnwys £12,352,258 o drosglwyddiadau grant (2003/04 £8,452,019) gweler nodyn 1.7.

## 15 Ymrwymiadau Meddal

| | Ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau Meddal** | | |
| Ymrwymiadau meddal a ddygwyd ymlaen | 38,149 | 48,105 |
| Ymrwymiadau meddal a wnaed | 198,873 | 262,200 |
| Ymrwymiadau meddal a ddirymwyd ac a ddiddymwyd | (1,189) | 138 |
| Ymrwymiadau meddal a drosglwyddwyd yn ymrwymiadau caled | (199,321) | (272,294) |
| Ymrwymiadau meddal a gariwyd ymlaen | 36,512 | 38,149 |

## 16 Cynlluniau ar y cyd

Yn gynwysedig yn yr ymrwymiadau caled ceir £10.6 miliwn (2003/04 £9.9 miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £179,043 (2003/04 £49,000) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Gymunedol at gydgynllun Arian i Bawb Lloegr. Yn ystod 2004/05, cyfrannodd y Gronfa Gymunedol £10.9 miliwn at gyfanswm y cyllid o £37.8 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

Yn gynwysedig yn yr ymrwymiadau caled ceir £0.8 miliwn (2003/04 £- miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £190,882 (2003/04 £-) o ymrwymiadau grant a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth, sy'n cynrychioli cyfraniad y Gronfa Gymunedol at gyd-gynllun Cofio'r Ffrynt Cartref. Bydd y Gronfa Gymunedol yn cyfrannu £1 miliwn at gyfanswm y cyllid o £6.8 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran yr holl bartïon sy'n rhan o'r cytundeb.

## 17 Cysoni'r incwm a'r gwariant â'r mewnlif arian o weithgareddau gweithredu

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(Diffyg) cyn treth | 29,507 | (54,175) |
| Dibrisiant asedau sefydlog | 654 | 967 |
| Colled ar werthu asedau sefydlog | 109 | 4 |
| Incwm llog | (508) | (369) |
| Gwarged/(cost) net o weithgareddau gweithredu | 29,762 | (53,573) |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 824 | 21 |
| Gostyngiad ym malans CDdLG | 38,790 | 86,301 |
| Cynnydd mewn credydwyr | 4,034 | 11 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 938 | 182 |
| (Gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant | (71,199) | (33,331) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | 3,149 | (286) |

## 18 Risgiau ariannol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Gymunedol ddatgelu effaith offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae'r Gronfa Gymunedol yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

### Risgiau hylifedd

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2005, daeth £226.1 miliwn (93 y cant) o incwm y Gronfa Gymunedol o'r Loteri Genedlaethol. Daeth gweddill yr incwm o adenillion buddsoddi o'r balans a gadwyd yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £7.9 miliwn, (tri y cant), ac o lôg banc ac incwm arall, £9.6 miliwn (pedwar y cant).

Ar 31 Mawrth 2005 roedd gan y Gronfa Gymunedol rhwymedigaethau net o £147.9 miliwn, ac ymrwymiadau meddal o £36.5 miliwn. Er bod y Gronfa Gymunedol wedi gwneud ymrwymiadau sy'n fwy na'i hasedau, nid yw'r Bwrdd yn teimlo bod y Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau hylifedd arwyddocaol gan na fydd llawer o'r ymrwymiadau hyn yn cael eu talu tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Y rheswm am hyn yw mai dim ond ar ôl i ddeiliaid grant brofi eu hangen i dderbyn cyfran nesaf yr arian grant a glustnodwyd ar eu cyfer y bydd y Gronfa Gymunedol yn caniatáu iddynt dynnu unrhyw arian i lawr. Oherwydd y gwahaniaethau amseru rhwng y dyddiad y mae deiliad y grant yn derbyn y cynnig grant gan y Gronfa Gymunedol, a'r dyddiad y mae deiliad y grant yn dechrau tynnu'r arian hwn i lawr, anoga'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Gronfa Gymunedol orymrwymo'r arian sydd ar gael.

| | £'000 |
|---|---|
| **Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2005** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 174,460 |
| Arian parod | 9,866 |
| | 184,326 |
| **Rhagolygon llif arian 2005/2006** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 216,000 |
| Incwm arall | 9,000 |
| Taliadau costau gweinyddol | (22,000) |
| Taliadau grant | (237,000) |
| **Rhagolygon asedau hylifol 31 Mawrth 2006** | 150,326 |

# Nodiadau i'r cyfrifon

Seilir y rhagolygon incwm ar arweiniad a ddarperir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Seilir rhagolygon y taliadau grant ar broffiliau amcangyfrifedig ar gyfer tynnu grantiau i lawr a gyflwynwyd gan dderbynwyr y grantiau adeg y dyfarniad.

## Risgiau cyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol y Gronfa Gymunedol yn CDdLG, sy'n buddsoddi mewn band cyfyng o asedau risg isel, fel bondiau y Llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad yr arian yn CDdLG. Ar ddyddiad y Fantolen, £174.5 miliwn oedd gwerth marchnad y buddsoddiad yn CDdLG. Yn ystod y flwyddyn, cyfartaledd yr adenillion ar y buddsoddiadau hyn oedd 4.5 y cant.

Cedwir yr arian parod sy'n cael ei dynnu i lawr o'r Gronfa Gymunedol i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon cynilo dim rhybudd sydd â chyfraddau llog amrywiol, a oedd ar gyfartaledd yn gweithredu cyfradd llog o 2.9 y cant yn ystod y flwyddyn. Yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £9.9 miliwn. Nid yw'r Bwrdd yn credu bod y Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau sylweddol mewn perthynas â chyfraddau llog ar ei mantolau.

## Risgiau arian tramor

Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn cael ei datguddio i unrhyw risgiau arian tramor.

## 19 Ymrwymiadau ariannol
## Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2005, roedd gan y Gronfa Gymunedol yr ymrwymiadau blynyddol canlynol o dan brydlesi gweithredu.

| | Ceir ar brydles £'000 | Tir ac adeiladau £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2005 £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2004 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn | 10 | 90 | 100 | 609 |
| Yn dod i ben mewn 1 i 5 mlynedd | – | 900 | 900 | 690 |
| Yn dod i ben mewn mwy na 5 mlynedd | – | 626 | 626 | 473 |
| | 10 | 1,616 | 1,626 | 1,772 |

## Ymrwymiadau ariannol

Roedd y swm a gontractiwyd gyda Logica CMG Ccc ar 31 Mawrth 2005, ond na ddarparwyd ar ei gyfer, yn £ddim (£195,755 y flwyddyn gynt). Roedd hwn yn gontract ar gyfer cefnogaeth barhaus system ddyfarnu grantiau'r Gronfa Gymunedol.

Y swm a gontractiwyd â Swyddfa Fasnach y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2005, ond na ddarparwyd ar ei gyfer, oedd £411,000 (£180,000 y flwyddyn gynt). Cytundeb oedd hwn i ddarparu gwasanaeth Rhwydwaith Ardal Eang.

## 20 Cynllun pensiwn

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGS). O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall gweision sifil fod yn perthyn i un o dri chynllun "cyflog terfynol" statudol penodol diffiniedig (clasurol, premiwm neu glasurol plws). Nid yw'r Cynlluniau'n cael eu hariannu, gyda chostau'r buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir bob blwyddyn gan y Senedd. Mae'r pensiynau a delir dan y cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall aelodau newydd ers 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth bremiwm neu ymuno â threfniant rhanddeiliad safonol drwy "brynu arian" gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer y cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Mae buddion y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond fe all yr aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Yn ei hanfod, amrywiad ar y cynllun premiwm yw'r cynllun clasurol, ond gyda'r buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002, yn fras, yn cael eu cyfrif yn unol â'r cynllun clasurol.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng tri y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at bensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes yn rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n penderfynu gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o tri y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch).

Gellir dod o hyd i fanylion pellach am drefniadau PGS ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

# Nodiadau i'r cyfrifon

Ar gyfer 2004/2005, roedd cyfraniadau o £1,592,000 yn daladwy fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r PGPGS (2003/2004 £1,737,000) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod o 12 – 18.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel a ddangosir isod). Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddion fel maent wedi cronni, nid pan fo'r costau'n codi mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2005/06 wedi cynyddu ar sail argymhellion Actiwari'r Llywodraeth.

| Bandiau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 |
|---|---|
| £17,500 a llai | 12% |
| £17,501-£36,000 | 13.5% |
| £36,001-£62,000 | 16.5% |
| £62,001 a mwy | 18.5% |

| Bandiau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 |
|---|---|
| £17,000 a llai | 12% |
| £17,001-£35,000 | 13.5% |
| £35,001-£60,500 | 16.5% |
| £60,500 a mwy | 18.5% |

## 21 Taliadau arbennig a cholledion

Mae taliadau arbennig yn digwydd pan fydd grant wedi cael ei roi'n anfwriadol i sefydliad nad yw'n gymwys o dan y gyfraith, ond lle mae'r grant yn dod o fewn bwriad eang y ddeddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiect, yn unol ag amodau a thelerau'r grant. Yn ystod y flwyddyn ariannol tan 31 Mawrth 2005, gwnaed cyfanswm o £490,159 (£1,337,868 y flwyddyn flaenorol) mewn taliadau arbennig.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £000 |
|---|---|
| Nottingham Foundation for Music and Media | 107 |
| Foothold Crochan Ltd | 236 |
| Symiau'n llai na £100,000 | 147 |
| | 490 |

Ceir colledion pan na cheir tystiolaeth y bodlonwyd amcanion y prosiect. Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd 31 Mawrth 2005 daeth y colledion i gyfanswm o £1,242,325 (£1,679,544 y flwyddyn gynt).

Roedd y rheiny dros £100,000 fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £000 |
|---|---|
| International Youth House | 111 |
| Care Frica | 131 |
| Symiau'n llai na £100,000 | 1,000 |
| | 1,242 |

## 22. Trafodion partïon cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (ADdCCh) yw'r Gronfa Gymunedol. Ystyrir bod yr ADdCCh yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cael gwahanol drafodion perthnasol â'r ADdCCh a chyrff eraill yr ystyrir mai'r ADdCCh yw'r Adran noddi ar eu cyfer: y Gronfa Cyfleoedd Newydd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, 'Sport England'.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa Gymunedol nifer o drafodion ag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddi.

- Cynghorau Chwaraeon Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Cynghorau Celfyddydau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw at gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw cofrestr o fuddiannau mewn ceisiadau am grant a wneir i'r Gronfa Gymunedol ac o'u cysylltiadau masnachol â'r Gronfa Gymunedol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, ar gyfer cadeiryddion ac aelodau ei Phwyllgorau Dyfarnu Rhanbarthol, ac ar gyfer ei holl staff. Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid eu hystyried yn rhesymol fel penderfyniadau sy'n creu gwrthdaro rhwng buddiannau, yn bennaf ynghylch grantiau i gyrff gwirfoddol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod sicrhau ar y dechrau bod unrhyw fuddiannau'n cael eu datgelu a bod aelod perthnasol y pwyllgor yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod tra bo'r eitem berthnasol yn cael ei thrafod. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Gymunedol hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn cymryd rhan mewn prosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd wedi datgan buddiannau â chyrff gwirfoddol ac elusennol y mae gan y Gronfa Gymunedol fuddiannau busnes perthnasol â nhw.

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Stationery Office Ei Mawrhydi
10/04, 173472

# Adran deuddeg
## Cefndir statudol

Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol – enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol – fel corff cyhoeddus anadrannol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a ddaeth i rym ar 2 Medi 1998. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfran incwm Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y dylid ei derbyn ac yn rheoleiddio penodi pwyllgorau i ddyfarnu grantiau. Rhoddir pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon roi Cyfarwyddiadau ynglŷn â'r materion y dylid eu hystyried wrth ddyfarnu grantiau a'r amgylchiadau ar gyfer dosbarthu arian. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Gyfarwyddiadau Polisi a Chyfarwyddiadau Ariannol ym 1995. Diweddarwyd y rhain ym mis Chwefror 1999 a diwygiwyd y Cyfarwyddiadau Ariannol ymhellach ym mis Awst 2002. Cydymffurfiodd y Gronfa Gymunedol â'r cyfarwyddiadau hyn mewn pob ffordd berthnasol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2004-2005.

## Cyfarwyddiadau Ariannol

Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).

Cyfarwyddiadau Ariannol i'w cyflwyno i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (enw cyfreithiol y Gronfa Gymunedol) o dan Adran 26(3), (3A) a (4).

**i.** Rhaid i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol ("y Bwrdd") gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Datganiad Gofynion Ariannol sydd ynghlwm fel Atodiad i'r cyfarwyddiadau hyn wrth ymgymryd â'i swyddogaethau o dan adran 25 Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ("y Ddeddf") fel y'i diweddarwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 ("Deddf 1998"). Lle bo hynny wedi ei nodi yn yr Atodiad hwnnw, rhaid i'r Bwrdd gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn ymgymryd â rhai gweithgareddau.

**ii.** Rhaid i'r Bwrdd lunio a glynu wrth drefn ar gyfer ymdrin â gwrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai godi wrth gloriannu ceisiadau, gan y Bwrdd ei hun neu gan aelodau unigol o'r Bwrdd. Rhaid cyflwyno'r drefn hon, ynghyd â datganiad yn cadarnhau'r trefniadau sydd wedi'u cymhwyso, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Ysgrifennydd Gwladol") cyn dosbarthu unrhyw gyllid o dan adran 25 y Ddeddf, ac ar ddechrau pob blwyddyn ariannol wedi hynny.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ACB Ramsay, Pennaeth Grŵp yn yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

ACB Ramsay

Cyfarwyddwr Diwydiannau Creadigol, Darlledu a Gamblo

Cydymffurfiwyd â'r Cyfarwyddiadau fel a ganlyn:

**i.** Rydym wedi gweithredu gweithdrefnau trwy gydol y sefydliad i sicrhau bod y Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael ei ddilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau, ar sail sampl, bod yr holl swyddogion a'r adrannau'n dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u dosbarthu'n gywir. Gellir cael copi cyflawn o'r Datganiad o Ofynion Ariannol gan Gyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad y Gronfa Loteri Fawr.

**ii.** Rydym yn cadw cofrestr o'r buddiannau ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd, aelodau cyfetholedig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, aelodau'r Pwyllgor Rhanbarthol yn Lloegr a'r holl staff. Pan fydd unrhyw benderfyniadau pwyllgor yn cael eu gwneud a fydd o bosibl yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau y gwneir datgeliad a bod aelod perthnasol y pwyllgor yn ymadael â'r ystafell tra bod yr eitem berthnasol yn cael ei thrafod. Gweithredir gweithdrefnau hefyd i atal unrhyw aelod o staff rhag asesu ffurflen gais gan fudiad mae'n gysylltiedig ag ef. Rhoddir gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bob blwyddyn ynghylch cymhwyso'r gweithdrefnau hyn.

## Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus anadrannol, ac felly mae'n gweithredu o dan Gyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddir gan ei hadran noddi, sef yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfarwyddiadau Polisi yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r Gronfa Gymunedol eu dilyn. Cânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd; cyhoeddwyd y Cyfarwyddiadau presennol ym mis Chwefror 1999.

Ceir deg Cyfarwyddyd. Nodir y rhain isod gyda nodyn ynghylch ein cydymffurfedd â nhw.

**A. Yr angen i sicrhau mai at ddibenion elusennol (boed hynny'n elusennol o dan y gyfraith ai peidio), llesiannol neu ddyngarol yn unig y dosberthir yr arian.**

Mae holl grantiau'r Gronfa Gymunedol yn cael eu dyfarnu i fudiadau elusennol, llesiannol neu ddyngarol, y caiff eu cymhwyster ei wirio. Mae'r rhain yn cynnwys elusennau a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, a'r rheiny sy'n cael eu cydnabod fel bod yn elusennol at ddibenion treth gan Gyllid y Wlad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rhaid i fudiadau llesiannol a dyngarol feddu ar nodweddion elusen er mwyn bodloni'r prawf cyfreithiol, h.y., rhaid iddynt fod yn gwbl rydd o unrhyw nodweddion anelusennol, a rhaid iddynt weithredu oherwydd allgaredd, er budd i'r cyhoedd ac nid er budd preifat.

**B. Yr angen i sicrhau bod y Bwrdd, yn y polisïau a fabwysiedir ganddo o bryd i'w gilydd a chan ystyried yr asesiad o'i anghenion ac unrhyw flaenoriaethau a nodwyd ganddo yn ei strategaeth, a chan gymryd camau rhesymol i hysbysebu argaeledd grantiau'n eang, yn llwyddo i ddosbarthu arian dros gyfnod o amser:**

**i.** i amrywiaeth rhesymol eang o dderbynwyr, gan gynnwys sefydliadau bychain a'r rheiny sy'n gweithredu'n ar lefel leol yn unig;

ac

**ii.** ar draws ystod resymol eang o weithgareddau elusennol (boed hynny'n elusennol o dan y gyfraith ai peidio), llesiannol a dyngarol.

Rydym yn cymryd camau rhesymol i hysbysebu ein rhaglenni grantiau. Mae gennym ffurflenni cais ar wahân ar gyfer ein rhaglenni Grantiau i Brosiectau Mawr a Grantiau i Brosiectau Canolig (ar gyfer prosiectau gwerth hyd at £60,000), a ddyluniwyd i alluogi ystod eang o ddarpar ymgeiswyr i gyflwyno cais. Bwriad cyfraniad y Gronfa Gymunedol at y Rhaglen Arian i Bawb yw sicrhau bod gan sefydliadau llai, yn ogystal â rhai lleol, y cyfle i wneud cais am grantiau unwaith ac am byth gwerth hyd at £5,000 mewn ffordd syml. Mae gwaith datblygu a chyhoeddusrwydd yn helpu i sicrhau ein bod yn cefnogi ystod eang o weithgareddau yn ein rhaglenni diffiniedig ac yn ein strategaeth.

# Adran deuddeg

**C. Yr angen i ystyried o'r cychwyn:**

**i.** buddiannau'r DU cyfan;

**ii.** buddiannau gwahanol rannau o'r DU;

a

**iii.** maint y boblogaeth sy'n berthnasol i wahanol rannau'r DU, a'r ffactorau economaidd-gymdeithasol priodol sy'n gymwys iddynt; ac, yn ogystal, i ystyried buddiannau'r sefydliadau hynny sydd wedi'u seilio yn y DU ac sy'n gweithio tramor, ac i ddosbarthu grantiau yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn.

Mae Pwyllgorau Dyfarnu Grantiau'n sicrhau bod buddiannau gwahanol rannau'r DU, y DU gyfan, a mudiadau sydd wedi eu lleoli yn y DU ond sy'n gweithio dramor yn cael eu cynrychioli wrth i ni ddyfarnu grantiau. Mae'r Pwyllgorau Gwlad ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r naw Pwyllgor Rhanbarthol yn Lloegr yn ymdrin â grantiau yn eu hardaloedd nhw. Ers Hydref 2002, mae'r Pwyllgor Grantiau Strategol wedi dyfarnu grantiau, o dan y Rhaglen Grantiau Strategol, i brosiectau sydd o fudd i ddau ranbarth neu fwy yn Lloegr a hyd at bedwar gwlad y DU, ar gyfer grantiau ymchwil a rhyngwladol. Cyn hynny, roedd Pwyllgor Lloegr yn gyfrifol am ddyfarnu grantiau ledled Lloegr, ac roedd cyn Bwyllgor y DU yn gyfrifol am ddyfarnu grantiau i'r DU gyfan a grantiau ymchwil a rhyngwladol.

Dyrennir y gyllideb ar gyfer dyfarnu grantiau rhwng gwledydd y DU a naw rhanbarth Lloegr ar sail poblogaeth wedi ei phwysoli gan ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n ystyried anghenion y gwledydd a rhanbarthau gwahanol. Ceir dyraniadau gwahanol ar gyfer Rhaglenni'r Pwyllgor Grantiau Strategol.

**D. Anghenion plant a phobl ifanc.**

Yn ystod 2004-05, dyfarnom grantiau gwerth £82,258,967 a oedd o fudd i blant a phobl ifanc, drwy ein holl raglenni grant.

**E. Yr angen i hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy.**

Mae datblygiad cynaliadwy yn ffactor pwysig yn ein proses o ddyfarnu grantiau, a chymhwyswyd ei egwyddorion mewn llawer o ffyrdd drwy ein rhaglenni grant a'n hymarferion. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi ymrwymo i adeiladu ar waith blaenorol ei sefydliadau etifeddiaeth, ac i ddatblygu ei hymagweddau tuag at ddatblygiad cynaliadwy wrth ddyfarnu arian a'r modd y mae'n gweithio. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymchwil gan y Comisiwn Datblygiad Cynaliadwy ar ran y Gronfa Loteri Fawr er mwyn asesu i ba lefel y mae datblygiad cynaliadwy wedi ei ymgorffori ym mhrosesau gwneud cais, asesu a gwerthuso'r Gronfa Gymunedol, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Loteri Fawr, a hynny i ddod o hyd i feysydd arfer da a chyfleoedd ar gyfer gwella. Bydd hyn yn llywio datblygiad ein rhaglenni a'n polisïau yn y dyfodol.

**F. Yr angen i osod amserlenni penodol ar y cyfnodau y mae grantiau yn daladwy ynddynt, p'un ai ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.**

Yn gyffredinol, rydym yn dyfarnu grantiau am gyfnod o hyd at dair blynedd (pum mlynedd ar gyfer prosiectau tramor). Bu'n bosibl i sefydliadau sy'n derbyn grantiau ail-geisio am grant datblygu am hyd at dair blynedd arall, er y caiff yr ymgeiswyr hyn eu hasesu mewn cystadleuaeth â phrosiectau newydd. Mewn achosion eithriadol, dyfarnwyd grantiau am drydydd cyfnod o dair blynedd. Caeodd holl raglenni grant presennol y Gronfa Gymunedol ei geisiadau ar 31 Mai 2005.

**G. Yr angen:**

**i.** ym mhob achos, i ymgeiswyr ddangos ymarferoldeb ariannol eu prosiect dros gyfnod y grant;

**ii.** lle gwneir cais am arian cyfalaf, am gynllun busnes clir sy'n cynnwys darpariaethau y tu hwnt i gyfnod y grant ar gyfer y costau gweithredu a'r costau cynnal a chadw cysylltiedig;

a

**iii.** mewn achosion eraill, i ystyried argaeledd tebygol cyllid pellach i fodloni unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan ystyried maint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r cynnydd tuag at hyfywdra lle bo'n bosibl.

Caiff y materion hyn eu trafod yn ein gweithdrefnau asesu a'n harweiniad i ymgeiswyr.

**H. Dymunoldeb gweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, lle bydd hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o'i strategaeth.**

Trwy drefniadau'r Gronfa Loteri Fawr, mae'r Gronfa Gymunedol yn cydweithio â'r cyrff dosbarthu eraill ar nifer o faterion cyffredin, gan sicrhau ein bod yn parhau i wella'n polisïau a'n gweithdrefnau yn unol â'r cynigion a nodwyd yn Nogfen Benderfynu ar Arian Loteri yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Gorffennaf 2003.

**I. Yr angen i sicrhau y defnyddir ei phwerau i ddeisyf ceisiadau o dan Adran 25(2A) (Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, fel y'i diwygiwyd) mewn cysylltiad â dilyn amcanion strategol.**

Cyflwynwyd ail Gynllun Strategol y Gronfa Gymunedol gerbron y Senedd ar 15 Ebrill 2002. Mae hwn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer dyfarnu grantiau a sut y cymhwysir y rhain ym mhob gwlad yn y DU ac ym mhob rhanbarth yn Lloegr. Caiff pwerau deisyf sydd ar gael i'r Gronfa Gymunedol eu defnyddio, os bydd eu hangen, gan y Cynllun Strategol ar gyfer dyfarnu grantiau ac i hyrwyddo anghenion ymchwil.

**J. Yr angen i sicrhau bod ganddi'r wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ynghylch pob cais, gan gynnwys cyngor arbenigwyr annibynnol lle bydd ei angen.**

Mae'r ffurflenni cais am grant ar gyfer holl raglenni'r Gronfa Gymunedol yn casglu gwybodaeth gan yr ymgeiswyr a'u prosiectau, sydd wedi hynny'n cael ei hasesu yn unol â'n harweiniad a'n trefniadau er mwyn gwneud penderfyniadau. Rydym yn ceisio cyngor arbenigol lle bo'i angen (er enghraifft ynghylch ymchwil meddygol ac ymchwil cymdeithasol ehangach) i ategu'n proses benderfynu. Rydym hefyd yn cymryd cyngor gan ymgynghorwyr eraill os bydd ceisiadau am grant yn gwneud hynny'n ofynnol (er enghraifft, cyngor ariannol arbenigol).

Gerald Oppenheim, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad

Y Gronfa Loteri Fawr, Mehefin 2005

# Adran tair ar ddeg

## Rhestr o'r grantiau rhwng £100,000 a £250,000

Mae ein cyfarwyddiadau polisi yn ei gwneud yn ofynnol i ni restru'r holl grantiau a wneir sy'n werth mwy na £100,000:

**Dwyrain Canolbarth Lloegr**

| | |
|---|---|
| Nottingham Women's Counselling Project | 100,513 |
| Community Concern Erewash | 102,181 |
| Hallmark Community Housing Association Limited | 104,449 |
| Relate Derby & Southern Derbyshire | 104,743 |
| Citizen Advocacy Lincolnshire Link | 105,113 |
| Ashwood Community Resource | 107,675 |
| Ollerton and Boughton Scout and Guide Group | 111,793 |
| Refugee Housing Association Limited | 113,931 |
| Lincoln Community Development Worker Project | 117,350 |
| Age Concern Leicester | 122,979 |
| South Leicestershire Citizens Advice Bureau | 127,554 |
| Hope For The Homeless | 131,497 |
| Age Concern Regional Support Services (East Midlands) | 131,717 |
| Leicester Money Advice | 132,223 |
| Disability Direct | 132,279 |
| Daylight Centre Fellowship | 135,325 |
| South Leicestershire Council for Voluntary Service | 136,281 |
| Lutterworth Volunteer Bureau | 136,463 |
| West Lindsey Citizens Advice Bureau | 138,968 |
| BTCV | 145,304 |
| Citizens Advice Broxtowe | 148,930 |
| Fiskerton-cum-Morton Sports and Gala Association | 150,000 |
| Swineshead Pre-School Playgroup | 150,000 |
| Voluntary Action Hinkley and Bosworth | 157,545 |
| Derby Rape Crisis | 159,160 |
| Friary Drop-In Limited | 165,941 |
| Worksop United Church | 170,000 |
| Rumbles Catering Project Ltd | 172,337 |
| Fiskerton Village Hall | 175,000 |
| Home-Start Boston | 199,766 |
| Jacksdale Miners' Welfare Institute | 220,195 |
| The Old Post Regeneration Association Limited | 225,170 |

**Dwyreiniol**

| | |
|---|---|
| S N A P Special Needs And Parents | 101,350 |
| Norfolk & Norwich Association For Mental Health | 107,092 |
| The Disability Resource Centre | 107,652 |
| Alcohol Services For The Community (ASC) | 110,818 |
| Cambridge Ethnic Community Forum | 111,037 |
| Wayland Partnership Development Trust | 111,746 |
| Community Development Agency for Hertfordshire | 112,551 |
| Cambridge Independent Advice Centre | 115,301 |
| The Samaritans of Basildon And Thurrock | 118,970 |
| Suffolk Refugee Support Forum | 121,089 |
| Bloodmoor Hill Community Association | 121,793 |
| Home-Start Maldon District | 126,000 |
| All Saints' Centre For Employment and New Directions Ltd | 132,580 |
| Childrens Legal Centre | 134,161 |
| Suffolk Association Of Voluntary Organisations | 135,763 |
| Ipswich Housing Group | 140,393 |
| African Caribbean Arena | 141,200 |
| Waveney Young Peoples' Project | 147,352 |
| Royal Mencap Society | 147,405 |
| The Parochial Church Council, The Parish of Pitsea with Nevendon | 147,584 |

| | |
|---|---|
| The Pavis Foundation for Visually Impaired People | 153,059 |
| Lowestoft & District Volunteer Bureau | 154,799 |
| Care Network | 159,025 |
| Brandon & Mildenhall Citizens Advice Bureau | 165,374 |
| Dial Basildon | 171,337 |
| St Lukes Hospice (Basildon & District) Limited | 179,531 |
| Centre For African Families Positive Health | 186,925 |
| British Red Cross Society | 192,986 |
| Community Connections | 207,661 |
| The Royal Philanthropic Society incorporating The Rainer Foundation | 224,230 |
| Blackwater Charitable Housing Association Ltd | 247,670 |

**Llundain**

| | |
|---|---|
| St. Dunstan's Parochial Church Council | 100,000 |
| Hackney Chinese Community Services | 100,928 |
| London Advice Services Alliance Company Limited | 103,000 |
| Dulwich Helpline | 103,616 |
| The Religious Sisters of Charity Charitable Trust | 107,800 |
| Enfield Voluntary Action | 107,894 |
| Kiran Asian Women's Aid | 112,486 |
| Croydon Somali Community Association | 113,243 |
| Kingsgate Community Association | 117,641 |
| Islington Age Concern | 118,088 |
| African Youth League | 119,025 |
| FPWP Hibiscus Ltd | 122,092 |
| Bede House Association | 122,670 |
| Thames View Community Project | 125,567 |
| New Economics Foundation | 127,078 |
| Weavers Adventure Playground Association | 127,253 |
| Africa Educational Trust | 128,414 |
| Mosaic Clubhouse | 129,116 |
| Core Arts | 129,336 |
| Waterloo Community Counselling | 129,383 |
| Family Support Group | 130,400 |
| M O S A C Mothers Of Sexually Abused Children | 137,083 |
| WinVisible | 140,573 |
| The Trojans Scheme | 142,551 |
| Somali Advice And Resource Centre (London & the South East) | 143,368 |
| The Action Trust For Blind And Disabled People | 144,841 |
| St James' House | 146,630 |
| Greenwich Action Committee Against Racist Attacks | 149,613 |
| Islington Age Concern | 149,732 |
| The Women's Therapy Centre | 153,002 |
| The Migrant's Resource Centre | 153,442 |
| Asian Women Lone Parents' Association | 154,234 |
| ADVANCE (Advocacy & Non Violence Community Education) | 155,287 |
| London 21 Sustainability Network | 155,530 |
| The London Magistrates Courts Support and Information Service | 157,223 |
